Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>25 TACHWEDD 2019<br>10.00 o'r gloch** | **MONDAY<br>25 NOVEMBER 2019<br>10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI** | **COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |

| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiadau o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Dim materion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno i'w cadarnhau, cofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2019.

**4** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 11 - 24)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL – CHWARTER 2, 2019/20** (Tudalennau 25 - 34)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid.

**6** **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 2, 2019/20** (Tudalennau 35 - 68)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7** **MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 2, 2019/20** (Tudalennau 69 - 78)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8** **MONITRO CYLLIDEB Y CRT – CHWARTER 2, 2019/20** (Tudalennau 79 - 86)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9** **SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER 2020/21** (Tudalennau 87 - 92)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**10** **FFEDERALEIDDIO YSGOL GORONWY OWEN AC YSGOL MOELFRE** (Tudalennau 93 - 96)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

**11** **YSGOGIAD ECONOMAIDD LLYWODRAETH CYMRU** (Tudalennau 97 - 104)

Cyflwyno adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Hydref, 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddoog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc (ar gyfer eitem 9)<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer eitem 5)<br>Prif Swyddog Cynllunio (ar gyfer eitemau 8 a 10)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ)<br>Rheolwr Gwasanaethau Tai (Strategaeth, Comisiynu a Pholisi) (ar gyfer eitem 6)<br>Rheolwr Gwasanaethau Busnes (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) (CB) (ar gyfer eitem 11)<br>Rheolwr Polisi Cynllunio (RJ) (ar gyfer eitem 8)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Richard Dew a Carwyn Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Glyn Haynes, Eric Jones, G.O.Jones, R. Llewelyn Jones, Dylan Rees ac Alun Roberts |

---

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Annwen Morgan i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Gwaith fel Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn.

### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Dim i'w hadrodd.

### 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 16 Medi, 2019 i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 16 Medi, 2019 fel rhai cywir.**

### 4. COFNODION – PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd cofnodion drafft y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 9 Medi, 2019 ar gyfer eu mabwysiadu.



DRAFT

**Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 9 Medi, 2019.**

## 5. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Tachwedd, 2019 a Mehefin 2020 i'w ystyried a nodwyd y newidiadau canlynol –

- **Eitemau Newydd**
    - Eitem 7 – Newidiadau i'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu'r ailstrwythuro mewnol (ar gyfer cyfarfod 25 Tachwedd, 2019)
    - Eitem 9 – Ysgogiad Economaidd Llywodraeth Cymru (ar gyfer cyfarfod 25 Tachwedd, 2019)
    - Eitem 10 – Cyflwyno Galw Gofal – Costau Cyswllt Gofal ar gyfer Tenantiaid Tai Cyngor (cadarnhad o'r cynigion a chymeradwyaeth er mwyn cynnal gwaith ymgysylltu)(ar gyfer cyfarfod 25 Tachwedd, 2019)
    - Eitem 34 – Cyflwyno Galw Gofal – Costau Cyswllt Gofal ar gyfer Tenantiaid Tai Cyngor (canlyniadau'r ymgysylltiad a chymeradwyo'r polisi) (ar gyfer cyfarfod 27 Ebrill, 2020)

- **Eitemau sydd wedi eu Gohirio**

- Eitem 8 – Bid Twf Gogledd Cymru – i'w ail drefnu, dyddiad i'w gadarnhau
- Eitem 11 – Cyllideb 2020/21 (cynigion cychwynnol drafft ar gyfer ymgynghoriad) – I'w ystyried gan bwyllgor arbennig o'r Pwyllgor Gwaith i'w gynnal ar 23 Rhagfyr, 2019.
- Eitem 32 – Archwiliad CIW o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn (adroddiad cynnydd 6 mis ar y Cynllun Gwella) – i'w ail drefnu ar ddyddiad i'w gadarnhau yn dilyn argymhellion y 2 bwyllgor sgriwtini ar amserlennu'r 3 phanel sgriwtini (yn cynnwys y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol).

Nododd y Pwyllgor Gwaith bod y cynigion cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2020/21 wedi cael eu gohirio i gyfarfod 23 Rhagfyr oherwydd y llithriant yn amserlen Llywodraeth Cymru gyda chyhoeddiad y setliad drafft cychwynnol ar gyfer llywodraeth leol yn cael ei wneud yn llawer hwyrach nag arfer.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Tachwedd, 2019 hyd at Mehefin, 2020 gyda'r newidiadau ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 6. POLISI GOSOD TAI CYNGOR (CYSWLLT LLEOL)

Cyflwynwyd ar gyfer ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn gofyn am ganiatâd y Pwyllgor Gwaith i ddiwygio'r Polisi Gosod Tai Cyngor.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau bod y Polisi Gosod Tai Cyngor wedi bod yn weithredol ers 2016 a bod yr adolygiad presennol, a oedd yn ceisio sefydlu a yw'r polisi presennol yn cyfrannu tuag at gymunedau cynaliadwy, hefyd yn gyfle i newid rhai elfennau o'r polisi er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben wrth symud ymlaen. Yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith, cyflawnwyd ymgynghoriad cynhwysfawr ar ddiffinio a chynnwys cysylltiad lleol o fewn y system fandio gyda'r gynulleidfa darged fel y nodwyd yn yr adroddiad; derbyniwyd 114 o ymatebion gyda chefnogaeth i gynnwys cyswllt lleol fel

ystyriaeth o fewn y polisi gyda chysylltiad ag ardal benodol i gael ei ddiffinio drwy edrych ar ddalgylchoedd cynghorau tref a chymuned. Derbyniwyd ymateb da hefyd i'r cwestiynau eraill a gyflwynwyd mewn perthynas â gweithrediad y polisi. Dywedodd yr Aelod Portffolio bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 11 Medi, 2019 wedi craffu ar ganlyniad yr ymgynghoriad ac roedd y pwyllgor ynghyd â'r Aelodau yn gefnogol o'r gwelliannau a gynigwyd.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Dylan Rees, Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol bod y Pwyllgor, wedi iddynt ystyried y broses ymgynghori a'r ymatebion, yn fodlon fod y broses wedi bod yn ddigonol a bod y newidiadau i'r Polisi Gosod Tai Cyngor yn dderbyniol yn seiliedig ar yr ymatebion a dderbyniwyd. Penderfynodd y Pwyllgor felly y dylid argymell fod y Polisi Gosod Tai Cyngor yn cael ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith, yn cynnwys y newid mewn perthynas â chyswllt lleol.

Nododd y Pwyllgor Gwaith, wrth gefnogi a chroesawu cyflwyniad y ddarpariaeth cyswllt lleol i'r Polisi Gosod Tai, ei fod yn helpu i greu cymunedau cynaliadwy drwy sicrhau bod cysylltiadau teuluol a chymunedol yn cael eu cynnal ond nododd hefyd y bydd cwrdd ag anghenion brys mewn perthynas â thai hefyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Polisi Gosod Tai Cyffredin diwygiedig fel y'i cyflwynwyd.**

**7. ADRODDIADAU BLYNYDDOL A CHYFRIFON YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH YNYS MÔN 2018/19**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn cynnwys yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gyfer 2018/19 ar gyfer eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod yr adroddiad yn darparu trosolwg o gefndir Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn gan gynnwys statws cyfreithiol yr Ymddiriedolaeth a'r gwahanol elfennau ynddi h.y. y tair cronfa sy'n ffurfio'r Ymddiriedolaeth (Stad Elusennol David Hughes, Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 (Cyfyngedig), Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 (Cyfyngedig)). Mae'r Ymddiriedolaeth yn ennill incwm drwy gasglu rhenti o bortffolio Ymddiriedolaeth Gwaddol David Hughes y mae'n buddsoddi ynddynt a difidendau a llog ar fuddsoddiadau'r Gronfa Buddsoddi a reolir, llogau eraill a gwerthiant buddsoddiadau. Mae gwariant yn ymwneud â chynnal a chadw eiddo, nwy a thrydan ac ati, dibenion elusennol, ffioedd elusennol (archwilio) a ffioedd rheoli eiddo. Darperir gwybodaeth mewn perthynas ag incwm, gwariant ac asedau'r Ymddiriedolaeth yn Atodiad A yr adroddiad sy'n cynnwys y cyfrifon ariannol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth 2018/19. Mae'r rhain yn dangos bod elw net o £113,016 ar gyfer y flwyddyn; daeth buddsoddiadau incwm i £131,010 (£125,970 ohono o Stad David Hughes a £5,040 o ddifidendau a llog). Roedd gwariant ar gyfer y cyfnod yn £126,589 gyda £99,943 ohono'n mynd ar drwsio a chynnal a chadw. Ar 31 Mawrth, 2019 roedd cyfanswm cronfeydd yr Ymddiriedolaeth yn £3,237,050, ac o'r swm hwn, roedd £372,681 yn falans arian parod yr Ymddiriedolaeth ar y dyddiad hwn.

Atgoffodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 pawb am ddibenion elusennol y tair cronfa y mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn wedi eu rhannu iddynt, y prif ffynonellau cyllido a'r dosbarthiad o gyllid rhwng y tair cronfa. (Mae paragraff 2.1. yr adroddiad yn cyfeirio at hyn). Nododd y Swyddog fod yna lawer o wariant wedi bod ar uwchraddio'r portffolio eiddo oedrannus er mwyn sicrhau ei fod i fyny i'r safon a bod y buddsoddiad hwn wedi parhau yn 2018/19 gyda £99,943 yn cael ei wario ar drwsio a chynnal a chadw stad David Hughes gan adael £5,621 dros ben i'w wario rhwng y tair

cronfa. Mae'r rhan fwyaf o werth y Gronfa yn dod o stad David Hughes - £2,545,800. Mae'r Gronfa felly yn ariannol iach ac mae'r adroddiad uchod yn cwblhau'r gwaith o adrodd ar gyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn am eleni.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn ddiolchgar am y gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth Cyllid er mwyn sicrhau mwy o eglurder o ran y ffordd y mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn gweithio a hynny drwy'r adroddiad hwn a'r adroddiad a nodir ymhellach o dan eitem 13 ar yr agenda. Holodd y Pwyllgor Gwaith a yw'r Cyngor yn adroddiadau ar y defnydd o'r arian a dderbynnir gan Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion, sef cyfanswm o chwarter unrhyw incwm dros ben net o Stad Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol). Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, oherwydd nad yw'r elusen yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Cyngor ei bod yn adrodd yn uniongyrchol i'r Comisiwn Elusennau ac mai unig rôl y Cyngor mewn cysylltiad â'r elusen yw dosbarthu'r cyllid perthnasol iddi.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn am 2018/19 fel y'u cyflwynwyd o dan Atodiad A i'r adroddiad.**

## 8. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

Cyflwynwyd ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol yn cynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Awst 2017 a Mawrth 2019.

Yn absenoldeb yr Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid bod angen i'r Cynghorau gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol ar weithrediad y strategaeth a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth o'r flwyddyn flaenorol i Lywodraeth Cymru. Fel arfer, mae angen cyhoeddi'r adroddiad monitro cyntaf erbyn 31 Hydref o'r flwyddyn yn dilyn mabwysiadu'r cynllun datblygu lleol ar y cyd, fodd bynnag, nid oes modd i hyn ddigwydd pan mae llai na 12 mis rhwng dyddiad mabwysiadu'r cynllun a 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol. Gan y mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd ddiwedd Gorffennaf 2017 dyma'r cyfle cyntaf i gyflwyno'r adroddiad monitro blynyddol i Lywodraeth Cymru ar weithrediad y cynllun dros flwyddyn ariannol lawn. Ychwanegodd yr Aelod Portffolio bod yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn darparu crynodeb o berfformiad y Cynllun dros y cyfnod yn erbyn cyfres o ddangosyddion o fewn y Fframwaith Monitro (a nodir ym mhennod 7 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd) a ddefnyddir er mwyn monitro effeithlonrwydd y Cynllun a'i bolisïau. Mae canfyddiadau'r Adroddiad Monitro cyntaf yn dangos bod y dangosyddion hyn, ar y cyfan, yn perfformio yn unol â'r disgwyliadau ac o ganlyniad ei fod yn hapus cynnig yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith gyda'r argymhelliad bod y Prif Swyddog Cynllunio yn cael yr awdurdod i wneud y newidiadau golygyddol terfynol, unrhyw ddiwygiadau a/neu gywiriadau i'r adroddiad cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cynllunio bod canfyddiadau allweddol yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn yn gadarnhaol a bod y dystiolaeth a gasglwyd yn dangos bod polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn llwyddo i ddarparu amcanion Strategol y Cynllun. Bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn darparu gwaelodlin tystiolaeth ar y dangosyddion er mwyn gallu cymharu yn y dyfodol, rhywbeth a fydd yn galluogi'r Cyngor i adnabod unrhyw dueddiadau, rhywbeth sy'n bwynt allweddol gan fod hon yn broses ailadroddol a blynyddol dros nifer o flynyddoedd a ddylai adnabod heriau a chyfleoedd ynghyd â dulliau posib ar gyfer adolygu ac addasu polisïau lleol. O ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd gan yr Adroddiad Monitro Blynyddol felly, ni ystyrir fod y Cynllun Datblygu ar y Cyd angen ei adolygu'n llawn na'n rhannol ar hyn o bryd a hynny am y rhesymau a nodwyd. Mae polisïau'r

Cynllun yn cael eu gweithredu yn unol â'r disgwyliadau ac mae'r Cynllun yn cyflawni ei amcanion ar hyn o bryd.

Adroddodd y Cynghorydd G.O.Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, ar drafodaethau'r Pwyllgor ar y mater hwn yn ei gyfarfod 24 Hydref, 2019. Nododd fod y Pwyllgor wedi trafod pwysigrwydd y fframwaith monitro a'r Adroddiad Monitro Blynyddol o ran asesu effeithlonrwydd y CDLIC; y trefniadau ar gyfer sicrhau cadernid yr Adroddiad Monitro Blynyddol a'i gydymffurfiaeth â gofynion statudol a'r fframwaith polisi er mwyn datblygu tai mewn ymateb i angen lleol ac er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o dai fforddiadwy. Roedd y Pwyllgor yn hapus i argymell yr Adroddiad Monitro Blynyddol i'r Pwyllgor Gwaith fel sylfaen ar gyfer y gwaith o fonitro'r CDLIC yn y dyfodol; gan gadarnhau bod y CDLIC yn perfformio'n briodol ac yn darparu tystiolaeth nad oes unrhyw bolisi cynllunio unigol yn methu â bodloni ei amcanion; fodd bynnag, penderfynodd y Pwyllgor hefyd i wahodd Swyddogion i ystyried ffyrdd o baratoi fersiwn fwy gweledol, hawdd ei darllen, o'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer y flwyddyn fonitro nesaf.

Cydnabuwyd gan y Pwyllgor Gwaith y gwaith a oedd wedi mynd i mewn i baratoi'r Adroddiad Monitro Blynyddol a chroesawodd ei ganlyniadau. Nododd y Pwyllgor Gwaith y pwyntiau a wnaed gan Sgriwtini a gofynnwyd am gadarnhad gan y Swyddog os oedd gwneud yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn rhywbeth mwy darllenadwy, yn cynnwys mapiau manylach, yn rhywbeth y gallai'r Swyddogion ei wneud. Nododd y Prif Swyddog Cynllunio bod yn rhaid i'r Adroddiad Blynyddol gydymffurfio â fformat penodol o ddogfennu'r holl ddangosyddion angenrheidiol ond y byddai Swyddogion yn edrych ar ddarparu rhyw fath o atodiad a/neu grynodeb gyda'r adroddiad sydd yn haws i'w ddarllen.

**Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd o Awst, 2017 hyd at Mawrth, 2019 a'r casgliadau ynddo ac awdurdodi'r Prif Swyddog Cynllunio i wneud unrhyw newidiadau/diwygiadau a/neu gywiriadau golygyddol terfynol cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref, 2019.**

**9. GOSTWNG OED MYNEDIAD YSGOL LLANDEGFAN**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc yn dilyn cais gan Gorff Llywodraethol Ysgol Llandegfan i ymgynghori ar ostwng oedran mynediad yr ysgol i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer ei ystyriaeth.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc bod Corff Llywodraethol Ysgol Llandegfan wedi cyflwyno cais i'r Cyngor yn gofyn iddo ymgynghori ar ostwng yr oedran mynediad ar gyfer yr ysgol er mwyn gallu derbyn disgyblion yn rhan-amser o'r mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed (yn weithredol o fis Medi 2020) yn hytrach na'r trefniadau presennol lle bydd disgyblion yn cael eu derbyn yn llawn amser ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed. Mae'r Corff Llywodraethol o'r farn y byddai hyw yn ddatblygiad pwysig i'r ysgol gan y byddai'n galluogi disgyblion i gael mynediad i ddarpariaeth helaeth a chyfoethog a byddai'n sicrhau cysondeb, cynnydd a pharhad yn addysg y disgyblion, ynghyd â darparu addysg feithrin ffurfiol ar gyfer plant y dalgylch. Byddai hefyd yn galluogi'r ysgol i drefnu gofal plant hyblyg a fforddiadwy ar gyfer rhieni sy'n dymuno dychwelyd i'r gwaith.

Siaradodd y Cynghorydd Alun Roberts fel Aelod Lleol o blaid y cais gan dynnu sylw at y ffaith bod Ysgol Llandegfan yn ysgol lwyddiannus ond a all fod o dan anfantais oherwydd y trefniadau presennol gan nad oes modd i'r ysgol gynnig clwb gofal/brecwast i'r disgyblion meithrin ac o ganlyniad bod rhieni yn dewis mynd â'u plant i ysgolion cyfagos er mwyn derbyn y ddarpariaeth hon. Byddai gostwng yr oedran mynediad yn dod â nifer o fanteision addysgol gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, galluogi'r ysgol i gynnig darpariaeth gadarn flwyddyn yn gynharach nag sy'n digwydd ar hyn o bryd gan ei galluogi i gyflwyno ethos a sylfaen addysgol gadarn yr ysgol yn gynt gyda hynny yn y pen draw yn hwyluso cynnydd

DRAFT

addysgol y disgyblion. Yn ogystal, byddai newid ystod oedran yr ysgol yn gwella cysondeb yn y ddarpariaeth cyn ysgol, yn enwedig o ran darpariaeth ieithyddol.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y sylwadau a wnaed ac fe gytunodd i'r cais y dylid cynnal ymgynghoriad ar ostwng yr oedran mynediad i Ysgol Llandegfan.

**Penderfynwyd cymeradwyo symud ymlaen i ymgynghori ar ostwng oedran mynediad Ysgol Llandegfan i dderbyn disgyblion yn rhan amser o'r mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed yn weithredol o Fedi 2020.**

## 10. FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL DRAFFT

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol, yn cynnwys ymateb drafft Cyngor Sir Ynys Môn i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Yn absenoldeb yr Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, adroddodd y Cadeirydd bod ymateb drafft y Cyngor i'r ymgynghoriad ar gynigion o fewn y Fframwaith Datblygu Lleol wedi'i rannu â holl Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth ac ar gyfer eu mewnbwn. Yn ogystal, mae sylwadau wedi eu derbyn gan gynghorau tref a chymuned ac maent wedi eu hanfon ymlaen at y Swyddogion. Mae Arweinwyr y chwe Chyngor yng ngogledd Cymru hefyd yn rhoi ymateb at ei gilydd ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru er mwyn tynnu sylw at fannau lle mae cynigion y Fframwaith yn gwyro oddi wrth ddyheadau'r Bwrdd ar gyfer yr ardal. Dywedodd y Cadeirydd ei bod bellach yn deall bod y dyddiad cau o 1 Tachwedd, 2019 ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad bellach wedi'i ymestyn i 15 Tachwedd 2019 ac ychwanegodd yr hoffai fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Swyddogion y Cyngor am gydlynu'r ymateb ac am ddod â'r wybodaeth at ei gilydd.

Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio bod ymateb i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn hynod bwysig gan y bydd yn gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru rhwng 2020 a 2040; mae'n amlinellu strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, yn cynnwys cynnal a datblygu economi ffyniannus, datgarboneiddio, datblygu ecosystemau gwydn a gwella iechyd a llesiant cymunedau. Mae'n gynllun gofodol ac mae'n rhan o'r haen uchaf o gynlluniau datblygu sy'n canolbwyntio ar faterion a heriau ar raddfa genedlaethol. Mae'r Cyngor felly'n croesawu'r cyfle i wneud sylwadau ar y Fframwaith ac er ei fod yn cefnogi'r egwyddor o greu Fframwaith o'r fath, mae ganddo bryderon ac amheuon difrifol mewn perthynas â nifer o themâu a pholisïau yn y Fframwaith Datblygu Drafft, yn enwedig mewn perthynas â'r canlynol -

- *Cydnabod y Prosiectau o Arwyddocâd Cenedlaethol Presennol (NSIP)* - mae'r Cyngor o'r farn nad yw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) drafft yn rhoi digon o gydnabyddiaeth i brosiectau megis Wylfa Newydd a National Grid na gallu ynni niwclear i gwrdd â thargedau allyriadau. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y prosiectau hyn i dwf economaidd Ynys Môn a gogledd orllewin Cymru yn y dyfodol ac mae angen i hynny gael ei adlewyrchu yn y FfDC.
- *Agwedd tuag at Ynni Carbon Isel* – mae agwedd y FfDC drafft tuag at ynni carbon isel yn rhy gul gan ganolbwyntio'n ormodol ar ddatblygiadau gwynt a solar. Mae dynodiad mwyafrif yr Ynys fel ardal flaenoriaeth ar gyfer ynni gwynt a solar o bryder sylweddol ac mae'n annerbyniol. Mae'r Cyngor yn gwrthwynebu'r dynodiad hwn am nifer o resymau gan gynnwys materion yn ymwneud â'r isadeiledd sydd ei angen er mwyn cynnal datblygiadau o'r fath.
- *Ardaloedd Twf Rhanbarthol* - mae'r Cyngor wedi synnu ac yn siomedig iawn nad yw Caergybi wedi'i chynnwys na'i diffinio fel ardal o dwf rhanbarthol yng Nghymru ac mae o'r farn bod angen i'r FfDC cael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd strategol posibl Caergybi i Gymru.

DRAFT

- *Gweledigaeth ar gyfer Ardaloedd Gwledig* – Mae cefnogi ardaloedd gwledig a hyrwyddo eu datblygiad a'u ffyniant yn bwysig i'r Cyngor yn Ynys Môn fel y mae i nifer o Gynghorau eraill yng ngogledd Cymru. Mae'r Cyngor yn credu nad yw'r FfDC drafft yn darparu digon o weledigaeth na chyfeiriad ar gyfer ardaloedd gwledig sydd â naws drefol ac maent yn methu â chydnabod a deall pwysigrwydd twf twristiaeth a'r economi ymwelwyr i'r ardal.
- *Polisi Iaith Gymraeg* – teimlir fod peidio â chael polisi Iaith Gymraeg penodol yn rhywbeth sylfaenol sydd wedi'i adael allan.
- *Cysylltedd a Thrydedd Bont* - mae'r Cyngor yn siomedig na wneir unrhyw gyfeiriad yn y FfDC drafft tuag at y drydedd bont arfaethedig rhwng yr Ynys a'r tir mawr a gofynnir bod hyn yn cael ei gydnabod a'i gynnwys yn y FfDC terfynol.
- *Cysylltiadau Awyr* – mae'r Cyngor yn ystyried y dylai'r FfDC roi mwy o bwyslais ar rôl genedlaethol Maes Awyr Caerdydd ac ar y pwysigrwydd o gysylltu gogledd a de Cymru a'r rhan y mae'r gwasanaeth yn ei chwarae yn natblygiad economaidd gogledd orllewin Cymru gan ddarparu cysylltedd busnes, cyfleoedd twristiaeth ac amseroedd teithio byrrach.
- *Tai Fforddiadwy* - mae'r Cyngor yn nodi bod y FfDC yn gosod targed uchelgeisiol ar gyfer y ddarpariaeth o dai fforddiadwy ac mae'n cyfeirio at yr angen i 47% o dai ychwanegol fod yn dai fforddiadwy ar gyfer y cyfnod o 5 mlynedd o 2018/19 i 2022/23; er nad yw'r Cyngor yn gwrthwynebu'r dyhead hwn, mae'n codi cwestiynau am hyfywdra'r datblygiad mewn ardal fel Ynys Môn gydag ychydig iawn o wybodaeth yn y Fframwaith am sut y bydd y targed hwn yn cael ei gyflawni.

Adroddodd y Cynghorydd G.O.Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio bod y Pwyllgor wrth ystyried y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn ei gyfarfod ar 24 Hydref, wedi trafod goblygiadau tymor hir yr FfDC ar gynlluniau strategol yr Ynys yn y dyfodol a'r effeithiau tebygol ar raglen strategol y Cyngor ac ar lesiant cymunedol. Nododd y Pwyllgor y pryderon a fynegwyd am nifer o agweddau o'r FfDC fel y cyfeiriwyd atynt uchod ac o wytnwch ymateb drafft y Cyngor i'r ymgynghoriad y bu ei argymell i'r Pwyllgor Gwaith. Yn ychwanegol at hyn, cefnogodd y Pwyllgor Sgriwtini y syniad y dylid gwahodd Comisiynydd y Gymraeg i annerch Aelodau - un ai mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini neu yn un o'r sesiynau briffio Aelodau misol a gynhelir - ar yr angen am Bolisi Iaith Gymraeg penodol yn y FfDC.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor Sgriwtini gan nodi eu bod yn ymwybodol bod diddordeb sylweddol yn y mater hwn gyda nifer o sylwadau wedi eu cyflwyno a phryderon wedi eu codi. Wrth gytuno â rhan helaeth yr ymateb drafft fel y'i cyflwynwyd, tynnodd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith sylw penodol at eu hanfodlonrwydd â'r ffaith i Gaergybi gael ei hepgor fel canolfan dwf ranbarthol a'r diffyg cyfeiriad at drydedd bont ynghyd â'u hanesmwythyd gyda dynodiad arfaethedig rhan fawr o'r Ynys fel ardal flaenoriaeth ar gyfer ynni gwynt a solar, rhywbeth yr oeddent yn ei ystyried yn annerbyniol ar sail effeithiau tirlun, amgylcheddol, economaidd a chymunedol posibl datblygiadau o'r fath ynghyd â'r effaith y byddai'n ei gael ar ddiwydiant twristiaeth yr Ynys. Tra'n cydnabod y byddai angen i geisiadau cynllunio ar gyfer y pethau o dan sylw gael sylw ar sail achos wrth achos, roeddent yn cytuno ag ymateb y Swyddogion fod yr ymagwedd tuag at y mater hwn yn creu disgwyliad y byddai datblygiadau o'r fath yn dderbyniol beth bynnag eu heffeithiau ac roeddent o'r farn bod hyn yn destun pryder. Roedd y Pwyllgor Gwaith yn gobeithio y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried ymateb y Cyngor fel un derbyniol ac yn adeiladol a phwysleisiodd os oedd y cynllun yn mynd i weithio ar gyfer trigolion, cymunedau ac economi'r Ynys, roedd angen i'r pwyntiau a godwyd gael ystyriaeth a sylw wrth baratoi fersiwn derfynol yr FfDC.

**Penderfynwyd –**

DRAFT

- **Cymeradwyo'r llythyr ynghlwm gan gynnwys Atodiad A fel ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i Ymynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (2020-2040).**
- **Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol wneud unrhyw fân newidiadau, amrywiadau neu gywiriadau a nodir ac sy'n rhesymol angenrheidiol cyn cyhoeddi'r ymateb ffurfiol.**

## 11. CWRS GOLFF LLANGEFNI

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol mewn perthynas â dyfodol Cwrs Golff Llangefni ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Yn absenoldeb yr Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygiad Economaidd, dywedodd y Cadeirydd bod yr adroddiad yn nodi'r gwaith sydd wedi'i wneud ers i'r cyfrifoldeb am y Cwrs Golff gael ei drosglwyddo'n ôl i'r Cyngor ym mis Hydref, 2018 yn dilyn penderfyniad partneriaeth Llangefni i beidio â cheisio estyniad i brydles yr adnodd nac i ofyn am drosglwyddiad ased cymunedol gan y Cyngor. Mae rhan o'r gwaith hwn wedi cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus helaeth ar waredu'r ased (y mae crynodeb ohono i'w weld yn yr adroddiad) gyda'r Pwyllgor Gwaith ym Mai 2018 wedi cefnogi mewn egwyddor argymhelliad i gael gwared ag annedd y Ffridd a'r 41 acer drwy eu gwerthu ar y farchnad agored gyda'r arian cyfalaf a dderbynnir yn cael ei glustnodi ar gyfer datblygu cyfleusterau'r canolfannau hamdden presennol. Mae Swyddogion yn parhau i fod o'r farn amodol mai'r penderfyniad hwn yw'r un cywir a'i fod yn darparu cyfle i fuddsoddi mewn cyfleusterau hamdden lleol er mwyn gallu sicrhau manteision llesiant ac iechyd ehangach.

Dygodd y Rheolwr Busnes Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd) sylw at y ffaith bod rhaid i'r Cyngor Sir, o ystyried y sensitifrwydd sydd ynghlwm â'r broses o gael gwared ar ased, sicrhau bod yr holl brosesau o'r fath felly yn gadarn, yn drylwyr ac yn cydymffurfio'n gyfan gwbl â gofynion statudol. Rhaid i effaith y cais gael ei asesu'n ddigonol yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac fe argymhellir y dylai'r swyddogion, fel rhan o'r cam nesaf, ystyried a pharatoi'r asesiadau effaith angenrheidiol ynghyd ag ymgymryd ag ymarfer ymgynghori cyhoeddus pellach. Mae'r rhain yn ofynion statudol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r ddeddfwriaeth. Yna, bydd adroddiad llawn yn dod yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith fel y gall ddod i benderfyniad terfynol ar y mater.

**Penderfynwyd -**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad a'r ymatebion a gafwyd i'r prosesau ymgynghori hyd yma.**
- **Llwyr gefnogi a chymeradwyo argymhelliad y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i ymgymryd â'r gwaith o baratoi asesiadau effaith pellach yn gwbl unol â gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol.**
- **Cefnogi a chymeradwyo cyfnod pellach o ymgynghori â'r cyhoedd.**

## 12. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Ystriwyd, ac fe benderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, i gau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y golygai rhyddhau gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 16 o Atodlen 12A y Ddeddf honno.**

## 13. DIWEDDARIAD AR YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH YNYS MÔN

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a oedd yn darparu diweddariad ar y cynnydd a wnaed o ran ailstrwythuro Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Yn dilyn cyflwyno cyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod 29 Ebrill, 2019, gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am i strwythur yr Ymddiriedolaeth gael ei adolygu gyda'r nod o sicrhau bod mwy o gyllid yn cael ei ddefnyddio er mwyn bodloni dibenion elusennol yr Ymddiriedolaeth h.y. cynorthwyo disgyblion presennol a chyn ddisgyblion pum ysgol Uwchradd y Cyngor i gynnal eu haddysg neu i ymgymryd â chymwysterau galwedigaethol neu broffesiynol. Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Gwaith, cynhaliwyd trafodaethau â Phenaethiaid y 5 ysgol uwchradd er mwyn adnabod dulliau posibl ar gyfer defnyddio arian yr Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau budd i ddisgyblion cyfredol a chyn ddisgyblion a'r ffordd orau o ddyrannu'r cyllid i'r 5 ysgol. Mynegwyd mai'r ysgolion eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i adnabod y disgyblion a allai elwa. Mae'r cynigion perthnasol wedi eu nodi yn yr adroddiad. Cafodd cyfreithiwr allanol hefyd ei gyflogi i gynghori ar opsiynau posibl mewn perthynas ag adolygu a diweddaru'r cynlluniau sy'n llywodraethu'r Ymddiriedolaeth Addysg Bellach ac i wella'r defnydd o'r Gronfa. Tra bo angen diweddaru'r dogfennau llywodraethiant, rhywbeth a fydd yn golygu gwaith gwaith pellach a chytundeb y Comisiwn Elusennau, mae sgôp i ddefnyddio'r gronfa mewn ffordd wahanol o fewn cwmpas y cynlluniau presennol.

Mae Adroddiad Blynyddol a chyfrifon 2018/19 (fel y'u cyflwynwyd o dan eitem 7 ar yr agenda), yn dangos bod gwerth y Gronfa gyffredinol yn £3.237m ac yn cynnwys 2 gronfa benodol – y Gronfa Waddol (£2.78m) sy'n cynnwys yn bennaf arian o eiddo buddsoddiad gyda'r gweddill yn fuddsoddiadau masnachu, dyledwyr a chredydwyr ac arian parod yn y banc sy'n golygu ei fod yn anaddas ar gyfer ei ddosbarthu i fodloni amcanion elusennol yr Ymddiriedolaeth; a'r Gronfa Gyfyngedig (£455k) yn cynnwys buddsoddiadau masnachol ac arian parod yn y banc y gellir ei ddosbarthu er mwyn cwrdd ag amcanion elusennol yr Ymddiriedolaeth. Mae'r adroddiad yn nodi'r modd y bydd yr arian sy'n weddill sy'n cael ei greu gan yr Ymddiriedolaeth bob blwyddyn yn cael ei ddosbarthu rhwng Elusen David Hughes ar gyfer y tlodion (elusen ar wahân nad yw o dan reolaeth y Cyngor) a dwy is-gronfa o dan y Gronfa Gyfyngedig sydd er lles disgyblion cyfredol a chyn-ddisgyblion pum ysgol uwchradd yr Ynys. Gan nad yw'r Pwyllgor Gwaith ar hyn o bryd yn gosod cyllideb, nid yw'n bosib penderfynu ar yr arian dros ben y bydd y Gronfa efallai yn ei wneud bob blwyddyn a faint fydd ar gael ar gyfer pob cronfa ar ôl gwario ar gynnal a chadw eiddo ar y stad. Mae'r adroddiad yn cynnig cyllideb benodol ar gyfer gwaith trwsio a chynnal a chadw a fydd yn cael ei chynyddu bob blwyddyn yn unol â'r cynnydd yn chwyddiant y rhenti a dderbynnir.

Cynghorwyd y Pwyllgor Gwaith bod cyllid sylweddol ar gael i ddarparu cymorth i ddisgyblion cyfredol a chyn-ddisgyblion a bod modd i'r Ymddiriedolaeth greu digon o arian dros ben er mwyn cynnal lefel o gymorth ar gyfer y dyfodol. Mae angen i eiriad y Cynllun gael ei ddiweddaru er mwyn cadarnhau'r ddogfen ond gellir gwneud hyn heb orfod gwneud newidiadau sylweddol i ddibenion elusennol yr Ymddiriedolaeth. Mae'r pum Ysgol Uwchradd yn fodlon gweinyddu'r gwaith o ddyfarnu'r cyllid i ddisgyblion a chyn-ddisgyblion ar ran yr Ymddiriedolaeth ac mae modd i'r cynlluniau grant arfaethedig gael cyflawni o fewn geiriad presennol y Cynlluniau.

**Penderfynwyd -**

- **Cymeradwyo'r cynigion canlynol i ddefnyddio cyllid Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn –**

DRAFT

- **Dyrannu £55,000 i bob ysgol uwchradd er mwyn cyllido'r gost o Hyfforddwyr Dysgu ym mhob ysgol. Bydd yn fater i bob ysgol unigol benderfynu dros ba gyfnod o amser y defnyddir y cyllid.**
- **Bod £8,000 yn cael ei ddyrannu yn y lle cyntaf i bob ysgol uwchradd er mwyn galluogi ysgolion i ddarparu grantiau sy'n cynorthwyo myfyrwyr sy'n ddifreintiedig yn ariannol i gael lle mewn coleg/prifysgol a/neu er mwyn helpu i brynu llyfrau ac offer angenrheidiol er mwyn mynychu'r cyrsiau yn y flwyddyn gyntaf. Mater i bob ysgol unigol fydd asesu pob cais a dyfarnu grantiau yn seiliedig ar eu meini prawf aseseu.**
- **Y Gwasanaeth Addysg i ofyn i Goleg Cymraeg Cymru weinyddu'r ysgoloriaethau i fyfyrwyr o gefndiroedd ariannol difreintiedig fel y gallant ddilyn cyrsiau prifysgol neu goleg drwy gyfrwng y Gymraeg.**
- **Dirprwyo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swddog Adran 151 benderfynu faint o gyllid sy'n cael ei ddyrannu i'r 3 cynllun yn y dyfodol. Bydd y swm a ddyrennir yn ddibynnol ar y gwarged a wneir gan y Gronfa.**

- **Bod y gyllideb ar gyfer gwaith trwsio a chynnal a chadw yn cael ei gosod ar £50,000 ar gyfer 2020/21 a bod y swm hwn yn cael ei chwyddo bob blwyddyn yn unol â'r cynnydd chwyddiant o ran y rhenti a dderbynir. Rhaid i unrhyw swm sy'n uwch na'r gyllideb hon gael ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.**
- **Dirprwyo'r grym i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro gwblhau'r gwaith angenrheidiol er mwyn diweddaru geiriad y cynllun. Os yw'r Comisiwn Elusennau o'r farn bod y newidiadau y bwriedir eu gwneud yn newid sylweddol i weithrediad y gronfa, bydd y mater yn cael ei gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Gwaith am drafodaeth bellach ac am gadarnhad.**

**Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **25 Tachwedd 2019** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Rhagfyr 2019 – Gorffennaf 2020;**

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;

Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | Economaidd | |
| 2 | Gwrthdlodi | |
| 3 | Trosedd ac Anhrefn | |
| 4 | Amgylcheddol | |
| 5 | Cydraddoldebau | |
| 6 | Cytundebau Canlyniad | |
| 7 | Arall | |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Rhagfyr 2019 – Gorffennaf 2020. |

| G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Rhagfyr 2019 – Gorffennaf 2020

Diweddarwyd 14 Tachwedd 2019

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Rhagfyr 2019 - Gorffennaf 2020** ar y tudalennau dilynol.

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2019 – Gorffennaf 2020

Diweddarwyd 14 Tachwedd 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagfyr 2019** | | | | | | | |
| 1 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Rhagfyr 2019 | |
| 2 | **Newidiadau i'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu ail-strwythuro mewnol** | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Busnes y Cyngor | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Rhagfyr 2019 | Cyngor Sir<br>10 Mawrth 2020 |
| 3 | **Rheoli'r Trysorlys – Adolygiad canol blwyddyn 2019/20** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Rhagfyr 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

Tudalen 15

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2019 – Gorffennaf 2020

Diweddarwyd 14 Tachwedd 2019

Tudalen 16

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ionawr 2020** | | | | | | |
| 4 | **Cyllideb 2020/21 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>13 Ionawr 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Ionawr 2020 | |
| | | | | | | | |
| 5 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Ionawr 2020 | |
| 6 | **Trawsnewid Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu**<br><br>Cydsyniad i'r broses ymgynghori. | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Ionawr 2020 | |
| | **Chwefror 2020** | | | | | | |
| 7 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2019 – Gorffennaf 2020

Diweddarwyd 14 Tachwedd 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024**<br><br>Cymeradwyo'r Cynllun a gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>4 Chwefror 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | Cyngor Sir<br>10 Mawrth 2020 |
| | **Mawrth 2020** | | | | | | |
| 9 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2019/20 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | |
| 10 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2019/20 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | |
| 11 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2019/20 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2019 – Gorffennaf 2020

Diweddarwyd 14 Tachwedd 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | **Polisi Rhyddhad Dewisol rhag y Dreth Fusnes**<br><br>Mabwysiadu fframwaith newydd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith o ran manylu ar y rhyddhad ychwanegol rhag y dreth fusnes i'w ddyrannu i elusennau a sefydliadau sydd ddim yn gwneud elw | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | |
| 13 | **Ffioedd a Thaliadau 2020/21** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid 11 Gorffennaf 2019; 25 Medi 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | |
| 14 | **Taliadau am Wasanaethau Di-Breswyl 2020/21**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | |
| 15 | **Ffi Safonol ar gyfer Cartrefi Preswyl y Cyngor Sir yn ystod 2020/21**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | |



**  Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2019 – Gorffennaf 2020

Diweddarwyd 14 Tachwedd 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 16 | **Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2020/21**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | |
| 17 | **Rhenti a ffioedd ar gyfer y Gwasanaeth Tai yn 2020/21** | | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | |
| 18 | **Arian Wrth Gefn**<br><br>Diweddariad o'r sefyllfa mewn perthynas ag Arian Wrth Gefn. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | |
| 19 | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2020/21 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>10 Chwefror 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | Cyngor Sir<br>10 Mawrth 2020 |

*\ Allwedd:*

*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*

*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2019 – Gorffennaf 2020

Diweddarwyd 14 Tachwedd 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 20 | **Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | Cyngor Sir 10 Mawrth 2020 |
| 21 | **Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020/21**<br><br>Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | Cyngor Sir 10 Mawrth 2020 |
| 22 | **Cyllideb Gyfalaf 2020/21** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>2 Mawrth 2020 | Cyngor Sir 10 Mawrth 2020 |
| | | | | | | | |
| 23 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Mawrth 2020 | |

Tudalen 20

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2019 – Gorffennaf 2020

Diweddarwyd 14 Tachwedd 2019

Tudalen 21

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 24 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2019/20 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>9 Mawrth 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Mawrth 2020 | |
| 25 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd 6 mis** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol<br>18 Chwefror 2020<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>9 Mawrth 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Mawrth 2020 | |
| | **Ebrill 2020** | | | | | | |
| 26 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Ebrill 2020 | |

**  Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Rhagfyr 2019 – Gorffennaf 2020

Diweddarwyd 14 Tachwedd 2019



| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 27 | **Trawsnewid Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu**<br><br>Cam 2 – adrodd yn ôl ar ganfyddiadau'r broses ymgysylltu a chynigion Trawsnewid. | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Ebrill 2020 | |
| | | | | **Mai 2020** | | | |
| 28 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2020 | |
| | | | | **Mehefin 2020** | | | |
| 29 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2020 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyfnod: Rhagfyr 2019 – Gorffennaf 2020

Diweddarwyd 14 Tachwedd 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Gorffennaf 2020** | | | |
| 30 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Gorffennaf 2020 | |



**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **25 TACHWEDD 2019** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 2 (2019/20)** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **CARYS EDWARDS** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | Amherthnasol |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a'r rheswm/rhesymau**

**1.1** Hwn yw'r ail cerdyn sgorio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20

**1.2** Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol.

*Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn* -

**1.3.1** Mae meysydd sy'n tanberfformio yn cael eu cydnabod a'u rheoli a chymerir camau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod Ch3 a chreffir yn barhaus ar berfformiad ariannol gan roi pwyslais arbennig ar y gwasanaethau sydd dan bwysau oherwydd y galw cynyddol amdanynt, a'u cynorthwyo hwy'n arbennig, a hynny fel nad yw'r modd y maent yn rheoli perfformiad yn dirywio neu'n tanberfformio yn Ch3.

**1.5** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

| C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? | | |
|---|---|---|
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith | | |
| **CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
| Ydi | | |
| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Ydi | | |
| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr UDA ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Dim sylwadau |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Dim sylwadau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |
| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylchedd** | |
| **5** | **Cydraddoldeb** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| **7** | **Arall** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Atodiad A - Cherdyn Sgorio Chwarter 2 | | |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2019/20 – Chwarter 1 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2019 ac a dderbyniwyd ganddo.) | | |

**ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO - CHWARTER 2 (2019/20)**

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Un o ddyletswyddau'r Cyngor o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau. Mae'n ofynnol i ni roi trefniadau ar waith i gael dealltwriaeth effeithiol o anghenion a blaenoriaethau lleol, ac i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r capasiti sydd gennym i gyflawni'r anghenion a'r blaenoriaethau hynny, ac er mwyn gwerthuso effaith yr hyn a wnawn.

1.2. Mae Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017 i 2022 yn nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol a'n hamcanion ar gyfer y cyfnod. Cyflawnir Cynllun y Cyngor trwy wireddu'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol (DGF).

1.3. Defnyddir yr adroddiad monitro hwn ar y cerdyn sgorio fel rhan o'r broses i fonitro llwyddiant ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA), sef cyfuniad o ddangosyddion lleol a chenedlaethol, wrth i'r Cyngor ddarparu ei wasanaethau o ddydd i ddydd. Mae'r adroddiad hefyd yn dwyn sylw at unrhyw gamau lliniarol a nodwyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) i yrru a sicrhau gwelliannau.

1.4. Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn portreadu'r sefyllfa ar ddiwedd chwarter 2 a chaiff sylw pellach (ynghyd â'r adroddiad hwn) gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Tachwedd.

## 2. CYD-DESTUN

2.1. Cytunwyd yn y gweithdy a nodwyd eisoes bod angen gwneud rhai newidiadau i'r Cerdyn Sgorio eleni er mwyn sicrhau dull mwy strategol. I'r perwyl hwnnw, mae'r DPA sy'n monitro perfformiad wedi'u halinio â thri amcan strategol y Cyngor :

- Amcan 1 - Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir
- Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan 3 - Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, tra'n amddiffyn ein hamgylchedd naturiol

2.2. Ni fydd yn bosibl cyhoeddi gwybodaeth ar gyfer pob DPA ar y Cerdyn Sgorio bob chwarter oherwydd natur y dulliau casglu data. Pan fydd hyn yn wir, bydd nodyn yn nodi pa mor aml y mae'r DPA yn cael ei fonitro a phryd y bydd y data ar gael i'w gasglu, e.e. (blynyddol) (Ch4), (tymhorol) (Ch3).

2.3 Ers trafod yr adroddiad ar gerdyn sgorio chwarter 1 ym mis Medi 2019, mae Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) pellach wedi'u cyhoeddi gan Data Cymru yn benodol ar Reoli Gwastraff. 'Rydym yn falch o gadarnhau mai'r awdurdod hwn, unwaith eto, sydd â'r cyfraddau ailgylchu uchaf yng Nghymru, gan olygu ein bod,

unwaith yn rhagor, ymysg y rheini sy'n arwain y byd o ran cyfraddau ailgylchu gwastraff.

## 3. PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL

3.1. Mae'n galonogol nodi bod mwyafrif (71%) y dangosyddion sy'n cael eu monitro yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn targedau (CAMG Gwyrdd neu Melyn) fel ar ddiwedd Ch1 . Nodir rhai o'r uchafbwyntiau isod.

3.2. Mae presenoldeb yn y lle gwaith yn faes yr adroddir arno bob mis ac a ddadansoddir i sicrhau gwelliant. Ar ddiwedd Ch2 mae'r Cyngor yn WYRDD yn erbyn ei darged gyda 3.96 diwrnod yn cael ei golli fesul gweithiwr (cyfwerth ag amser llawn) yn y cyfnod yn erbyn targed o 4.48 diwrnod . Mae hyn yn welliant ar y lefelau a welwyd yn ystod Ch2 2018/19 lle collwyd 4.74 diwrnod oherwydd absenoldeb. Mae hefyd yn well na'r 4.25 diwrnod a gollwyd oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr (cyfwerth ag amser llawn) a welwyd yn Ch2 2017/18, sef y flwyddyn y gwelwyd y perfformiad gorau yn y maes hwn ers i ni ddechrau monitro yn y fath fodd.

3.3. Mae'r strategaeth ddigidol yn parhau i ddwyn ffrwyth yn ystod Ch2 lle mae'r rhan fwyaf o'r dangosyddion o dan yr is-bennawd 'newid i wasanaeth digidol' yn gweld tuedd ar i fyny o'i gymharu â Ch2 yn 2018/19 lle mae 83% o'r dangosyddion yn dangos cynnydd . Gellir gweld y newid yn arbennig yn nifer y defnyddwyr cofrestredig (eitem 10) lle mae'n fwy na dwbl (11k) y 5k a welwyd ar ddiwedd Ch2 2018/19. Mae hyn yn gadarnhaol gan fod astudiaethau a gynhaliwyd gan Socitm (Cymdeithas arloesi, technoleg a moderneiddio) yn dangos bod costau trafodion digidol yn is na chostau cyswllt wyneb yn wyneb.

3.4. Ar hyn o bryd nid oes achos i bryderu gyda'r is-bennawd 'siarter gwasanaeth cwsmer' lle mae mwyafrif (75%) y dangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn targedau. Yr unig ddangosydd sy'n GOCH yn erbyn y targed yw eitem 04b – canran y cwynion ysgrifenedig yr ymatebodd y Gwasanaethau Cymdeithasol iddynt o fewn 15 diwrnod. Trafodwyd 20 o'r 21 (95%) o gwynion gyda'r achwynydd o fewn yr amserlen . Er ymateb yn ysgrifenedig i 12 o'r 21 o gwynion (57%) o fewn yr amserlen, yn achos 5 o'r ymatebion ysgrifenedig hwyr fe estynnwyd yr amserlen ar gyfer ymateb trwy gytundeb gyda'r achwynydd, a hynny er mwyn caniatáu mwy o amser i ymateb, gan adael 4 a oedd yn hwyr heb gytundeb.

3.5. Cymeradwywyd y Strategaeth Cwsmeriaid yn ystod Ch2 gan y Bwrdd Rhaglen Llywodraethu Corfforaethol ac mae cynllun gweithredu bellach yn cael ei ddatblygu . Bydd y cynllun gweithredu yn cynnwys monitro'r DPA ar gyfer Gwasanaeth Cwsmer a nodir yn y Cerdyn Sgorio, yn ogystal â DPA eraill a ddefnyddir i sicrhau bod y Strategaeth Cwsmeriaid yn cael ei gwireddu.

3.6. Ar hyn o bryd mae'r adran rheolaeth ariannol yn rhagweld, ar sail y sefyllfa ariannol ar ddiwedd yr ail chwarter, y bydd y Cyngor yn gorwario ei gyllideb refeniw, ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2020, gan £ 1.935m (1.43%). Disgwylir gorwariant o £1.410m yn y cyllidebau gwasanaeth a rhagwelir y bydd cyllid corfforaethol yn gorwario £0.341m. Disgwylir i incwm y Dreth Gyngor fod £184k yn is na'r gyllideb, yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad mewn eiddo gwag yn amodol ar y

premiwm ychwanegol o 100% a chynnydd yn y trethdalwyr sy'n gymwys ar gyfer yr eithriad nam meddyliol difrifol. Y duedd hanesyddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf fu tanwariannau / gwargedion sylweddol yn y meysydd Cyllid Corfforaethol a'r Dreth Gyngor. Mae hynny wedi helpu i leihau gorwariant mewn costau gwasanaeth. Yn anffodus, ar gyfer 2019/20 mae'r cyllidebau hyn hefyd dan bwysau ac ni fyddant ar gael i ariannu gorwario mewn gwasanaethau.

3.7. Mae cyllidebau'r Gwasanaeth Oedolion dan bwysau sylweddol oherwydd y galw cynyddol ac yn sgil trosglwyddo lleoliad costus o'r Gwasanaethau Plant. Y patrwm arferol yw bod y sefyllfa alldro derfynol yn well na'r amcangyfrif yn yr ychydig chwarteri cyntaf, ond, pe bai'r gorwariant a ragwelir yn digwydd, byddai'n cael ei ariannu o falansau cyffredinol y Cyngor a fyddai'n gostwng i £ 4.346m. Mae'r gostyngiad hwn yn gwanio sefyllfa ariannol y Cyngor ond yn cyfiawnhau'r penderfyniad i beidio â defnyddio balansau cyffredinol i ariannu rhan o gyllideb 2019/20.

3.8. Gellir gweld mwy o wybodaeth am reolaeth ariannol yn yr 'Adroddiad Monitro ar y Gyllideb Refeniw ar gyfer Chwarter 2 ' a fydd yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 25 Tachwedd.

3.9. Yr hyn y mae hyn yn ei ddangos felly yw'r sicrwydd rhesymol y gellir ei ddarparu, trwy ddefnyddio'r dadansoddiad o'r cardiau sgorio, fod gweithgareddau'r Cyngor o ddydd i ddydd o ran rheoli ei bobl, ei gyllid a gwasanaethu ei gwsmeriaid yn cwrdd â'r disgwyliadau i safon sy'n briodol ac y cytunwyd arni gan Aelodau. Adlewyrchir hyn hefyd yn y ffaith bod y dangosyddion yn y maes rheoli perfformiad hefyd yn perfformio'n dda.

## 4. RHEOLI PERFFORMIAD

4.1. Ar ddiwedd Ch2 mae'n galonogol nodi bod mwyafrif (85%) y dangosyddion yn parhau i berfformio'n uwch na'u targedau neu o fewn 5% ohonynt. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r sefyllfa yn Chwarter 2 yn 2018 /19. Fodd bynnag, 'rydym yn nodi bod pum dangosydd wedi bod yn tanberfformio yn erbyn eu targedau ar gychwyn y flwyddyn ac amlygwyd y rhain yn Goch neu'n Ambr yn y Cerdyn Sgorio .

4.2. Mae'r perfformiad ar gyfer **Amcan 1** ar ddiwedd Ch2 wedi bod yn dda gan mai dim ond un dangosydd sy'n tanberfformio ar hyn o bryd yn erbyn ei amcan.

4.2.1. Dangosydd 17 - Gwasanaethau Landlord: Nifer y dyddiau a gymerir ar gyfartaledd i gwblhau gwaith trwsio - sy'n dangos yn GOCH gyda pherfformiad o 15.14 diwrnod yn erbyn targed o 12 diwrnod . Mae hyn yn uwch na'r 13.39 diwrnod a welwyd yn Ch2 2018/19 a'r 12.33 diwrnod a welwyd ar ddiwedd Ch1.

Yn dilyn newid yn y Polisi Atgyweirio a Chynnal a Chadw ym mis Hydref 2018, gellir cwblhau archebion gwaith o fewn 12 awr, 48 awr, 5 diwrnod, 20 diwrnod neu 3 mis yn dibynnu ar frys y gwaith. Yn flaenorol, gellid gosod archebion gwaith hefyd am 10 diwrnod a 15 diwrnod sydd be bellach ddim yn opsiwn. Wrth osod y targed o 12 diwrnod ar gyfer 2019/20 nid oedd gennym gyfnod o

12 mis i gymharu perfformiad blaenorol yn erbyn y dosbarthiadau newydd ac o'r herwydd, gallai'r targed a osodwyd fod yn rhy isel o ran nifer y diwrnodau ar gyfartaledd. Er enghraifft, os yw 80% o waith cynnal a chadw adweithiol yn dod o fewn y flaenoriaeth 20 diwrnod na'r diwrnodau targed cyffredinol ar gyfer pob swydd gallai fod oddeutu 16 diwrnod.

Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Tai yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn gyda'r bwriad o wella'r perfformiad.

Rydym yn falch o adrodd bod 93% o'r gorchmynion gwaith wedi'u cwblhau mewn pryd.

4.3. Roedd perfformiad yn erbyn y dangosyddion ar gyfer **Amcan 2** yn dangos mai dim ond 2 o'r dangosyddion a gafodd eu monitro yn Ch2 (12 %) sy'n tanberfformio yn erbyn yr amcan ar hyn o bryd.

4.3.1. Dangosydd 27 - Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis – sy'n dangos yn AMBR gyda pherfformiad o 14.29% yn erbyn targed o 10% ac sydd wedi disgyn o'r 10.53% a welwyd ar ddiwedd Ch1.

Mae'r DPA hwn yn ymwneud â nifer gymharol fach o achosion, a gallai'r nifer amrywio'n sylweddol ar ddechrau'r flwyddyn. Roedd adolygiad o'r ffeiliau achos ailgyfeirio yn canfod eu bod i gyd yn cael eu hailgyfeirio'n briodol i'r gwasanaeth.

4.3.2. Dangosydd 36 - Gwasanaethau Landlord: Mae'r dangosydd ar gyfer canran y rhent a gollwyd oherwydd bod eiddo'n wag yn dangos yn GOCH ar y cerdyn sgorio gyda 1.57 % wedi'i golli yn erbyn targed o 1.15%

Mae'r dangosydd hwn wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â dangosydd 35 ar y Cerdyn Sgorio sydd wedi gwella yn Chwarter 2, sef nifer y dyddiau a gymerir ar gyfartaledd i osod unedau y gellir eu gosod. Cafodd perfformiad gwael y dangosydd hwnnw yn Ch1 effaith ar y DPA hwn ac ni fu'n bosib crafangu'n ôl cymaint ag y gobeithiwyd er gwaethaf y gwelliant o ran gosod unedau a welir yn Ch2 .

Mae rhai eiddo wedi cael eu cadw'n wag yn fwriadol am gyfnod hirach na'r arfer gan eu bod wedi cael eu hystyried i'w defnyddio fel rhan o'r prosiect Cartrefi Grwpiau Bach gyda'r Gwasanaethau Plant.

Roedd rhai eiddo a oedd angen addasiadau cyn eu hail-osod yn cael eu cadw'n ôl am gyfnod o amser. Roedd hyn oherwydd bod achosion o oedi byr wrth aros am gyfarwyddiadau Therapydd Galwedigaethol. Disgwyliwn i hyn wella ar ôl penodi Therapydd Galwedigaethol rhan amser o fewn y Gwasanaeth Tai.

Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi bod yn gwneud gwaith gwella mawr ar rai eiddo a gafodd eu hystyried yn fethiannau derbyniol o ran WHQS gan fod y cyn-denantiaid wedi penderfynu nad oeddent am i welliannau gael eu

gwneud ar eu heiddo, mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel methiant derbyniol 'Ddewis Preswyl' gan y WHQS.

Mae'r holl ffactorau a nodwyd uchod wedi cael effaith negyddol ar y dangosydd perfformiad hwn.

Byddem yn parhau i weithredu'r broses symlach newydd a nodwyd yn Ch1 i wella perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn.

4.4. Mae'r dangosyddion i fonitro **Amcan 3** hefyd wedi perfformio'n dda yn Ch2, ond mae dau ddangosydd o'r saith (28%) a gafodd eu monitro ar gyfer yr amcan hwn wedi tanberfformio yn erbyn y targed.

4.4.1. Dangosydd 42 - Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd – sy'n dangos yn AMBR gyda pherfformiad o 33% yn erbyn targed o 65%, gostyngiad ar y 50% a welwyd ar ddiwedd Ch1.

Bychan iawn yw'r niferoedd dan y dangosydd hwn a gellir priodoli'r perfformiad ar ddiwedd y chwarter hwn i'r ffaith bod 2 o'r 3 apêl wedi llwyddo ar ôl herio'r dehongliad o'r polisïau newydd. Bydd y dehongliad o'r polisïau newydd yn gwella.

4.4.2. Dangosydd 43 - Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt cyn pen 84 diwrnod – sy'n dangos yn AMBR gyda pherfformiad o 69% yn erbyn targed o 80%. Mae hwn yn ddangosydd newydd ar gyfer y Cerdyn Sgorio eleni, ond roedd perfformiad y dangosydd hwn yn 17% yn ystod Ch4 2018/19 a 55% ar ddiwedd Ch1.

Mae cynnydd da yn cael ei wneud o ystyried y llwyth gwaith oedd wedi cronni ac mae'r perfformiad cyfredol yn dangos cynnydd sylweddol wrth i brosesau newydd gael eu hymgorffori ac wrth i'r llwyth gwaith gael ei glirio. Rhagwelir y bydd y gwelliant hwn yn parhau i'r flwyddyn i ddod.

## 5. ARGYMHELLION

5.1. Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd hynny y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn -

5.1.1. Mae meysydd sy'n tanberfformio yn cael eu cydnabod a'u rheoli a chymerir camau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod Ch3 a chreffir yn barhaus ar berfformiad ariannol gan roi pwyslais arbennig ar y gwasanaethau sydd dan bwysau oherwydd y galw cynyddol amdanynt, a'u cynorthwyo hwy'n arbennig, a hynny fel nad yw'r modd y maent yn rheoli perfformiad yn dirywio neu'n tanberfformio yn Ch3 .

5.2. Gofynnir i'r pwyllgor dderbyn y camau lliniaru a amlinellir uchod.

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q2 2019/20

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed Ch/ Q Target | Targed Bl / Yr Target | Canlyniad 18/19 Result | Canlyniad 17/18 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir** | | | | | | | |
| 1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (tymhorol) (Ch3) | - | - | - | 93.90% | 93.90% | - | 94.60% |
| 2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | - | - | - | 93.30% | 93.30% | 93.90% | 93.30% |
| 3) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth [NEET] (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | - | 1.10% | 4.20% |
| 4) Sgôr 'Cap 9' cyfartalog ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 (blynyddol) (Ch3) | - | - | - | - | - | 349.1 | 335.9 |
| 5) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | - | 88.30% | 72.60% |
| 6) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | - | 65% | 63.70% |
| 7) Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd (blynyddol) (Ch3) | - | - | - | - | - | 82% | - |
| 8) Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden | Melyn / Yellow | ↓ | 244k | 253k | 553k | 553k | 508k |
| 9) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | → | 98% | 95% | 95% | 98% | 98% |
| 10) Canran y busnesau risg uchel oedd yn agored i ymchwiliadau wedi'u trefnu a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd | Melyn / Yellow | ↓ | 89% | 90% | 90% | - | - |
| 11) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↓ | 76% | 50% | 50% | 70% | - |
| 12) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↑ | 86% | 80% | 80% | 83% | - |
| 13) Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | ↑ | 74 | 37 | 75 | 78 | 75 |
| 14) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | Gwyrdd / Green | ↑ | 2 | 2 | 4 | 9 | 4 |
| 15) Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir fesul 10,000 o aelwydydd (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | - | - | - |
| 16) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y cartrefi sy'n bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) | Gwyrdd / Green | → | 100% | 100% | 100% | 100% | - |
| 17) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Coch / Red | ↓ | 15.14 | 12 | 12 | 13.63 | - |
| 18) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | - | - | - |
| **Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl** | | | | | | | |
| 19) Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed | Melyn / Yellow | ↓ | 3.7 | 3 | 3 | 7.78 | 6.58 |
| 20) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↑ | 89.76% | 90% | 90% | 90.91% | 93.25% |
| 21) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↓ | 41.7% | 35% | 35% | 30.87% | 59.26% |
| 22) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↑ | 62.16% | 62% | 62% | 62.84% | 62.65% |
| 23) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth | Gwyrdd / Green | ↓ | 18.64 | 19 | 19 | 17.35 | 17.44 |
| 24) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↓ | 96.80% | 93% | 93% | 93.30% | 96% |
| 25) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Gwyrdd / Green | ↑ | 91.43% | 90% | 90% | 86.17% | 67.57% |
| 26) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | ↑ | 3.80% | 5% | 10% | 9.52% | 9% |
| 27) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis | Ambr / Amber | ↓ | 14.29% | 10% | 10% | 16.87% | - |
| 28) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↓ | 230 | 270 | 270 | 241 | 326.5 |
| 29) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | → | 98.19% | 95% | 95% | 98% | - |
| 30) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Melyn / Yellow | ↑ | 85.84% | 90% | 90% | 86.17% | 63.32% |
| 31) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↑ | 74.62% | 60% | 60% | - | - |
| 32) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↓ | 79.17% | 60% | 60% | 55.10% | 65.20% |
| 33) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Gwyrdd / Green | ↑ | 160.5 | 170 | 170 | 161.9 | 177 |
| (Ch4) | - | - | - | - | - | - | - |
| 35) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Melyn / Yellow | ↑ | 22 | 21 | 21 | - | - |
| 36) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag | Coch / Red | ↑ | 1.57% | 1.15% | - | 1.30% | - |
| **Amcan 3 - Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol** | | | | | | | |
| 37) Canran y strydoedd sy'n lân | Gwyrdd / Green | ↓ | 97.16% | 95% | 95% | 95.60% | 93.60% |
| 38) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Gwyrdd / Green | ↓ | 70% | 70% | 70% | 69.86% | 72.20% |
| 39) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | ↑ | 1 | 1 | 1 | 0.2 | - |
| 40) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Gwyrdd / Green | ↓ | 106kg | 120kg | 240kg | 240kg | 236kg |
| 41) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Gwyrdd / Green | ↑ | 92% | 90% | 90% | 80% | 86% |
| 42) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Ambr / Amber | ↓ | 33% | 65% | 65% | 74% | 47% |
| 43) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | Ambr / Amber | ↑ | 69% | 80% | 80% | - | - |
| 44) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | 2.90% | 2.90% | 2.90% |
| 45) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | 3.80% | 3.80% | 4.20% |
| 46) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | 8.70% | 8.70% | 8.90% |

Coch - mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol Ambr - rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth
Melyn - o fewn 5% o'r targed Gwyrdd - ar darged neu'n uwch Tuedd - chwarterol yn erbyn y targed

## Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q2 2019/20

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 18/19 Result | Canlyniad 17/18 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 33 | 19 | 76 | 71 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | ↓ | 7 | - | 8 | 9 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | - | ↓ | 8 | - | 27 | 28 |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | → | 100% | 80% | 93% | 92% |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Coch / Red | ↓ | 57% | 80% | 57% | - |
| 05) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | ↑ | 21 | - | 44 | 51 |
| 06) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | - | ↓ | 47 | - | 62 | 112 |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | - | ↑ | 270 | - | 513 | 753 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Gwyrdd / Green | ↑ | 86% | 80% | 81% | 78% |
| 09) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd | - | ↓ | 463 | - | 1052 | 919 |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | - | ↑ | 11k | - | 8.2k | - |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | - | ↑ | 3.8k | - | 4.7k | 2k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | - | ↓ | 7.3k | - | - | - |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | - | ↓ | 3.8k | - | - | - |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | - | ↑ | 32k | 29.5k | 29.5k | 25k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | - | ↓ | 383k | - | - | - |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 18/19 Result | Canlyniad 17/18 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2206 | - | 2243 | 2252 |
| 02) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 1231 | - | 1252 | 1244 |
| 03a) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↑ | 3.96 | 4.48 | 10.34 | 9.96 |
| 03b) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | ↑ | 1.54 | - | 4.68 | 4.63 |
| 03c) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | ↑ | 2.43 | - | 5.66 | 5.32 |
| 04a) Ysgolion Cynradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↑ | 3.39 | 4.36 | 12.21 | 10.39 |
| 04b) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | ↑ | 1.4 | - | 4.97 | 4.85 |
| 04c) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | ↑ | 2.03 | - | 7.24 | 5.55 |
| 05a) Ysgolion Uwchradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Ambr / Amber | ↓ | 3.6 | 3.31 | 9.57 | 9.67 |
| 05b) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | ↓ | 1.33 | - | 5.26 | 5.32 |
| 05c) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | ↑ | 2.27 | - | 4.31 | 4.35 |
| 06) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 11% | 11% | 11% |
| 07) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen (Blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 80% | 84% | 90.50% |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol | Coch / Red | ↓ | £66,155,987 | £66,509,788 | 0.53% | - | - |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Coch / Red | ↓ | £135,210,190 | - | - | £137,145,191 | 1.43% |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | - | - | £25,910,000 | - | - | £16,822,000 | -35.08% |
| 04) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd | Ambr / Amber | ↓ | £2,561,000 | - | - | £2,165,800 | -15.43% |
| 05) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | ↓ | -£5,210,818 | -£5,887,285 | 12.98% | - | - |
| 06) Swm a fenthycwyd | - | → | £2,184,000 | - | - | £0 | 0.00% |
| 07) Chost benthyca | Gwyrdd / Green | → | £4,262,730 | - | - | £4,260,516 | -0.05% |
| 08) % o'r anfondebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | Melyn / Yellow | ↓ | - | 84.44% | - | - | - |
| 09) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | ↑ | - | 98.90% | - | - | - |
| 10) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | ↑ | - | 98.80% | - | - | - |
| 11) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | - | 96.90% | - | - | - |
| 12) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | → | - | 99.39% | - | - | - |
| 13) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | ↑ | - | 98.73% | - | - | - |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **25 TACHWEDD 2019** |
| **PWNC:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 2, 2019/20** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**RHIF FFÔN:**<br>**E-BOST:** | **CLAIRE KLIMASZEWSKI**<br>**01248 751865**<br>**CLAIREKLIMASZEWSKI@YNYSMON.GOV.UK** |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

**1.** Ym mis Chwefror 2019, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2019/20 gyda gwariant net y gwasanaethau, swm o £133.324m, i gael ei gyllido o incwm o'r Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Roedd y cyfanswm ar gyfer ei wario ar eitemau cyffredinol ac eitemau nas cynlluniwyd ar eu cyfer yn £1.886m. Cafodd y gyllideb ar gyfer Premiwm y Dreth Gyngor ei chynyddu i £1.444m. O'r herwydd, mae cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2019/20 yn £135.210m.

**2.** Roedd y gyllideb am 2019/20 yn cynnwys yr angen i wneud arbedion gwerth £2.561m. Mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori yng nghyllidebau unigol y gwasanaethau a chaiff llwyddiant neu fethiant i'w cyflawni eu hadlewyrchu yn y (tan)/gorwariant a ddangosir. Tra bod angen arbedion sylweddol unwaith eto i gydbwyso'r gyllideb, cafodd swm ychwanegol o £0.277m ei gynnwys yn y gyllideb a'i ddal yn ganolog. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn cael ei ddyrannu i gwrdd â phwysau ychwanegol ar y gyllideb fel a phan maent yn codi. Yn ychwanegol at hyn, cafodd £479k o'r cyllid (50%) mewn perthynas â chostau pensiynau athrawon ychwanegol ei gadw'n ganolog gan fod cost pensiynau athrawon wedi cael ei gyllido'n llawn yn flaenorol yn y gyllideb ddatganoledig i'r ysgolion ond a fydd, ar gyfer 2019/20, yn cael ei gyllido gan grant. Mae'r cyllid craidd hwn a ryddhawyd wedi cael ei roddi yng nghronfa wrth gefn gyffredinol y Cyngor.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter 2, 30 Medi 2019. Ceir hefyd grynodeb o'r sefyllfa ragdybiedig ar gyfer y flwyddyn gyfan. Dylid nodi fod darogan y sefyllfa ar gyfer diwedd y flwyddyn ar ddiwedd chwarter 2 yn anodd oherwydd gall y sefyllfa newid yn sylweddol wrth i ni fynd drwy gweddill y flwyddyn.

**4.** Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragamcenir ar gyfer 2019/20 gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a'r gronfa Dreth Gyngor, yw gorwariant o £1.935m. Mae hyn yn cyfateb i 1.43% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2019/20. Mae hyn i'w briodoli i bwysau ariannol tebyg i'r rhai a brofwyd yn 2018/19, a'r mwyaf sylweddol o'r rhain yw cost y Gwasanaethau Oedolion.

**5.** Argymhellir y dylid:-

**(i)** Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B yng nghyswllt perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2019/20;
**(ii)** Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2019/20 fel y manylir arnynt yn Atodiad C;
**(iii)** Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH;
**(iv)** Nodi'r sefyllfa o ran arbedion effeithlonrwydd 2019/20 yn Atodiad D;
**(v)** Nodi'r modd y caiff costau staff asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2019/20 yn Atodiadau DD, E ac F.

| | |
|---|---|
| | **(vi)** Cymeradwyo'r defnydd o Gronfa Wrth Gefn Pensiynau Ysgolion i gyllido'r tâl gwyliau sy'n ddyledus i staff llanw ysgolion ac sy'n dyddio'n ôl i Ragfyr 2015. Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd y costau hyn yn £94k ynghyd ag argostau, sef cyfanswm oddeutu £110k yn fras. |
| **B -** | **Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
| | Amherthnasol |
| **C -** | **Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| | Mae'r mater hwn yn un sydd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. |
| **CH -** | **A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| | Ydi |
| **D -** | **A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| | Ydi |

| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae'r UDA wedi ystyried yr adroddiad ac mae'r pwyntiau a godwyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad terfynol. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r UDA ac ystyriwyd sylwadau'r Swyddog Monitro gan yr UDA. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Angylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw – Chwarter 2 2019/20
- Atodiad B – Tabl o'r Alldro Dros Dro gyfer 2019/20
- Atodiad C – Crynodeb o'r Cyllidebau wrth gefn 2019/20
- Atodiad CH – Adolygiad o'r Prosiectau Buddsoddi i Arbed 2019/20
- Atodiad D – Adolygiad o Arbedion Effeithlonrwydd 2019/20
- Atodiad DD – Gwybodaeth ynghylch monitro Staff Asiantaeth 2019/20
- Atodiad E – Gwybodaeth ynghylch monitro Ymgynghorwyr
- Atodiad F – Gwybodaeth fanwl mewn perthynas â'r gwariant ar Ymgynghorwyr

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Refeniw 2019/20 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 18 Chwefror 2019 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 27 Chwefror 2019).

# MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 2 2019/20

## 1. Balans Cyffredinol

Roedd gan y Cyngor gronfeydd wrth cefn clustnodedig gwerth £8.728m a chronfeydd wrth gefn yn yr ysgolion a oedd yn werth cyfanswm o £0.631m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Arweiniodd yr alldro terfynol, archwiliedig ar gyfer 2018/19 at falansau cyffredinol a oedd yn £5.912m ar gychwyn y flwyddyn ariannol gyfredol.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith yr eitemau canlynol ar gyfer eu cyllido o'r Gronfa Gyffredinol yn 2019/20:-

| Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith | Swm £m | Pwrpas |
|---|---|---|
| Balans agoriadol drafft | -5.912 | Y gronfa wrth gefn derfynol archwiliedig ar 31 Mawrth 2019. |
| Cyngor llawn 27 Chwefror 2019 | -0.479 | Bod cyllid (50%) mewn perthynas â chostau ychwanegol pensiynau athrawon yn cael ei ddychwelyd i'r gronfa wrth gefn cyffredinol gan fod cost pensiynau athrawon wedi cael ei gyllido'n llawn yn y Gyllideb Ddatganoledig Ysgolion. Yn lle hynny, bydd y costau pensiynau athrawon hyn yn cael eu cyllido drwy grant gan Lywodraeth Cymru yn 2019/20. |
| Gofynnir am gymeradwyaeth yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor gwaith | 0.110 | Cyllid ar gyfer tâl gwyliau athrawon llanw o Ragfyr 2015 hyd heddiw. Gall hyn amrywio rhywfaint pan fydd yr argostau gwirioneddol yn hysbys. |
| **Balans Diwygiedig Cronfa Gyffredinol y Cyngor** | **-6.281** | **Fel y soniwyd uchod, gall hyn newid ar ôl gwneud addasiadau'n dilyn archwiliad.** |

Yn unol â'r alldro cyfredol a ragamcenir ar gyfer 2019/20, tybir y bydd gorwariant o £1.935m. Os yw'r duedd hon yn parhau, mae'n debygol y bydd gostyngiad i £4.346m yng nghrofna wrth gefn gyffredinol y Cyngor erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn ymhell islaw'r isafswm o £6.7m a bennwyd ar gyfer y gronfa wrth gefn gyffredinol ac a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 27 Chwefror 2019.

## 2. Perfformiad Ariannol fesul Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion y perfformiad ariannol fesul gwasanaeth am y cyfnod a'r alldro rhagamcanedig ar gyfer pob un wedi'i nodi yn Atodiad B. Rhagwelir gorwariant o £1.410m ar wasanaethau ar 31 Mawrth 2020. Amcangyfrifir gorwariant o £0.341m ar Gyllid Corfforaethol. Yn ogystal, rhagwelir diffyg o £0.184m mewn perthynas â chasglu'r Dreth Gyngor - mae £0.363m ohono i'w briodoli i ddiffyg ar y Dreth Gyngor am y flwyddyn. Rhagamcenir gwarged o £0.180m ar Bremiwm y Dreth Gyngor, a fydd o gymorth i ostwng y diffyg cyffredinol mewn perthynas â'r Dreth Gyngor. Rhagamcenir ar hyn o bryd y bydd gorwariant o £1.935m yn y gyllideb refeniw yn ei chyfanrwydd yn 2019/20, sef 1.43% o gyfanswm cyllideb refeniw net y Cyngor.

**2.2** Mae'r tabl isod yn crynhoi'r amrywiadau sylweddol (oddeutu £100k neu uwch). Nodwch os gwelwch yn dda bod y ffigyrau hyn yn ymwneud â'r sefyllfa o ran y cyllidebau y mae modd eu rheoli ym mhob gwasanaeth.

| Crynodeb o'r amrywiadau rhagamcanedig ar gyfer 31 Mawrth 2020 yn seiliedig ar wybodaeth ariannol fel yr oedd ar 30 Medi 2019 | |
|---|---|
| | **(Tan) / Gorwariant £000** |
| Dysgu | 210 |
| Oedolion | 1,214 |
| Gwasanaethau Plant | (145) |
| Adnoddau | (181) |
| Costau Democrataidd Corfforaethol | 115 |
| Budd-daliadau a roddwyd | 381 |
| Costau nad oes modd eu rheoli – dyledion drwg, yswiriant a chostau cyfalaf pensiwn | 200 |
| Y Dreth Gyngor gan gynnwys Premiwm y Dreth Gyngor | 184 |
| Arall (cyfanswm amrywiadau llai na £100k) | (43) |
| **Cyfanswm yr Amrywiadau gor/(tan)wariant** | **1,935** |

## 3. Eglurhad o'r Amrywiadau Sylweddol

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Addysg Ganolog

**3.1.1.1** Roedd gorwariant o £74k (9.54%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd chwarter 2. Y rhagamcan ar gyfer diwedd y flwyddyn yw gorwariant o £180k (3.63%). Mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â'r gorwariant o £390k a ragamcanwyd yn ystod chwarter 1.

**3.1.1.2** Mae yna nifer o or a thanwariannau ar draws y gwasanaeth ac fe'u rhestrir isod:-

- Y pwysau cyllidebol mwyaf sylweddol yw: Cludiant Ysgol – Tacsis ble rhagwelir gorwariant o £343k. Gweithredwyd y system 'One Transport' yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol ac mae hyn, ynghyd â'r ymarfer ail-dendro a gynhaliwyd, wedi golygu y bu modd gostwng y gorwariant cyffredinol gan oddeutu £230k o gymharu â'r hyn a fyddai fel arall.
- Mae Cyd-Strategaeth AAA Ynys Môn a Gwynedd dal yn disgwyl y bydd gorwariant o £171k oherwydd y galw mewn perthynas ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Rhagwelir gorwariant o £97k ar gostau statudol integreiddiad y sector uwchradd. Mae hyn yn gynnydd o £23k yn y gorwariant yn ystod chwarter 1. Mae hyn oherwydd fod cyllideb y gwasanaeth wedi cael ei lleihau ar gyfer 2019/20 ond ni fydd modd i'r gwasanaeth gwrdd yn llawn â'i darged arbedion oherwydd y galw am y gwasanaeth.
- Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd tanwariant o £409k yn y gyllideb ar gyfer Lleoliadau All-sirol. Mae yn yn welliant sylweddol o gymharu â'r £208k a ragamcanwyd yn ystod chwarter 1. Mae hyn oherwydd y gostyngiad yn y galw am y lleoliadau hyn, gan gynnwys dwyn i ben y ddarpariaeth addysgol ar gyfer un achos cymhleth ble mae'r cleient bellach yn gyfrifoldeb i'r Gwasanaethau Oedolion fel y nodir isod. Mae'n bwysig nodi bod hon yn gyllideb a arweinir gan y galw ac y gall y sefyllfa newid yn gyflym iawn.
- Newid sylweddol arall yw bod disgwyl £166k o danwariant yn y gwasanaeth prydau ysgol yn awr o gymharu â'r gyllideb gytbwys a ragamcanwyd yn ystod chwarter 1. Mae hyn oherwydd y gostyngiad yn y galw am brydau ysgol.

- Rhagwelir tanwariant o £93k yn y ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Cafwyd tanwariant yn hanesyddol yn y gyllideb hon oherwydd taliadau llai nag y cyllidebwyd ar eu cyfer i feithrinfeydd.

**3.1.2 Diwylliant**

**3.1.2.1** Roedd gorwariant o £46k (8.87%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod ac mae'r alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yn orwariant o £30k (2.46%). Mae hon yn sefyllfa waeth o'i chymharu â'r tanwariant o £35k a ragamcanwyd yn ystod chwarter 1. Mae i'w briodoli i'r gwaith atgyweirio y bu'n rhaid ei wneud yng nghaffi'r Oriel yn dilyn ail-dendro'r brydles (£70k). Gwelwyd gostyngiad hefyd yn incwm yr Oriel oherwydd bod llai o bobl wedi ymweld â hi. Byddai cau'r caffi am dair wythnos yn ystod y gwaith atgyweirio hefyd wedi cyfrannu at hyn. Mae'r oedi a gafwyd o ran trosglwyddo Llys a Charchar Biwmares i'r Cyngor Tref wedi golygu cynnydd oddeutu £10k mewn costau.

**3.1.2.2** Mae tanwariant o £50k yn parhau yn y Gwasanaeth Llyfrgelloedd oherwydd swyddi gweigion.

**3.1.3 Ysgolion**

**3.1.3.1** Daeth i'r amlwg yn ddiweddar fod cyfrifoldeb ar y Cyngor i dalu tâl gwyliau i staff llanw yn seiliedig ar yr oriau a weithiwyd a hynny'n ôl-ddyddiedig i 2015. Amcangyfrifir bod cost yr ôl-dâl hwn ar draws yr ysgolion yn £94k + ar-gostau. Byddai hyn yn rhoi cyllidebau'r ysgol dan bwysau pellach ac o'r herwydd, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo cyllid ar gyfer y costau hyn o'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol. Gwelwyd cynnydd o £479k yn y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol yn ddiweddar oherwydd fod 50% o gyllideb graidd yr ysgolion a ddarparwyd gan y Cyngor i dalu'r cynnydd yng nghostau pensiwn athrawon wedi cael ei ddychwelyd. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi rhoi grant i'r Cyngor i dalu'r costau hyn. Mae 50% o'r arian dros ben o'r grant yn cael ei gadw gan yr ysgolion ac mae 50% yn cael ei ddychwelyd i'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol. Mae hyn yn darparu mwy o gapasiti yn y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol er mwyn ariannu'r costau hyn sy'n gysylltiedig ag ysgolion. Bydd staff llanw'n derbyn tâl gwyliau yn y dyfodol yn seiliedig ar yr oriau y maent yn eu gweithio.

## 3.2 Gofal Cymdeithasol i Oedolion

**3.2.1** Roedd gorwariant o £963k (7.81%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd gorwariant o £1,214k (4.82%) ar gyfer y flwyddyn gyfan.

**3.2.2** Roedd yr elfennau o ran yr amrywiad yn yr alldro a ragamcanwyd fel a ganlyn:-

- Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed: Rhagamcenir gorwariant o £798k – mae hyn yn gynnydd sylweddol o £453k ar y gorwariant a ragamcanwyd yn ystod chwarter 1. Mae £281k o'r cynnydd i'w briodoli i gynnydd yn y lleoliadau gofal preswl a nyrsio. Mae £101k yn ymwneud â gofal cartref â £60k â'r trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid, ble mae'r tanwariant rhagamcanedig wedi gostwng oherwydd bod nifer uwch o asesiadau wedi cael eu cynnal.
- Anableddau Corfforol (AC): Rhagwelir gorwariant o £181k, sy'n debyg i'r sefyllfa yn chwarter 1. Y prif feysydd sy'n peri pryder yma yw cymorth yn y cartref a lleoliadau gofal preswyl cymhleth.

- Anableddau Dysgu (AD): Rhagamcenir gorwariant o £541k. Mae hyn £58k yn llai na'r gorwariant yr adroddwyd arno yn ystod chwarter 1. Y rhesymau am y gorwariant hwn yw: (i) mae gan y Gwasanaeth nifer fechan o gleientiaid a chanddynt anghenion gofal cymhleth. Mae'n cynnwys cleient mewn lleoliad cymhleth cost uchel sydd wedi trosglwyddo o'r Gwasanaethau Plant. (ii) cynnydd yn y Ffioedd Byw â Chymorth.
- Iechyd Meddwl (IM): Rhagwelir gorwariant o £253k, sy'n debyg i chwarter 1. Mae'r gorwariant i'w briodoli i nifer fechan o becynnau gofal cymhleth a chynnydd yng nghost lleoliad.
- Uned Ddarparu: Rhagamcenir tanwariant o £545k o gymharu â thanwariant o £370k yn chwarter 1. Mae hyn i'w briodoli'n bennaf i gynnydd yn yr incwm yn yr adain Cartrefi Preswyl.

**3.2.3** Mae'r ffigyrau ar gyfer Chwarter 2 yn dangos pwysau sylweddol o ran y galw am wasanaethau yn ystod y ddau chwarter cyntaf. Er mwyn ymchwilio'n llawn i'r materion hyn, mae'r gwasanaeth yn ystyried pob llinell benodol unigol, sydd wedi arwain at y gorwariant sylweddol a ragamcenir, sef Lleoliadau Nyrsio, Lleoliadau Preswyl a chostau gofal cartref yn y Gwasanaethau ar gyfer Pobl Hŷn ac Anableddau Corfforol a'r costau byw â chymorth gofal cartref yn y maes Anabledd Dysgu.

Yn achos pob un, rhoddir ystyriaeth i'r canlynol:-

**1)** Natur y tueddiad cylchol (blwyddyn ar ôl blwyddyn a mis ar ôl mis);
**2)** Y rhesymau y tu ôl i'r tueddiad;
**3)** Camau pellach y gellir eu cymryd i reoli galw.

Mae'n annhebygol y caiff yr adolygiad hwn effaith ar wariant yn y tymor byr ond gobeithir y bydd, drwy ddatblygu dealltwriaeth o batrwm y gwariant a'r rhesymau am y cynnydd yn y gwariant hwnnw, yn fodd i'r Gwasanaeth reoli'r galw am wasanaethau yn y dyfodol.

## 3.3 Gwasanaethau Plant

**3.3.1** Roedd tanwariant o £293k (5.32%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod a rhagamcenir y bydd tanwariant o £145k (1.41%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn gryn gamp o gymharu â'r gorwariant o £1.8m yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19. Mae hefyd yn welliant o £123k o gymharu â'r tanwariant o £22k a ragamcanwyd yn ystod chwarter 1. Mae'r gwelliant o ran sefyllfa gyllidebol y gwasanaeth i'w briodoli'n bennaf i'r cyllid o £1.4m a ychwanegwyd at gyllideb 2019/20 a'r ffaith bod un plentyn, a oedd mewn lleoliad costus iawn, bellach yn gyfrifoldeb i'r Gwasanaethau Oedolion.

**3.3.2** Rhagwelir y bydd y gwasanaeth yn parhau i fod dan bwysau cyllidebol llai ar gyfer 2019/20 – Plant ag Anableddau (gorwariant o £79k); Cymorth i Deuluoedd (gorwariant o £57k); Gwasanaethau eraill i Blant a Theuluoedd (gorwariant o £55k). Caiff y rhain eu gorbwyso gan danwariannau mwy yn y gwasanaeth. Rhagwelir y bydd tanwariant o £128k ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â Chomisiynu a Gwaith Cymdeithasol. Rhagwelwyd yn chwarter 1 y byddai'r maes gwasanaeth hwn yn llwyddo i sicrhau cyllideb gytbwys. Mae'r tanwariant o £51k yn y Gwasanaethau Cymorth i Blant ychydig yn is na'r tanwariant o £73k yr adroddwyd arno yn chwarter 1. Rhagwelir y bydd tanwariant o £157k yn y gyllideb ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal o gymharu â'r gyllideb gytbwys a ragamcanwyd ar ddiwedd chwarter 1.

## 3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)

**3.4.1** Roedd tanwariant o £52k (5.18%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod ac mae'n parhau i ragweld tanwariant o £20k (1.63%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae costau digartrefedd (Gwely a Brecwast) yn parhau i roi pwysau ar y gyllideb a rhagwelir gorwariant o £60k erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, oherwydd swyddi gweigion ac oedi gyda recriwtio yn y gwasanaeth, rhagwelir y bydd tanwariant cyffredinol o £80k.

## 3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

### 3.5.1 Economaidd a Chymuned (gan gynnwys Cyrchfan a Hamdden)

**3.5.1.1** Yn gyffredinol, roedd gorwariant o £54k (4.01%) yn y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod gyda'r rhagamcan y byddai gorwariant o £38k (2.08%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd o £14k yn y gorwariant a ragamcanwyd yn ystod chwarter 1.

**3.5.1.2** Rhagwelir y bydd gorwariant o £78k yn elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd o gymharu â'r gyllideb gytbwys a ragamcanwyd yn ystod chwarter 1. Mae'r gwasanaeth yn debygol o orwario ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd diffyg mewn incwm, yn benodol oherwydd gohirio prosiect Wylfa Newydd. Mae'r gwasanaeth yn archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael ar brosiectau eraill, ar gyfer y Cyngor ac ar gyfer cynghorau eraill. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i bennu pa incwm ychwanegol a fyddai'n cael ei gynhyrchu ac, o ganlyniad, nid yw'r sefyllfa a ragwelwyd yn ystyried unrhyw incwm ychwanegol a allai gael ei gynhyrchu.

**3.5.1.3** Rhagwelir y bydd tanwariant o £40k yn yr Adain Cyrchfan. Mae hyn i'w briodoli i'r ffaith fod y gyllideb yn cael ei rheoli'n well, swydd wag tymor byr a'r ffaith y cafwyd mwy o incwm o angorfeydd na'r disgwyl.

**3.5.1.4** Mae sefyllfa ragamcanedig yr Adain Hamdden wedi gwella o sefyllfa o orwariant o £49k ar ddiwedd chwarter 1 i'r rhagolygon presennol ar gyfer cyllideb gytbwys. Mae pwysau cyllidebol yn parhau yn y canolfannau hamdden o ran y caffi a'r ddarpariaeth o beiriannau gwerthu (£15k), er bod y rhain wedi lleihau. Rhagamcenir tanwariant o £30k ar ardaloedd awyr agored.

### 3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**3.5.2.1** Roedd tanwariant o £165k (15.35%) yn y gwasanaeth hwn ar gyfer y cyfnod. Rhagwelir y bydd tanwariant o £84k (4.11%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn welliant o £35k o gymharu â'r tanwariant o £49k a ragamcanwyd yn ystod chwarter 1.

**3.5.2.2** Roedd tanwariant o £15k yn yr Adain Gwarchod y Cyhoedd am y cyfnod a'r alldro rhagamcanedig yw tanwariant o £7k, sy'n debyg i'r sefyllfa yn chwarter 1. Disgwylir y bydd targedau incwm o ran cŵn a rheoli pla £9k yn brin o'r targed ac y bydd diffyg o £7k yn yr incwm a geir o farchnadoedd a ffeiriau. Roedd y Cofrestryddion yn rhagamcan cyllideb gytbwys yn ystod chwarter 1 ond disgwylir gorwariant o £10k yn awr erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn oherwydd costau cynyddol a thargedau incwm na fu modd eu cyflawni. Fodd bynnag, mae swydd wag yn y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a fydd, fe ragwelir, yn arwain at danwariant o £18k ar ddiwedd y flwyddyn. Yn ychwanegol at hyn, disgwylir tanwariant o £17k yng nghyllideb y Safonau Masnach yn lle'r gyllideb gytbwys a ragamcanwyd eisoes. Mae hyn oherwydd swyddi gweigion a mwy o gyfraniadau o incwm allanol sy'n cyllido'r diffyg mewn perthynas â ffioedd profion.

**3.5.2.3** Roedd tanwariant o £150k yn yr Adain Gynllunio ar gyfer y cyfnod a rhagamcenir tanwariant o £77k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd o £30k o gymharu â'r tanwariant yr adroddwyd arno yn chwarter 1. Disgwylir i'r holl adeiniadu yn yr Adain Gynllunio danwario gyda gweinyddiaeth cynllunio'n rhagamcan gwarged o ran incwm, gyda hynny'n arwain at danwariant o £24k. Gwelwyd cynnydd o £26k yn y tanwariant ar Reoli Cynllunio a disgwylir tanwariant o £28k oherwydd mwy o incwm. Mae Rheoli Adeiladu'n parhau i ragamcan tanwariant o £15k.

## 3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

### 3.6.1 Priffyrdd

**3.6.1.1** Roedd gowariant o £41k (1.08%) yn y gwasanaeth hwn ar gyfer y cyfnod. Ar ddiwedd y flwyddyn, rhagamcenir y bydd tanwariant o £87k (1.45%). Mae hyn yn ostyngiad o £35k yn y tanwariant a ragamcanwyd yn chwarter 1. Rhagamcenir y bydd nifer o'r adeiniau yn yr Adran Briffyrdd yn tanwario ar ddiwedd y flwyddyn. Y rhai mwyaf nodedig yw Cymorth Adrannol sydd â thanwariant o £50k yn codi o arbedion mewn perthynas â chostau staffio, incwm gwaith stryd ble mae disgwyl cynhyrchu £80k yn fwy o incwm na'r targed. Disgwylir incwm ychwanegol o grantiau mewn perthynas â Chludiant Cyhoeddus, gyda hynny'n cyfrannu at y tanwariant o £50k a ragamcenir. Fodd bynnag, disgwylir gorwariant o £120k erbyn diwedd y flwyddyn yn y gyllideb waith. Mae hyn yn gynnydd o £20k o gymharu â'r hyn yr adroddwyd arno'n flaenorol ac mae'n cynnwys prynu halen. Nid yw'r rhagamcan hwn yn cynnwys gwaith sy'n codi yn sgil cynnal a chadw a stormydd dros y gaeaf ac mae dal yn rhy gynnar yn y flwyddyn i ragamcan yr alldro ar y costau hyn. Gallai costau sylweddol yn ystod y gaeaf olygu y gall y sefyllfa a ragamcenir yn ystod y chwarter hwn waethygu, er bod cronfa wrth gefn glustnodedig ar gael i gyfrannu at unrhyw gynnydd sylweddol mewn costau.

### 3.6.2 Gwastraff

**3.6.2.1** Roedd tanwariant o £136k (3.59%) yn y gwasanaeth Gwastraff ar gyfer y cyfnod hwn. Rhagwelir y bydd tanwariant o £40k (0.52%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n debyg i'r tanwariant a ragamcanwyd yn ystod chwarter 1.

**3.6.2.2** Mae'r rhagamcan ar gyfer diwedd y flwyddyn yn cynnwys gorwariannau a thanwariannau sy'n eu gwrthbwyso mewn gwahanol adeiniau o'r gwasanaeth. Mae'r mwyaf nodedig o'r amrywiadau'n cynnwys tanwariant o £70k ar Orsaf Drosglwyddo Penhesgyn oherwydd staffio a chynhyrchu incwm a oedd yn uwch na'r gyllideb. Mae'r Adain Ailgylchu hefyd yn rhagamcanu tanwariant o £100k ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd mwy o incwm na'r disgwyl, gyda hynny'n gwrthbwyso'r gorwariant ar y gyllideb Casglu Gwastraff sydd, ar hyn o bryd, â gorwariant o £80k.

### 3.6.3 Eiddo

**3.6.3.1** Ar ddiwedd y cyfnod hwn, roedd £7k (1.95%) o orwariant yn y gwasanaeth a rhagamcenir gorwariant o 160k (18.75%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd o £35k o gymharu â'r rhagamcan yn y chwarter blaenorol.

**3.6.3.2** Y prif reswm am y gorwariant rhagamcanedig yn y gwasanaeth Eiddo yw'r tangyflawniad rhagamcanedig o £134k mewn perthynas â ffioedd proffesiynol. Mae oedi gyda phrosiectau cyfalaf yn rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi gostwng y gwaith sy'n denu ffioedd yn yr adain Eiddo am y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, disgwylir i'r gwaith hwn gynyddu mewn blynyddoedd ariannol yn y dyfodol pan fydd prosiectau Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif yn mynd rhagddynt. Mae'r cynnydd yn y gorwariant i'w briodoli i wariant unwaith ac am byth o £35k ar resymoli swyddi yn Neuadd y Sir.

## 3.7 Trawsnewid

**3.7.1** Roedd gorwariant o £291k (12.64%) yn y swyddogaeth Trawsnewid ar gyfer y cyfnod. Rhagwelir y bydd gorwariant o £43k (0.95%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn welliant o £54k o gymharu â'r gorwariant o £97k a ragwelwyd ar gyfer chwarter 1.

**3.7.1.1** Roedd gorwariant o £254k (20.13%) yn yr Adain TGCh am y cyfnod a disgwylir y bydd gorwariant o £220k (9.18%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r holl gyllidebau meddalwedd a chaledwedd ar draws y Cyngor, ac eithrio ysgolion, wedi cael eu canoli ac yn cael eu rheoli bellach o fewn yr Adain TGCh. Yn hanesyddol, roedd y cyllidebau'n annigonol. Mae gorwariant o £296k ar feddalwedd, fodd bynnag, disgwylir tanwariant o £63k ar Cysylltu Môn, sy'n lleihau'r tanwariant ar gyfer y swyddogaeth. Mae cais ar gyfer cyllideb fwy yn 2020/21 wrthi'n cael ei ystyried er mwyn lliniaru'r pwysau hanesyddol hyn ar y gyllideb.

**3.7.1.2** Roedd gorwariant o £54k (7.66%) yn y swyddogaeth AD am y cyfnod a rhagamcenir y bydd y tanwariant o £60k (4.75%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn oherwydd y tanwariant a ragamcenir ar gyllidebau hyfforddiant. Mae'r gorwariant hyd yma'n uwch oherwydd bod gwariant ar y blaen i'r proffil.

**3.7.1.3** Roedd tanwariant o £17k (4.86%) yn y gyllideb Trawsnewid Corfforaethol ar gyfer y cyfnod a disgwylir tanwariant o £117k (13.63%) erbyn diwedd y flwyddyn, yn bennaf oherwydd tanwariant ar y cyllidebau staffio yn y tîm Trawsnewid Corfforaethol a Cyswllt Môn. Rhagwelir y bydd tanwariant o £50k mewn perthynas â Phartneriaeth Ynys Môn a Gwynedd.

**3.8 Adnoddau (ac eithrio Budd-daliadau a Roddwyd)**

**3.8.1** Roedd tanwariant o £174k (10.6%) yn y swyddogaeth Adnoddau ar gyfer y cyfnod gydag alldro rhagamcanedig o danwariant o £181k (5.93%). Mae hyn yn gynnydd sylweddol o £102k o gymharu â'r tanwariant o £79k a ragamcanwyd yn ystod chwarter 1.

**3.8.2** Disgwylir tanwariant o £61k mewn perthynas â Refeniw a Budd-daliadau am y flwyddyn o gymharu â'r tanwariant o £5k a ragamcanwyd yn flaenorol. Mae hyn oherwydd y cynnydd yn yr incwm o achosion llys (£27k) a £43k o grant ychwanegol ar gyfer budd-daliadau tai. Mae'r Adain Gyfrifeg yn edrych ar orwariant o £5k oherwydd taliadau banc (£34k) a chostau ymgynghori ar y system (£23k). Rhagwelir tanwariant o £52k ar staffio, a fydd yn gorbwyso'r rhan fwysaf o'r costau hyn. Disgwylir gyllideb gytbwys yn yr Adain Archwilio Mewnol, a disgwylir tanwariant o £125k yn yr Adain Gaffael oherwydd mentrau prynu, h.y. cyllidebau prynu wedi'u canoli ac ad-daliadau ar gardiau caffael. Mae hyn yn welliant o £36k o gymharu â'r tanwariant o £89k a ragamcanwyd ar Gaffael yn y chwarter blaenorol.

**3.9 Busnes y Cyngor**

**3.9.1** Roedd tanwariant o £46k (5.84%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod a rhagamcenir gorwariant o £47k (2.89%) erbyn diwedd y flwyddyn. Gwelliant bychan o gymharu â chwarter 1.

**3.9.2** Disgwylir gorwariant o £99k yn y Gwasanaethau Cyfreithiol, yn bennaf oherwydd yr angen i ddefnyddio asiantaeth gyfreithiol i lenwi swyddi gweigion/darparu gwasanaeth yn ystod cyfnodau o absenoldeb. Bydd y costau hyn yn uwch yn ail hanner y flwyddyn ac, o'r herwydd, daw'r tanwariant sy'n bodoli nawr yn orwariant erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd rhywfaint o'r gorwariant yn cael ei leihau gan y Gwasanaethau Democratiadd a fydd, fe ddisgwylir, â thanwariant o £52k. Rhagamcenir y bydd tanwariant ym mhob un o swyddogaethau'r Adain, gyda'r disgwyliad y bydd yr adeiniau Sgriwtini a Pholisi â thanwariant o £15k yr un.

### 3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd

**3.10.1** Roedd gorwariant o £157k (12.74%) yn y swyddogaeth yn ystod y cyfnod a'r sefyllfa a ragamcenir erbyn diwedd y flwyddyn yw gorwariant o £115k (3.43%). Mae hyn yn gynnydd o £126k o gymharu â'r tanwariant o £11k yr adroddwyd arno yn chwarter 1. Mae'r newid hwn i'w briodoli i ddileu dyledion gwerth £125k mewn perthynas â 2018/19 nad oeddynt wedi eu hadlewyrchu yng nghyfrifon 2018/19. Canfuwyd y camgymeriad hwn yn ystod yr archwiliad o gyfrifon 2018/19 ond ystyriwyd nad oedd yn ddigon sylweddol i gyfiawnhau addasu'r cyfrifon mor hwyr yn y broses. Roedd ffi derfynol y Crwner hefyd yn uwch na'r hyn y cyfrifiwyd amdani yn 2018/19.

**3.10.2** Y pwysau mwyaf ar y gyllideb, ac eithrio'r addasiad ar gyfer dyled ddrwg unwaith ac am byth, oedd £25k mewn perthynas â chwnsela staff a £20k ar Ddiwrnod y Lluoedd Arfog. Fodd bynnag, caiff y rhain eu gwrthbwyso gan danwariannau ar gyfraniadau pensiwn.

### 3.11 Rheolaeth Gorfforaethol

**3.11.1** Roedd tanwariant o £26k (8.41%) yn y swyddogaeth am y cyfnod a rhagamcenir y bydd tanwariant o £60k (9.53%) erbyn diwedd y flwyddyn. Cynnydd o £40k yn y tanwariant o £20k yr adroddwyd arno yn ystod chwarter 1.

**3.11.2** Rhagwelir y bydd tanwariant o £71k yn y swyddogaeth a hynny ar staffio oherwydd ailstrwythuro'r Tîm Rheoli. Gwariwyd £11k ar gludiant a chyflenwadau a gwasanaethau nad oedd cyllideb ar eu cyfer, gyda hynny'n gostwng y tanwariant i £60k.

## 4. Cyllid Corfforaethol (yn cynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)

**4.1** Disgwylir y bydd Cyllid Corfforaethol, yn cynnwys Budd-daliadau a Roddwyd, yn gorwario £341k (2.09%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn uwch na'r gorwariant o £265k a ragwelwyd yn chwarter 1. Mae hyn o ganlyniad i gynnydd mewn budd-daliadau a roddwyd a'r tanwariant o £66k a ragwelwyd yn flaenorol ar gyfer pethau annisgwyl a disgwylir y bydd bellach yn sicrhau cyllideb gytbwys. Mae hyn yn ganlyniad i gyllid mewn perthynas â Gwasanaethau Plant yn cael ei symud i gyllideb y Gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn. Mae budd-daliadau a roddwyd yn gorwario gan ei fod yn seiliedig ar wariant 2018/19 a thueddiadau blaenorol, rhagwelwyd y byddai'r llwyth achosion o dan y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn gostwng ac, er y cynnydd cyffredinol yn lefel y Dreth Gyngor, cafodd y gyllideb ei lleihau yn 2019/20. Yn seiliedig ar y sefyllfa gyfredol, nid yw'r llwyth achosion wedi gostwng yn ôl y disgwyl a'r rhagamcan presennol yw y bydd y gyllideb yn gorwario £381k.

**4.2** Roedd y gyllideb ar gyfer 2019/20 yn cynnwys rhai eitemau a oedd yn cael eu dal yn ganolog fel cyllidebau wrth gefn a oedd yn dod i gyfanswm o £1,891k. Mae'r rhain yn cynnwys £202k o gyllid ychwanegol ar gyfer ffioedd Addysg All Sirol; £417k sydd wedi'i glustnodi ar gyfer Gwasanaethau Plant; £237k ar gyfer costau eraill a glustnodwyd sydd wedi'u cymeradwyo; £235k fel arian wrth gefn ar gyfer materion annisgwyl cyffredinol er mwyn mynd i'r afael â phwysau ar y gyllideb; £400k i dalu am gostau diswyddo a therfynu swyddi; a £400k fel cronfa wrth gefn gyffredinol ar gyfer materion annisgwyl. Mae £1,030k o gyllidebau ar gyfer materion annisgwyl wedi trosglwyddo i'r gwasanaethau i ddiben y cytunwyd arno. Mae hyn yn gadael balans o £861k, y mae £499k ohono wedi ei ymrwymo. Mae £361k o gyllideb wrth gefn ar gyfer pethau annisgwyl heb ei glustnodi, fodd bynnag, rhagwelir y bydd angen hwn ac y bydd yr holl arian wrth gefn ar gyfer pethau annisgwyl wedi'i ddefnyddio yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

**5. Casglu’r Dreth Gyngor**

**5.1** Penderfynir ar gyllideb Cronfa'r Dreth Gyngor gan ddefnyddio'r rhagamcan o’r ddyled gasgladwy ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn unig, a hynny’n seiliedig ar y ffigwr a osodwyd ar gyfer sylfaen y dreth ym mis Tachwedd 2018. Nid yw'n darparu ar gyfer ôl-ddyledion a gasglwyd o flynyddoedd blaenorol, addasiadau i rwymedigaethau sy'n deillio o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau pobl sengl ac ati), newidiadau i sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol neu'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn anorfod, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol y Gronfa Casglu’r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Ar hyn o bryd, rhagamcenir y bydd Cronfa’r Dreth Gyngor £363k yn brin o’r targed. Mae hyn yn gynnydd o £205k ar y diffyg o £158k a ragwelwyd ar ddiwedd chwarter 1. Fodd bynnag, mae posibilrwydd efallai y bydd cyllideb Premiwm y Dreth Gyngor, sef taliad Dreth Gyngor ychwanegol a godir ar ail gartrefi a tai gwag ar Ynys Môn (ers 1 Ebrill 2017), yn gorgyflawni ar ei gyllideb o £180k. Mae hyn £124k yn llai na’r gwarged o £304k a adroddwyd yn flaenorol. Yn gyffredinol, felly, rhagwelir y bydd diffyg o £184k ar gasglu’r Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20.

**6. Arbedion Cyllidebol 2019/20**

**6.1** Tynnwyd arbedion cyllidebol o £2.561m o gyllidebau’r gwasanaeth ar gyfer 2019/20. Mae £2.166m o’r arbedion wedi cael eu cyflawni neu mae disgwyliad iddynt gael eu cyflawni. Fodd bynnag, disgwylir na fydd modd cyflawni £395k, neu fod risg na fydd modd eu cyflawni. Bydd y diffyg mwyaf yn y Gwasanaethau Oedolion a fydd, fe ragwelir, £276k yn fyr o’r targed oherwydd pwysau cynyddol yn y galw am y gwasanaeth. Gellir gweld dadansoddiad manwl llawn ar gyfer pob Gwasanaeth yn Atodiad D.

**7. Buddsoddi i Arbed**

**7.1** Ymgymerwyd â rhaglen buddsoddi i arbed yn 2016/17, gyda dyraniad o £983k ar gyfer prosiectau unigol. Hyd yma, mae £647k wedi cael ei wario neu ei ymrwymo o’r cyllid hwn hyd at ac yn cynnwys 2019/20. Mae’r holl brosiectau wedi eu datblygu i raddfeydd amrywiol, gyda rhai yn nes i’w cwblhau nag eraill. Gellir gweld manylion llawn y gwariant a’r cynnydd ar bob un o’r prosiectau yn Atodiad CH. Lle na fydd y prosiectau wedi eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, byddent yn parhau i 2020/21 a bydd y gyllideb yn parhau i fod ar gael o fewn y gronfa wrth gefn buddsoddi i arbed.

**8. Costau Asiantaeth ac Ymgynghorwyr**

**8.1** Yn ystod y flwyddyn hyd yma, mae £335k wedi cael ei wario ar staff Asiantaeth. Ar y cyfan, roedd y rhain yn cael eu cyllido’n rhannol o gyllidebau staffio oherwydd eu bod yn gysylltiedig â swyddi gweigion, tra bod £137k yn gysylltiedig â staff llanw yn y Gwasanaethau Plant, gan fod yna swyddi gweigion. Gwariodd y Gwasanaeth Oedolion £83k hyd at ddiwedd Medi 2019. Roedd hyn yn ganlyniad i swyddi gweigion a’r gwaith DOLS (Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid). Gwariodd y Gwasanaeth Gwastraff £104k ar staff asiantaeth safle yn y canolfannau ailgylchu. Mae'r manylion llawn i'w gweld yn Atodiad DD.

**8.2** Roedd gwariant ar wasanaethau ymgynghori yn chwarter 2 yn £234k, gyda £71k ohono’n cael ei gyllido’n allanol gan grantiau neu gyfraniadau. Cyfanswm y gwariant ar Ymgynghorwyr hyd at 30 Medi 2019 oedd £393k. Mae crynodeb llawn o’r gwariant fesul gwasanaeth a gwybodaeth ychwanegol o’r gwariant i'w gweld yn Atodiad E.

## 9. Casgliad

**9.1** Y rhagamcan ar ddiwedd yr ail chwarter yw y bydd gorwariant o £1.935m ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020. Disgwylir y bydd cyllidebau gwasanaeth yn gorwario £1.410m a rhagwelir y bydd cyllid corfforaethol yn gorwario £0.341m. Disgwylir diffyg o £0.184m ar y Dreth Gyngor safonol. Y duedd yn hanesyddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yw bod Cyllid Corfforaethol a'r Dreth Gyngor wedi tanwario'n sylweddol / bod ag incwm dros ben. Mae hyn wedi helpu i leihau'r gorwariant o ran costau gwasanaeth. Yn anffodus, yn 2019/20, mae'r cyllidebau hyn hefyd o dan bwysau ac ni fyddant ar gael i gyllido'r gorwariant mewn gwasanaethau. Mae cyllidebau'r Gwasanaeth Oedolion o dan bwysau sylweddol o ganlyniad i alw cynyddol am wasanaethau a throsglwyddio lleoliad costus o'r Gwasanaethau Plant. Y patrwm arferol yw bod sefyllfa'r alldro terfynol yn well na'r amcangyfrif ar gyfer y chwarteri cyntaf, fodd bynnag os yw'r gorwariant a ragwelir yn digwydd, byddai'n cael ei ariannu o falansau cyffredinol y Cyngor a fyddai'n gostwng i £4.346m. Mae'r gostyngiad hwn yn gwanhau sefyllfa ariannol y Cyngor ond yn cyfiawnhau'r penderfyniad i beidio â defnyddio'r balansau wrth gefn cyffredinol i gtyllido rhan o gyllideb 2019/20.

## ALLRDO REFENIW RHAGDYBIEDIG AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL A DDAW I BEN AR 31 MAWRTH  2019 – CHWARTER 2

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol 2019/20 | Cyllideb Hyd Yma Ch2 2019/20 | Gwir Wariant a Gwariant wedi'i ymrwymo Ch2 | Amrywiad Ch2 2019/20 | Gwir Wariant a Gwariant wedi'i ymrwymo Ch2 | Gwariant Amcangyfrifedig hyd at 31 Mawrth 2020 ar Ch2 | Alldro Amcangyfrifedig 31 Mawrth 2020 gor/(tan) wariant ar Ch2 | Gor/ (Tan)wariant rhagdybiedig fel % o Gyfanswm y Gyllideb 2019/20 | Alldro Amcangyfrifedig 31 Mawrth 2020 gor/(tan) wariant ar Ch1 | Gor / (Tan) wariant 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | |
| Cyllideb a Ddatganolir i Ysgolion | 44,424 | 23,197 | 23,197 | (0) | 0.00% | 44,424 | 0 | 0.00% | 0 | 0 |
| Addysg Ganolog | 4,960 | 771 | 845 | 74 | 9.54% | 5,140 | 180 | 3.63% | 390 | 327 |
| Diwylliant | 1,218 | 522 | 568 | 46 | 8.87% | 1,248 | 30 | 2.46% | (35) | (124) |
| | | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 25,172 | 12,335 | 13,298 | 963 | 7.81% | 26,386 | 1,214 | 4.82% | 983 | 1,178 |
| | | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | 10,248 | 5,500 | 5,207 | (293) | -5.32% | 10,103 | (145) | -1.41% | (22) | 1,830 |
| | | | | | | | | | | |
| **Tai** | 1,224 | 1,007 | 955 | (52) | -5.18% | 1,204 | (20) | -1.63% | (20) | (304) |
| | | | | | | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | | | | | | |
| Priffyrdd | 6,017 | 3,812 | 3,853 | 41 | 1.08% | 5,930 | (87) | -1.45% | (122) | (322) |
| Eiddo | 853 | 358 | 365 | 7 | 1.95% | 1,013 | 160 | 18.75% | 125 | 35 |
| Gwastraff | 7,717 | 3,786 | 3,651 | (136) | -3.59% | 7,677 | (40) | -0.52% | (35) | (328) |
| | | | | | | | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 1,826 | 1,357 | 1,411 | 54 | 4.01% | 1,864 | 38 | 2.08% | 24 | (107) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2,045 | 1,072 | 908 | (165) | -15.35% | 1,961 | (84) | -4.11% | (49) | (121) |
| | | | | | | | | | | |

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol 2019/20 | Cyllideb Hyd Yma Ch2 2019/20 | Gwir Wariant a Gwariant wedi'i ymrwymo Ch2 | Amrywiad Ch2 2019/20 | Gwir Wariant a Gwariant wedi'i ymrwymo Ch2 | Gwariant Amcangyfrifedig hyd at 31 Mawrth 2020 ar Ch2 | Alldro Amcangyfrifedig 31 Mawrth 2020 gor/(tan) wariant ar Ch2 | Gor/ (Tan)wariant rhagdybiedig fel % o Gyfanswm y Gyllideb 2019/20 | Alldro Amcangyfrifedig 31 Mawrth 2020 gor/(tan) wariant ar Ch1 | Gor / (Tan) wariant 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,262 | 699 | 753 | 54 | 7.66% | 1,202 | (60) | -4.75% | 13 | (54) |
| TGCh | 2,396 | 1,261 | 1,515 | 254 | 20.13% | 2,616 | 220 | 9.18% | 140 | 135 |
| Trawsnewid Corfforaethol | 859 | 342 | 325 | (17) | -4.86% | 742 | (117) | -13.63% | (56) | (183) |
| | | | | | | | | | | |
| **Adnoddau** | 3,050 | 1,640 | 1,467 | (174) | -10.60% | 2,869 | (181) | -5.93% | (79) | (39) |
| | | | | | | | | | | |
| **Busnes y Cyngor** | 1,626 | 791 | 745 | (46) | -5.84% | 1,673 | 47 | 2.89% | 55 | (53) |
| | | | | | | | | | | |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd** | 3,352 | 1,236 | 1,393 | 157 | 12.74% | 3,467 | 115 | 3.43% | (11) | (181) |
| | | | | | | | | | | |
| **Rheolaeth Gorfforaethol** | 629 | 314 | 288 | (26) | -8.41% | 569 | (60) | -9.53% | (20) | 2 |
| | | | | | | | | | | |
| **Effaith Amcangyfrifiedig y Costau na ellir eu rheoli** | | | | | | 200 | 200 | | 200 | 596 |
| | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau'r Gwasanaethau** | 118,880 | 60,001 | 60,743 | 742 | 1.24% | 120,290 | 1,410 | 1.19% | 1,481 | 2,287 |
| | | | | | | | | | | |
| Ardollau | 3,528 | 3,528 | 3,528 | (0) | 0.00% | 3,528 | 0 | 0.00% | 0 | 0 |
| Gostyngiadau Dewisol yn y Dreth | 85 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 96 | 11 | 12.69% | 7 | 0 |
| Cyllido Cyfalaf | 7,129 | 989 | 946 | (43) | -4.31% | 7,079 | (50) | -0.70% | 0 | (1,185) |
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac Eraill | 861 | 861 | 499 | (362) | -42.00% | 861 | 0 | 0.00% | (66) | 0 |
| Cyfraniad y Gwasanaethau Cefnogaeth i'r CRT | (773) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (773) | 0 | 0.00% | 0 | **(152)** |

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol 2019/20 | Cyllideb Hyd Yma Ch2 2019/20 | Gwir Wariant a Gwariant wedi'i ymrwymo Ch2 | Amrywiad Ch2 2019/20 | Gwir Wariant a Gwariant wedi'i ymrwymo Ch2 | Gwariant Amcangyfrifedig hyd at 31 Mawrth 2020 ar Ch2 | Alldro Amcangyfrifedig 31 Mawrth 2020 gor/(tan) wariant ar Ch2 | Gor/ (Tan)wariant rhagdybiedig fel % o Gyfanswm y Gyllideb 2019/20 | Alldro Amcangyfrifedig 31 Mawrth 2020 gor/(tan) wariant ar Ch1 | Gor / (Tan) wariant 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** | **£'000** |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 5,501 | 777 | 793 | 16 | 2.07% | 5,882 | 381 | 6.92% | 324 | (48) |
| | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** | 16,331 | 6,155 | 5,767 | (388) | -6.31% | 16,672 | 341 | 2.09% | 265 | **(1,385)** |
| | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm 2019/20** | **135,210** | **66,156** | **66,510** | **354** | **0.53%** | **136,962** | **1,751** | **1.30%** | **1,746** | **902** |
| | | | | | | | | | | |
| **<u>Cyllido</u>** | | | | | | | | | | |
| Trethi Annomestig | (22,754) | (12,252) | (12,252) | 0 | 0.00% | (22,754) | 0 | 0.00% | 0 | 0 |
| Y Dreth Gyngor | (37,975) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (37,612) | 363 | -0.96% | 158 | (269) |
| Premiwm y Dreth Gyngor | (1,444) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (1,624) | (180) | 12.43% | (304) | |
| Grant Cymorth Refeniw | (73,037) | (39,328) | (39,328) | 0 | 0.00% | (73,037) | 0 | 0.00% | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllido 2019/20** | **(135,210)** | **(51,580)** | **(51,580)** | **0** | **0.00%** | **(135,027)** | **184** | **0.00%** | **(146)** | **(269)** |
| | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm yr Alldro gan gynnwys effaith cyllido** | **0** | **14,576** | **14,930** | **354** | **2.43%** | **1,935** | **1,935** | **1.43%** | **1,600** | **633** |

**ATODIAD C**

## CRYNODEB O SEFYLLFA ALLDRO Y CYLLIDEBAU WRTH GEFN 2019/20

| | Y Gyllideb Wreiddiol<br>£ | Trosglwyddiadau<br>£ | Y Gyllideb Ddiwygiedig hyd yma<br>£ | Wedi ymrwymo hyd yma Ch2<br>£ | Cyllidebau heb eu hymrwymo hyd yma<br>£ | Gorwariant / (Tan)wariant Rhagdybiedig 2019/20<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol | 399,350 | 13,480 | 412,830 | 113,620 | 299,210 | - |
| Cyflog a Graddfeydd | 400,000 | (224,340) | 175,660 | 113,243 | 62,417 | - |
| Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi | 1,091,710 | (819,180) | 272,530 | 272,530 | - | - |
| **Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill** | **1,891,060** | **(1,030,040)** | **861,020** | **499,393** | **361,627** | **-** |

**ATODIAD CH**

## ADOLYGIAD O BROSIECTAU BUDDSODDI I ARBED 2019/20

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymer-adwywyd £ | Swm a Glustnodwyd (cyfanswm – nid Bl 1 yn unig) £ | Cyfanswm Gwariant hyd at 31 Mawrth 2019 £ | Balans ar 1 Ebrill 2019 £ | Dyraniad ar gyfer 2019/20 £ | Y Gwariant hyd yma 2019/20 £ | Cyllideb Weddilliol 2019/20 £ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | System Rheoli Dogfennau Electronig ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | Datrysiad sganio a llif gwaith ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | 170,000 | 170,000 | 169,945 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae'r prosiect wedi'i gwblhau'n llwyddiannus erbyn hyn, o fewn y gyllideb. Yn y pen draw, llwyddodd y prosiect i gyflawni'r ffactorau llwyddiant tyngedfennol - gan gefnogi'r angen am reoli dogfennau'n dda, gwella gwasanaeth i gwsmeriaid, lleihau gofynion storio, bodloni gofynion cyfreithiol, moderneiddio prosesau gweinyddol a gwneud data yn ased corfforaethol. Mae crynodeb o wersi a ddysgwyd o'r Prosiect EDMS ar ffurf rhestr wirio i'w chymryd i ystyriaeth wrth weithredu unrhyw brosiectau cysylltiedig â TG yn y dyfodol, yn enwedig ar gyfer y rhai hynny sy'n cynnwys trydydd parti wedi ei drafftio ar gyfer ei gymeradwyo gan y Bwrdd Prosiect Prosesau Busnes yn Hydref 2019. |
| TG | Mynegai Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) | Gweithredu system LLPG ar draws y Cyngor | 10,800 | 10,800 | 15,261 | 0 | 0 | 0 | 0 | Cwblhawyd y prosiect yn 2017/18. Roedd gorwariant o £4.5k ar y prosiect, ac fe gyllidwyd hwnnw o refeniw. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymer-adwywyd £ | Swm a Glustnodwyd (cyfanswm – nid Bl 1 yn unig) £ | Cyfanswm Gwariant hyd at 31 Mawrth 2019 £ | Balans ar 1 Ebrill 2019 £ | Dyraniad ar gyfer 2019/20 £ | Y Gwariant hyd yma 2019/20 £ | Cyllideb Weddilliol 2019/20 £ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TG / Trawsnewid | System Rheoli Perthnasau gyda'r Cwsmer (CRM) | Prynu a Gweithredu System CRM | 255,000 | 255,000 | 102,712 | 152,288 | 152,288 | 52,156 | 100,132 | Mae'r CRM bellach wedi hen ennill ei blwyf gyda dros 10,000 o gwsmeriaid wedi cofrestru ac 10,788 o geisiadau gwasanaeth ers Ionawr 2019. Mae TG yn gweithio gyda gwasanaethau o dan gyfarwyddyd y Bwrdd Trawsnewid Prosesau Busnes er mwyn anfon mwy o ffurflenni talu ar-lein a sicrhau eu bod ar gael drwy'r CRM er mwyn gwella prosesau, galluogi arbedion effeithlonrwydd a gwella profiadau cwsmeriaid. Mae yna hefyd botensial mawr ar gyfer gwella ffurflenni a phrosesau mewnol ac mae hwn yn rhywbeth a fydd yn cael ei ymchwilio iddo. |
| TG / Adnoddau | Porth Talu | Prynu a gweithredu porth talu a fydd yn golygu y gellir derbyn taliadau drwy'r Ap | 27,000 | 27,000 | 13,417 | 13,583 | 13,583 | -625 | 14,208 | Mae'r Porth Talu yn gyflawn ac wedi'i lansio drwy wefan y Cyngor a'r porth Fy Nghyfrif. Mae nifer o ffurflenni Gwarchod y Cyhoedd wedi eu datblygu ac yn y broses o gael eu cyhoeddi mewn cydweithrediad â'r gwasanaeth a Refeniw. Bydd y porth talu symudol yn cael ei ddarparu ar gyfer ei brofi o fewn y bythefnos nesaf er mwyn galluogi taliadau drwy ApMôn. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymer-adwywyd<br><br>£ | Swm a Glustnodwyd (cyfanswm – nid Bl 1 yn unig)<br>£ | Cyfanswm Gwariant hyd at 31 Mawrth 2019<br>£ | Balans ar 1 Ebrill 2019<br><br>£ | Dyraniad ar gyfer 2019/20<br><br>£ | Y Gwariant hyd yma 2019/20<br><br>£ | Cyllideb Weddilliol 2019/20<br><br>£ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd | Gwneud Systemau Cynllunio yn fwy Gwydn | Systemau Cynllunio newydd wedi'u hawtomeiddio | 118,000 | 118,000 | 79,548 | 57,122 | 57,122 | 35,164 | 21,958 | Aeth yr uwchraddiad i'r system swyddfa gefn Cynllunio yn fyw ym mis Tachwedd 2018 ac mae bellach yn fyw i ddefnyddwyr allanol. Mae gwaith ar yr agwedd Rheoli Adeiladau o'r o'r prosiect yn datblygu'n dda ac fe aeth yn fyw ym mis Gorffennaf 2019. Mae bellach angen diweddariad pellach o'r ERDMS er mwyn symleiddio'r broses ar gyfer golygiad a chyhoeddi dogfennau er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth GDPR newydd. Mae gwaith uwchraddio a phrofi, yn enwedig technoleg symudol ar gyfer ymweliadau safle, yn parhau. Mae swyddogaeth cofnodi amser staff wedi ei gynhyrchu fel rhywbeth ychwanegol i'r platfform digidol ARCUS ac mae bellach ar gael i'w ddefnyddio. Mae nifer sylweddol o ffeiliau cynllunio hanesyddol sydd dal angen eu digideiddio. Os oes balans yn parhau heb ei wario unwaith y bydd yr holl waith datblygu wedi'i gwblhau, argymhellir y dylid defnyddio hwn i gyllido'r gwaith o ddigideiddio ffeiliau hanesyddol. Byddai hyn o gymorth i wneud y defnydd mwyaf posibl o ddatblygiadau newydd. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymer-adwywyd £ | Swm a Glustnodwyd (cyfanswm – nid Bl 1 yn unig) £ | Cyfanswm Gwariant hyd at 31 Mawrth 2019 £ | Balans ar 1 Ebrill 2019 £ | Dyraniad ar gyfer 2019/20 £ | Y Gwariant hyd yma 2019/20 £ | Cyllideb Weddilliol 2019/20 £ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | Gwella Systemau Casglu Incwm | Prynu a gweithredu system rheoli incwm newydd sy'n cysylltu gyda'r ffrydiau incwm presennol ac yn caniatáu dulliau newydd ar gyfer casglu incwm (AppMon ac ati) cysylltu i'r system rheoli arian | 150,000 | 150,000 | 90,481 | 59,519 | 59,519 | 11,752 | 47,767 | Mae gan y prosiect y tasgau allweddol canlynol i'w cwblhau – cysoni incwm, gweithrediad yn cael ei ddal yn ôl tan bod y gwaith brys o symud serfwyr a diweddaru'r meddalwedd rheoli incwm yn cael ei gwblhau;<br>- E-ddychweliadau, gall hyn ond gael ei ddatblygu pan fydd y newidiadau i'r côd lejer wedi eu gwneud mewn perthynas â rheoli incwm, manyleb derfynol wedi ei hanfon i'r cwmni meddalwedd<br>– trefn mewnforio DWP, meddalwedd i'w gosod<br>– amgryptio dyfeisiau<br>– trefn mewnforio Hamdden XN;<br>- trefn mewnforio Porth Talu, wedi'i profi ar gyfer gwastraff, a bellach yn cael ei lansio gyda taliadau amrywiol yn y Safonau Masnach. Dal dim cynnydd ar ddefnyddio ApMôn i wneud taliadau OND cytunwyd y byddai'r gwaith o ail-frandio gwefan meddalwedd taliadau incwm bellach yn mynd yn fyw 6-12-19<br>– trefn mewnforio Cyfathrebiadau Ysgol, dibynnol ar weithredu newidiadau i godau lejer a chostau cysylltiedig ag integreiddio rheoli meddalwedd incwm. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymer-adwywyd<br>£ | Swm a Glustnodwyd (cyfanswm – nid Bl 1 yn unig)<br>£ | Cyfanswm Gwariant hyd at 31 Mawrth 2019<br>£ | Balans ar 1 Ebrill 2019<br>£ | Dyraniad ar gyfer 2019/20<br>£ | Y Gwariant hyd yma 2019/20<br>£ | Cyllideb Weddilliol 2019/20<br>£ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 55 | | | | | | | | | | Ar ôl i gostau rheoli prosiect gael eu cynnwys, rhagwelir y bydd £7k ar ôl i gyllido costau annisgwyl ac integreiddo cyfathrebiadau ysgol. Dylid nodi na fydd y modiwl Galw Diogel (Call Secure) yn cael ei weithredu o dan y cais hwn ar hyn o bryd. Efallai y bydd yn rhaid i'r opsiwn yma neu'r dewis amgen gael ei ail ymweld ag ef os yw'r Awdurdod yn gwneud penderfyniad corfforaethol i gofnodi galwadau ffôn yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â PCIDSS ar hyn o bryd o ran cymryd taliadau â cherdyn pan fydd y cwsmer yn bresennol a phan nad ydynt. Ni all y gost o gyflwyno'r Modiwl Waled Capita bellach fynd yn ei flaen. |
| Dysgu Gydol Oes | Modern-eiddio prosesau busnes a pherfformiad | Gweithredu'r modiwlau hynny o system Rheoli Gwybodaeth ONE nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd | 67,000 | 67,000 | 75,526 | 3,000 | 3,000 | 1,921 | 1,079 | Mae'r prosiect wedi cael ei gwblhau, gyda'r rhandal olaf i gael ei dalu yn 2019/20. Cafodd y gorwariant o £11.5k ei gyllido o gyllideb Buddsoddi i Arbed yr Oriel. |
| Dysgu Gydol Oes | Moderneiddio Busnes | Gwefan i'r Oriel | 20,000 | 20,000 | 0 | 8,474 | 8,474 | 0 | 8,474 | Mae'r prosiect wedi'i ohirio hyd nes y bydd systemau eraill y mae mwy o frys amdanynt yn y prosiectau buddsoddi i arbed wedi cael eu gweithredu. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymer-adwywyd £ | Swm a Glustnodwyd (cyfanswm – nid Bl 1 yn unig) £ | Cyfanswm Gwariant hyd at 31 Mawrth 2019 £ | Balans ar 1 Ebrill 2019 £ | Dyraniad ar gyfer 2019/20 £ | Y Gwariant hyd yma 2019/20 £ | Cyllideb Weddilliol 2019/20 £ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trawsnewid TG | Digidol yn Gyntaf / Digidol yn Awtomatig | Cyflogi Swyddog Digidol Arweiniol a Dadansoddwr Gwasanaethau Digidol | £70,000 yn y flwyddyn gyntaf a £50,000 yn yr ail flwyddyn | 120,000 | 0 | 120,000 | 70,000 | 0 | 70,000 | Mae wedi profi'n anodd recriwtio i'r Swydd Dadansoddydd Gwasanaethau Digidol dros dro a'r Arweinydd Digidol yn Gyntaf dros dro ac mae'r ddwy swydd wedi cael eu hail-ysgrifennu er mwyn ceisio recriwtio pobl leol na fyddai efallai'n ymgeisio am y swydd fel arall. Mae dwy swydd Graddfa 5 – Technegydd Digidol dros dro wedi eu hysbysebu a'r dyddiad cau yw 25/10/19. |
| Gwarchod y Cyhoedd | Gwell Cysylltedd Digidol yn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | Gweithredu system yn seiliedig ar y cwmwl i gofnodi ymweliadau archwilio. Mae'r feddalwedd yn ddatrysiad Cymru gyfan sydd wedi cael ei chaffael drwy gytundeb fframwaith a gefnogir gan 19 o'r 22 gyngor yng Nghymru | £10,000 y flwyddyn am 4.5 mlynedd | 45,000 | 0 | 45,000 | 10,000 | 0 | 10,000 | Cydweithio parhaus â'r Tîm CRM Corfforaethol. Adnabod ffrydiau gwaith Gwerth /Cyfaint uchel er mwyn galluogi 'newid sianel' a gwella gallu perfformiad a phrofiad y cwsmer. Cyflymder y gwaith yn cael ei bennu gan y Bwrdd Trawsnewid sy'n cymeradwyo ac yn blaenoriaethu ffrydiau gwaith ar gyfer eu sgopio a'u gweithredu. Unwaith y bydd y prosiect hwn wedi'i gwblhau, y flaenoriaeth a'r nod yw profi'r farchnad gyda manyleb defnyddiwr wedi'i hadolygu a system feddalwedd sy'n integreiddio ac yn cyd-fynd â'r system CRM. Mae ffrydiau gwaith penodol yn mynd yn fyw ym mis Tachwedd a disgwylir y gyfran nesaf ym mis Ionawr. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymer-adwywyd £ | Swm a Glustnodwyd (cyfanswm – nid Bl 1 yn unig) £ | Cyfanswm Gwariant hyd at 31 Mawrth 2019 £ | Balans ar 1 Ebrill 2019 £ | Dyraniad ar gyfer 2019/20 £ | Y Gwariant hyd yma 2019/20 £ | Cyllideb Weddilliol 2019/20 £ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | Ni fydd unrhyw brofion marchnad ar gyfer system newydd yn dechrau tan y bydd yr holl waith CRM wedi'i gwblhau, felly, gwneir cais i gario £45k drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. |
| **Cyfanswm** | | | | **982,800** | **546,889** | **458,986** | **373,986** | **100,367** | **273,619** | |

Tudalen 57

## ADOLYGIAD O ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2019/20

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Arbedion Cyllidebol 2019/20 £'000 | Gellir eu cyflawni yn 2019/20 £'000 | Posibilrwydd na ellir eu cyflawni yn 2019/20 £'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | 967 | 908 | 59 | Cynigiwyd £50k fel arbedion effeithlonrwydd drwy adolygu'r ddarpariaeth o wasanaethau integreiddio ar gyfer defnydd mwy effeithlon o adnoddau. Nid yw wedi'i adnabod hyd yma sut bydd yr arbediad yn cael ei gyflawni yn ystod, 2019/20, sy'n golygu ei bod yn bosibl y bydd y cynnig hwn yn tangyflawni. |
| | | | | Cafodd cais o £15k ei gyflwyno i leihau grantiau celfyddydau. Bydd yr arbediad hwn £9k yn fyr o gael ei gyflawni yn llawn yn 2019/20. Gellir cyflawni £5k pellach yn ystod 2020/21. Mae angen ymgynghoriad pellach ar y £4k diwethaf sydd i'w gyflawni. |
| | | | | Mae'r holl gynigion arbedion eraill sy'n dod i £1,082k un ai eisoes wedi eu sicrhau yn llawn neu maent ar y trywydd cywir i gael eu cyflawni'n llawn yn ystod 2019/20. |
| Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd | 171 | 171 | 0 | Mae'r holl gynigion arbedion sy'n dod i £171k un ai eisoes wedi eu sicrhau yn llawn neu rhagwelir eu bod ar y trywydd cywir i gael eu cyflawni'n llawn yn ystod 2019/20. |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 600 | 545 | 55 | Gwnaed cynnig arbedion o £10k ar gyfer trosglwyddo'r cyfrifoldeb am gyfleusterau cyhoeddus i gymunedau. Mae perchnogaeth 2 Gyfleuster Cyhoeddus ym Menllech wedi eu trosglwyddo i'r cyngor tref o Ebrill 2019 ymlaen, fodd bynnag, cafwyd costau untro fel rhan o'r trosglwyddiad gyda hynny'n golygu nad oedd modd cyflawni'r targed yn ystod y flwyddyn ariannol hon. |
| | | | | Cynigiwyd arbediad o £20k drwy leihau costau adeiladau a chostau cynnal a chadw yn dilyn cael gwared ar adeilad Neuadd y Sir. Mae'r tîm RBDM wedi symud i'r Ganolfan Fusnes yn ddiweddar, fodd bynnag, ni fydd yr arbedion yn cael eu cyflawni yn 2019/20 o ganlyniad i filiau gwasanaeth nad oedd modd eu rhagweld. |
| | | | | Mae'r gallu i gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd o £25k sy'n gysylltiedig â rhoi'r gorau i ddefnyddio Safecote yn anhysbys ar hyn o bryd a bydd yn parhau i fod yn anhysbys hyd nes y gwelir beth fydd y tywydd yn ystod misoedd y gaeaf. |
| | | | | Mae'r holl gynigion arbedion eraill sy'n dod i £545k un ai eisoes wedi eu sicrhau yn llawn neu maent ar y trywydd cywir i gael eu cwblhau yn llawn yn ystod 2019/20. |

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Arbedion Cyllidebol 2019/20<br><br>£'000 | Gellir eu cyflawni yn 2019/20<br><br>£'000 | Posibilrwydd na ellir eu cyflawni yn 2019/20<br><br>£'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Oedolion | 586 | 310 | 276 | Cynigiwyd Arbedion Effeithlonrwydd gwerth £195k drwy leihau’r galw am leoliadau preswyl a nyrsio, drwy’r defnydd o Hafan Cefni, lleihau’r galw am wasanaethau gofal cartref a thrwy reoli’r galw am fyw â chymorth. Fodd bynnag, mae arwyddion cynnar yn dangos fod y galw yn parhau i gynyddu. Canlyniad hyn yw bod potensial na fydd modd cyflawni’r targed hwn. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar yr holl feysydd penodol yr effeithir arnynt er mwyn ymchwilio i’r rhesymau am y cynnydd presennol mewn galw. |
| | | | | Yn dilyn cau Plas Penlan, cynigwyd £70k fel arbedion blwyddyn lawn. Mae hyn yn annhebygol o gael ei gyflawni gan fod y galw yn parhau i gynyddu ar gyfer darpariaeth amgen e.e. Gofal Cartref. |
| | | | | Cynigiwyd £11k o arbedion effeithlonrwydd drwy allanoli mwy o becynnau gofal cartref i’r darparwyr preifat. Mae gwaith ar y gweill i ystyried y modd y gellir gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth heb leihau niferoedd staff. Ystyried a fedrir sicrhau arbedion yn rhywle arall ai peidio. |
| | | | | Mae’r holl arbedion eraill sy’n dod i £310k un ai eisoes wedi eu sicrhau yn llawn neu mee ant ar hagwelir eu bod ar y llwybr cywir i gael eu cyflawni’n llawn yn ystod 2019/20. |
| Tai | 54 | 54 | 0 | Arbediad effeithlonrwydd wedi ei gyflawni’n llawn. |
| Trawsnewid | 43 | 37.8 | 5.2 | Gwnaed cynnig am arbediad o £20k drwy leihau’r gyllideb ‘Denu Talent’. Bu gorwariant ar y gyllideb ‘Denu Talent’ yn ystod y flwyddyn ariannol hon gan i’r cynllun barhau i redeg yr haf hwn, fodd bynnag, mae arbedion wedi eu gwneud yn rhywle arall o fewn y gyllideb AD er mwyn sicrhau y bydd y targed arbedion yn parhau i gael ei gyflawni. |
| | | | | O’r £19.5k o arbedion effeithlonrwydd arfaethedig drwy ddiddymu llinellau ffôn nad ydynt yn cael eu defnyddio, mae gwerth £14.3k wedi eu hadnabod. Gobeithir y bydd y £5.2k sy’n weddill yn bosibl drwy ddatgysylltiadau mwy diweddar ond bydd angen gwneud gwaith pellach i gadarnhau hyn. Bydd y gwasanaeth yn parhau i chwilio am arbedion ychwanegol a/neu gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth mewn mannau eraill. |
| | | | | Mae arbedion eraill o £3.5k ar y trywydd cywir i gael eu cyflawni’n llawn 2019/20. |
| Corfforaethol | 110 | 110 | 0 | Holl arbedion effeithlonrwydd ar y trywydd cywir i gael eu cyflawni’n llawn 2019/20. |
| Adnoddau | 30 | 30 | 0 | Holl arbedion effeithlonrwydd ar y trywydd cywir i gael eu cyflawni’n llawn 2019/20. |
| **Cyfanswm** | **2,561** | **2,166** | **395** | |

## COSTAU ASIANTAETH EBRILL I 30 MEDI 2019

| Gwasanaeth | Swm £ | Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio heb ei defnyddio / Grant / Cyfraniadau Allanol) | Parhaol / Dros Dro | Rheswm dros y Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|
| Economaidd ac Adfywio | 6,479 | Craidd | Dros dro | Cyflawni gofynion arolygiadau hylendid bwyd |
| | **6,479** | | | |
| Ysgolion | 2,338 | Craidd | Dros dro | Athrawon Llanw |
| | **2,338** | | | |
| Gwastraff | 542 | Cyllideb Graidd Benodol | Dros dro | Staff tymor byr – ddim ar gael drwy'r Matrics AD |
| | 36,051 | Cyllideb Graidd Benodol | Dros dro | Angen tasgau ychwanegol yn y tymor byr. Staff ddim ar gael drwy'r Matrics AD |
| | 43,919 | Cyllideb Graidd Benodol/Grant/Cyfraniad Allanol | Dros dro | Angen tasgau ychwanegol yn y tymor byr. Staff ddim ar gael drwy'r Matrics AD |
| | 23,456 | Cyllideb Graidd Benodol/Grant/Cyfraniad Allanol | Dros dro | Angen tasgau ychwanegol yn y tymor byr. Staff ddim ar gael drwy'r Matrics AD |
| | **103,968** | | | |
| Gwasanaethau Plant | 68,401 | Cyllideb Graidd/Cronfeydd Wrth Gefn Staff Asiantaeth | Dros dro | Llenwi swyddi gwag |
| | 67,284 | Cyllideb Graidd/Cronfeydd Wrth Gefn Staff Asiantaeth | Dros dro | Llenwi swyddi gwag |
| | 921 | Cyllideb Graidd/Cronfeydd Wrth Gefn Staff Asiantaeth | Dros dro | Llenwi swyddi gwag |
| | **136,606** | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 10,409 | Cyllideb Graidd | Dros dro | Llenwi swydd wag |
| | 58,456 | Cyllideb Graidd | Dros dro | Prosiect DOLS |

| Gwasanaeth | Swm £ | Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio heb ei defnyddio / Grant / Cyfraniadau Allanol) | Parhaol / Dros Dro | Rheswm dros y Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|
| | 13,640 | Cyllideb Graidd | Dros dro | Llenwi swydd wag |
| | **82,505** | | | |
| Trawsnewid | 3,459 | Cyllideb Staffio heb ei defnyddio | Dros dro | Llenwi swydd wag – wedi penodi iddi erbyn hyn. |
| | **3,459** | | | |
| **Cyfanswm** | **335,355** | | | |

**ATODIAD E**

## CRYNODEB O WARIANT AR YMGYNGHORWYR HYD AT 30 MEDI 2019

| Crynodeb o'r Gwariant ar Ymgynghorwyr Ch1-2 yn ôl Gwasanaeth/Swyddogaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | **Ch1**<br>**£** | **Ch2**<br>**£** | **Cyfanswm BHY**<br>**£** |
| Addysg Ganolog | 8,950 | 31,375 | **40,325** |
| Diwylliant | 690 | 0 | **690** |
| Economaidd ac Adfywio | 58,760 | 67,764 | **126,523** |
| Eiddo | 0 | 0 | **0** |
| Priffyrdd | 423 | 18,054 | **18,477** |
| Ysgolion | 0 | 2,836 | **2,836** |
| Gwastraff | 54,582 | 53,516 | **108,098** |
| Tai | 0 | 0 | **0** |
| Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 8,500 | 13,877 | **22,377** |
| Corfforaethol a Democrataidd | 3,275 | 0 | **3,275** |
| Gwasanaethau Oedolion | 850 | 1,600 | **2,450** |
| Gwasanaethau Plant | 0 | 6,984 | **6,984** |
| Trawsnewid | 2,452 | 3,824 | **6,276** |
| Busnes y Cyngor | 3,996 | 27,619 | **31,614** |
| Adnoddau | 16,424 | 6,300 | **22,724** |
| | | | |
| **Cyfanswm** | **158,901** | **233,749** | **392,650** |
| Cyllidwyd gan: | | | |
| Cyllideb Graidd | 55,252 | 104,235 | **159,487** |
| Grant | 7,523 | 11,150 | **18,672** |
| Cyfraniad Allanol | 45,790 | 59,819 | **105,608** |
| Arian wrth Gefn | 50,337 | 58,546 | **108,882** |
| **Cyfanswm** | **158,901** | **233,749** | **392,650** |

## CRYNODEB O GOSTAU YMGYNGHORWYR CHWARTER 2 2019/20

| | Swm £ | Categori – Rheswm dros benodi | | | Ffynhonnell Gyllido | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer | Maint y Gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Untro | | |
| **Cyf Ch1 Ebrill – Mehefin** | **158,901** | | | | | |
| Addysg Ganolog | 5,379 | | | ✓ | Craidd | Adolygiad Strategol a Gwerthusiad Opsiynau 2019 |
| | 3,858 | | | ✓ | Craidd | Drafftio Contract Gofal Plant |
| | 1,225 | ✓ | | | Craidd | 3.5 diwrnod o waith o fewn y gwasanaeth ieuenctid |
| | 11,025 | ✓ | | ✓ | Craidd | Cymorth adrannol proffesiynol |
| | 350 | | | ✓ | Craidd | Mater Addysg OHO Ynys Môn |
| | 3,865 | | | ✓ | Wrth Gefn | Tir ger Ynys Lawd - trafod yr hawliadau adfeiliaid a chytuno ar setliad |
| | 546 | | | ✓ | Craidd | Cefnogaeth a chyngor ar y prosesau sydd ynghlwm â'r hawliad SAR |
| | 326 | | | ✓ | Craidd | Costau proffesiynol mewn cysylltiad â'r gwaith a gafodd ei ymgymryd ag ef – Perthnasau Gweithwyr |
| | 4,801 | | | ✓ | Craidd | 15 Diwrnod o Ymchwilio – Cyf Achos 064A-19 |
| **Cyfanswm Addysg Ganolog** | **31,375** | | | | | |
| Economaidd a Rheoleiddio | 1,073 | ✓ | | | Cyllid Allanol (PPA) | Cyngor mewn perthynas â Phrosiect Pŵer Niwclear Horizon, Wylfa Newydd |
| | 37,551 | | | ✓ | Cyllid Allanol (NDA) | Partneriaeth Gogledd Ynys Môn |

| | Swm £ | Categori – Rheswm dros benodi | | | Ffynhonnell Gyllido | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer | Maint y Gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Untro | | |
| | 8,441 | | | ✓ | Cyllid Allanol (PPA) | *London Plan Expert Engagement* a'r Prosiect Safleoeddd Bach |
| | 3,698 | | | ✓ | Cyllid Allanol (NDA) | Arolygon Ystlumod Mai 2019 |
| | 5,295 | | | ✓ | Craidd | Rheolaeth Prosiect TGCh |
| | 425 | | | ✓ | Craidd | Uwchraddiad gwiriad iechyd |
| | 182 | | | ✓ | Craidd | Costau Rheoli Prosiect TGCh Rheoli Adeiladu 28/3/19 – 18/4/19 |
| | 540 | | | ✓ | Craidd | Gwasanaethau Gwirio Strwythurol |
| | 50 | | | ✓ | Craidd | Gwasanaethau Proffesiynol, 19 Tan Capel |
| | 30 | ✓ | | | Craidd | Gwasanaethau Gwirio adroddiadau credyd |
| | 10,479 | | | ✓ | Wrth Gefn | Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf 3 Blynedd ac Asesiad ADMau |
| **Cyfanswm Economaidd a Rheoleiddio** | **67,764** | | | | | |
| Priffyrdd | 160 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Hysbysiadau Cosb Benodol a gyflwynwyd |
| | 2,080 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Adolygiad gwasanaeth busnes CPE |
| | 3,943 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Ymgymryd ag arolwg SCRIM 2019/20 |
| | 648 | | | ✓ | Grant | Ymweliad Safle - Mill Lane Biwmares |
| | 3,595 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Arolwg Traffig – Benllech, Ynys Môn |
| | 200 | | | ✓ | Grant | Delio â thrwydded er mwyn galluogi i arolygon mewnwthiol gael eu cynnal – arwyddo a dychwelyd trwyddedau |
| | 7,428 | | | ✓ | Grant | Gwasanaethau Proffesiynol YGC - sylwadau cynllunio LLFA Sir Fôn / Dyletswyddau CM SAB |

| | Swm £ | Categori – Rheswm dros benodi | | | Ffynhonnell Gyllido | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer | Maint y Gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Untro | | |
| **Cyfanswm Priffyrdd** | **18,054** | | | | | |
| Ysgolion | 2,836 | | | ✓ | Craidd | 7 Diwrnod Ymchwilio – Milltiroedd/Treuliau – Ffi Weinyddol |
| **Cyfanswm Ysgolion** | **2,836** | | | | | |
| Gwastraff | 2,000 | ✓ | | Gwaith Penodol | Arian wrth gefn wedi'i glustnodi | Cyngor cyfreithiol mewn perthynas â streic gweithwyr Biffa |
| | 39,301 | ✓ | | Gwaith Penodol | Arian wrth gefn wedi'i glustnodi | Darpariaeth Cymorth Technegol Allanol mewn cysylltiad â Chaffael contract newydd |
| | 195 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Duos Offtake |
| | 1,793 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Cymorth technegol, Monitro Nwy Safle Tirlenwi ar sail Chwarterol |
| | 183 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Asesiad Risg Tân |
| | 4,388 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Gwaith Adfer Sêl Tirlenwi |
| | 5,056 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyfraniad Allanol | Monitro ac asesu risg erosol Bio galwedigaethol Penhesgyn |
| | 600 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyfraniad Allanol | Gwaith ymgynghorol - PAS 100 wedi'i wneud ym Mhenhesgyn |
| **Cyfanswm Gwastraff** | **53,516** | | | | | |
| CRT | 13,877 | | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | Symud Serfwr 2008 i 2016 – Gwasanaethau Technegol |
| **Cyfanswm CRT** | **13,877** | | | | | |

| | | Categori – Rheswm dros benodi | | | Ffynhonnell Gyllido | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Swm £ | Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer | Maint y Gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Untro | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,600 | | | Untro | Cyllideb Graidd | Archwiliad o ffeiliau achos mewn paratoad ar gyfer archwiliad CIW |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **1,600** | | | | | |
| Gwasanaethau Plant | 3,120 | | | Untro | Cyllideb Graidd | Asesiad Ffurflen F |
| | 3,864 | | | Untro | Cyllideb Graidd | Asesiad Ffurflen F |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Plant** | **6,984** | | | | | |
| Trawsnewid | 950 | | | ✓ | Cyllideb Graidd Benodol | Archwiliadau Latchways |
| | 2,874 | ✓ | | | Grant | Asesydd – Gweithwyr Cymdeithasol dan Hyfforddiant |
| **Cyfanswm Trawsnewid** | **3,824** | | | | | |
| Busnes y Cyngor | 27,619 | | | ✓ | Cyllideb staffio heb ei defnyddio | Gweithiwr ar gyfer absenoldeb staff dros dro |
| **Cyfanswm Busnes y Cyngor** | **27,619** | | | | | |
| Adnoddau | 3,400 | | | ✓ | Cyfraniad Allanol | Anfoneb Terfynol Gwaith Ymgynghori Model FM – AALl Cymru |
| | 2,900 | | | ✓ | Arian wrth gefn buddsoddi i arbed | Rheoli Prosiect TGCh |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **6,300** | | | | | |

| | Swm £ | Categori – Rheswm dros benodi | | | Ffynhonnell Gyllido | Disgrifiad o’r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer | Maint y Gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Untro | | |
| **Cyfanswm Ch2 – Gorff i Medi** | **233,749** | | | | | |
| **Cyfanswm Cronnus – Ebrill - Medi** | **392,650** | | | | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **25 TACHWEDD 2019** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB - AIL CHWARTER 2019/20 – CYFALAF** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES (EST 2601)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **GARETH ROBERTS**<br>**01248 752675**<br>**GarethRoberts@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau**

- Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2019/20 yn Chwarter 2;
- Cymeradwyo dyrannu £75,000 ychwanegol tuag at gynllun Cyfalaf Neuadd y Farchnad, yn unol â pharagraff 3.1.1 o'r adroddiad hwn;
- Cymeradwyo £90,000 o Fenthyca Digefnogaeth i uwchraddio offer Ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur, yn unol â pharagraff 3.3 o'r adroddiad hwn;
- Cymeradwyo £20,000 o gyllid cyfatebol ychwanegol ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth, yn unol â pharagraff 3.1.2 o'r adroddiad hwn; a
- Cymeradwyo £8,000 o gyllideb cyfatebol ychwanegol ar gyfer cynllun Cae 3G yng Nghanolfan Hamdden David Hughes, yn unol â pharagraff 3.3.2 o'r adroddiad hwn.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb Gyfalaf ar gyfer ail chwarter y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro cyllidebau yn swyddogaeth a neilltuwyd i'r Pwyllgor Gwaith

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol.

| | DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)**(mandadol) | Mae'r UDA wedi ystyried yr adroddiad ac mae'r pwyntiau a godwyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad terfynol. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – adroddiad gan y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r UDA ac ystyriwyd sylwadau'r Swyddog Monitro gan yr UDA. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A - Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 2 2019/20
Atodiad B - Crynodeb o'r Gwariant ar Brosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Gyfalaf 2019/20, fel yr argymhellwyd hi gan y Cyngor llawn ar 27 Chwefror 2019;
- Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2019/20, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 27 Chwefror 2019;
- Adroddiad Alldro Cyfalaf 2018/19, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 17 Mehefin 2019; a
- Monitro Cyllideb Gyfalaf 2019/20, Chwarter 1, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 16 Medi 2019.

**ATODIAD A**

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Hwn yw’r adroddiad ar fonitro’r gyllideb gyfalaf ar gyfer ail chwarter y flwyddyn ariannol, ac mae'n caniatáu i'r Aelodau nodi’r cynnydd o ran gwariant cyfalaf a derbyniadau cyfalaf yn erbyn y gyllideb gyfalaf.

**1.2** Ym mis Chwefror 2019, cymeradwyodd y Cyngor raglen gyfalaf ar gyfer gwasanaethau heblaw tai o £17.282m ar gyfer 2019/20 a rhaglen gyfalaf o £13.110m ar gyfer y CRT. Yn ogystal, ym mis Mehefin 2019, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith lithriad o £3.065m, i'w ddwyn ymlaen o 2018/19. Ers y broses o osod y gyllideb, ychwanegwyd cynlluniau eraill i'r rhaglen, y mwyafrif ohonynt wedi'u cyllido gan grant ac sy'n dod i gyfanswm o £6.570m. Daw hyn â chyfanswm y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2019/20 i £40.027m.

## 2. CYNNYDD O RAN GWARIANT YN 2019/20

**2.1** Isod mae tabl cryno o'r gwariant cyfalaf hyd at 30 Medi 2019, y gyllideb wedi'i phroffilio hyd at 30 Medi 2019 a'r dull cyllido arfaethedig ar gyfer y rhaglen gyfalaf am 2019/20.

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyllideb a Broffiliwyd £'000 | Gwariant Gwirioneddol £'000 | Gwariant wedi ei Ymrwymo £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | % y Gyllideb a Broffiliwyd sydd wedi ei gwario | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol Tai | 2,116 | 389 | 317 | 0 | 317 | 81 | 15 |
| CRT Tai | 14,117 | 7,059 | 4,960 | 307 | 5,267 | 75 | 37 |
| Dysgu Gydol Oes | 8,101 | 1,522 | 1,521 | 63 | 1,584 | 104 | 20 |
| Economaidd ac Adfywio | 5,237 | 164 | 116 | 58 | 173 | 106 | 3 |
| Priffyrdd | 7,183 | 1,869 | 2,662 | 19 | 2,682 | 143 | 37 |
| Rheoli Gwastraff | 180 | - | - | - | - | - | - |
| Eiddo | 847 | 100 | 105 | 2 | 106 | 106 | 13 |
| Trawsnewid | 629 | 161 | 190 | 44 | 234 | 145 | 37 |
| Cynllunio | 700 | 325 | 395 | - | 395 | 122 | 56 |
| Gwasanaethau Oedolion | 917 | 262 | 268 | 9 | 277 | 106 | 30 |
| **Cyfanswm** | **40,027** | **11,850** | **10,533** | **503** | **11,035** | **93** | **28** |

| | |
|---|---|
| **Cyllidwyd gan:** | |
| Grant Cyfalaf | 22,685 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 774 |
| Bethyca gyda Chefnogaeth | 5,973 |
| Benthyca Di-gefnogaeth | 454 |
| Cyfraniad Refeniw | 9,952 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 186 |
| Benthyciad | 4 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **40,027** |

**2.2** Hyd at ddiwedd yr ail chwarter, ar gyfer y gronfa gyffredinol, mae gwariant gwirioneddol yn cyfateb i 120% o'r gyllideb a broffiliwyd ond dim ond 22% o'r gyllideb flynyddol sydd wedi'i gwario hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod nifer o'r cynlluniau cyfalaf yn gwario mwy tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae rhai cynlluniau cyfalaf wedi hen gychwyn, gyda’r rhan fwyaf o’r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer chwarter 2 wedi ei gwario, sef cynlluniau fel Buddsoddi i Arbed ar gerbydau, Grant Adnewyddu Priffyrdd, Grant Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd ac Isadeiledd Craidd TGCh. Nid yw rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn eto, ond mae’r cyllideb ar eu cyfer wedi eu proffilio i wario tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, megis gwariant ar Ddiogelwch Ysgolion, Mynediad i'r Anabl i Adeiladau Addysg, Cynllun Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth a phrynu Rhaw Llwytho newydd. Gellir gweld y cynlluniau hyn a'u proffiliau yn Atodiad B. Mae nifer o gynlluniau wedi'u cyllido trwy grantiau cyfalaf yn 2019/20 ac mae diweddariad ar y rhain yn rhan 3.1 o'r adroddiad hwn.

**2.3** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai wedi gwario 75% o'r gyllideb sydd wedi'i phroffilio, a 37% o'r gyllideb flynyddol. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y gyllideb gyfan wedi ei gwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yn ystod chwarteri 1 a 2, bu'r gwariant yn bennaf mewn perthynas â chontractau a gaffaelwyd yn ystod 2018/19 h.y. ymrwymiad a ddygwyd ymlaen. Rhagwelir y bydd contractau cynnal a chadw newydd a gynlluniwyd ac a gaffaelwyd yn ystod chwarteri 1 a 2, ynghyd â'r canlyniadau tendr a ddisgwylir yn ystod chwarter 3, yn ymrwymo'r gyllideb yn llawn ar gyfer 2019/20. Yn ystod y chwarter, prynodd y Cyngor nifer o'i hen dai Cyngor yn ôl ac mae ar darged i ymrwymo'n llawn y gyllideb sydd ar gael ar gyfer caffael eiddo a datblygu eiddo newydd.

## 3. CYLLIDO

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2019/20, ac mae'r mwyafrif ohonynt wedi cychwyn ac yn mynd rhagddynt. Rhoddir diweddariad byr ar y cynlluniau isod: -

- **Isadeiledd Strategol Llangefni** - Mae'r cynllun yn cynnwys adeiladu 5 (pump) uned ddiwydiannol newydd ar hen safle Hyfforddiant Môn ac estyniad i'r Ganolfan Fusnes i'w osod i'r sector preifat. Mae'r unedau diwydiannol newydd bellach wedi'u cwblhau, ac mae'r pump wedi'u gosod. Mae'r gwaith yn y Ganolfan Fusnes bellach wedi'i gwblhau. Bydd unrhyw gyllideb sy'n weddill yn cael ei gwario ar uwchraddio'r cladin a mân waith arall yn y ganolfan fusnes gyfredol.

- **Ysgolion yr 21ain Ganrif** - O'r Prosiectau Band A, mae ysgolion newydd yn Rhyd y Llan, Ysgol Cybi ac Ysgol Santes Dwynwen oll wedi'u cwblhau, ynghyd ag estyniad i Ysgol Parc y Bont a gwaith adnewyddu yn Ysgol Brynsiencyn. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun olaf ym Mand A, sy'n canolbwyntio ar y ddarpariaeth ysgol yn ardal Llangefni, wedi ei 'ohirio am y tro'.

- **Grant Cyfalaf Gofal Plant** - Sicrhawyd £2.718m o gyllid grant ar gyfer y cyfnod 2019 i 2021 i addasu nifer o ysgolion cynradd i alluogi'r Cyngor i ddarparu digon o leoedd gofal plant i ateb y galw yn sgil y cynnig i ddarparu gofal plant. Bydd cyfleusterau ychwanegol yn cael eu creu yn Ysgol Santes Dwynwen £0.400m, Ysgol Morswyn £0.413m, Ysgol Llandegfan £0.450m, Ysgol Pencarnisiog £0.340m, Ysgol Esceifiog £0.364m, Ysgol Henblas £0.370m, Ysgol y Tywyn £0.216m ac i gyflawni Cynllun Grantiau Bach a Rheoli Prosiect £0.165m. Mae gwaith eisoes wedi cychwyn ar Ysgol Morswyn ac Ysgol Pencarnisiog, a gwnaed y rhan fwyaf o'r gwaith dros wyliau'r haf. Y gyllideb ar gyfer 2019/20 yw £1.256m.

- **Neuadd y Farchnad** - Mae'r Llyfrgell bellach wedi agor ac yn weithredol ond mae'r contract ar gyfer dehongli'r dreftadaeth yn parhau. Mae'r Cyfrif Terfynol bellach wedi'i gytuno gyda'r contractwr ac yn ei sgil mae gofyn i'r Cyngor ddarparu cyllid ychwanegol o £0.075m, a fyddai'n cael ei gyllido o Dderbyniadau Cyfalaf. Byddai hyn yn dod â chyfanswm cyfraniad y Cyngor i'r cynllun i £0.275m allan o gyfanswm cost y cynllun o £4.353m.

- **Lliniaru Llifogydd ym Miwmares** - Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda ac ar hyn o bryd o fewn y cyllidebau diwygiedig newydd. Disgwylir iddo gael ei gwblhau ddiwedd Mawrth 2020.

- **Isadeiledd Strategol Caergybi** – Cynllun yw hwn i adeiladu 10 (deg) uned ddiwydiannol newydd ym Mhenrhos, Caergybi. Mae contractwr bellach wedi'i benodi ac mae gwaith wedi cychwyn, a disgwylir ei gwblhau yn ystod haf 2020.

Sicrhawyd Cyllid Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd ac ymrwymwyd i Gyd-Fenter gyda Llywodraeth Cymru, a fydd yn darparu'r cylllid cyfatebol ar gyfer y cynllun.

- **Porth Twristiaeth** - Mae'r Prosiect Porth Ymwelwyr i Ynys Gybi (Prosiect Cyrchfan Denu Twristiaid) yn becyn o brosiectau a gyllidir yn bennaf dros sawl blwyddyn gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae'r gwaith yng Ngham 1 ar gyfer gosod arwyddion yn y porthladd bellach wedi'i gwblhau. Mae'r fanyleb yn cael ei datblygu ar hyn o bryd ar gyfer dymchwel yr adeilad adfeiliedig yn y Porthladd, a disgwylir i'r gwaith yn Eglwys Sant Cybi ddechrau yn Chwarter 4. Mae'r Ganolfan Gwybodaeth Treftadaeth ac Adeilad y Warden bellach wedi derbyn caniatâd cynllunio.

- Mae cyllid wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y **Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRIP)**. Pwrpas y cyllid yw dod â 108 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd trwy bedwar cynllun, sef Cynllun Cymorth i Brynwyr Tro Cyntaf, Cynllun Cymorth i Landlordiaid Cartrefi Gwag, Cynllun Ymyrraeth Uniongyrchol ynghylch Cartrefi Gwag a Chynllun Bywyd Canol Tref. Cyflawnir y cynlluniau hyn gan Gyngor Sir Ynys Môn, fel yr awdurdod sy'n arwain a Chyngor Gwynedd fel ei bartner cyflawni ar y cyd. Bydd y cyfanswm cyllido yn £3.250m, gyda chyfran Ynys Môn yn £1.800m dros dair blynedd. Yn 2019/20, y gyllideb ar gyfer Ynys Môn yw £0.751m. Hyd ddiwedd chwarter 2, gwariwyd cyfanswm o £0.684m ar draws Ynys Môn a Gwynedd.

- **Maes Awyr Môn** - Sicrhawyd £0.360m o gyllid grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith cyfalaf i Faes Awyr Môn, sy'n cynnwys addasiadau i'r derfynfa bresennol. Hyd ddiwedd chwarter 2 mae £0.066m wedi'i wario ar waith adeiladu a rhaglennwyd y bydd y gwaith wedi ei gwblhau ym mis Hydref 2019.

**3.1.2** Mae yna gynlluniau sydd yn y Rhaglen Gyfalaf nad ydynt wedi cychwyn eto neu sy'n aros am gymeradwyaeth gan ddarparwyr cyllid. Rhoddir diweddariad byr ar y cynlluniau isod: -

- **Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth** - Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd yn Nant y Felin, Pentraeth yn ei rhaglen ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Oherwydd bod tendrau wedi'u derbyn a bod cwmni wedi ei ddewis erbyn hyn mae'r Awdurdod wedi gwneud cais am y cyllid. Yn anffodus mae swm y tendr ychydig yn fwy nag o'r blaen ac, yn hytrach na chyfrannu £30k o gyllid cyfatebol, bydd angen i'r Cyngor gyfrannu £50k. Caiff y swm ei gyllido o'r Derbyniadau Cyfalaf. Disgwylir i'r gwaith ddechrau ar y safle ar 18 Tachwedd ac mae disgwyl iddo fod wedi'i gwblhau cyn diwedd blwyddyn ariannol 2019/20.

- **Y Cynllun Hwyluso –** Sicrhawyd grant o £0.093m gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwneud addasiadau i gefnogi byw'n annibynnol. Disgwylir y bydd y grant hwn wedi ei ddefnyddio'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

- **Cyllid Cyfalaf ar gyfer Diogelwch Ffyrdd** - Bydd y cynllun hwn yn cynnwys gwaith cyfalaf ar y ffordd A4080 o Lanfair PG i Aberffraw. Bydd y gwaith yn cychwyn yn nes ymlaen yn y flwyddyn ariannol, gyda chyllideb y cynllun yn £0.231m.

- **Teithio Llesol** - Sicrhawyd grant o £0.158m gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mân welliannau i'r isadeiledd, gan gynnwys gosod arwyddion, llecynnau parcio beiciau, cael gwared ar rwystrau mynediad a lledu llwybrau. Pwrpas y grant yw cynyddu lefelau teithio llesol, gwella iechyd a lles, lleihau allyriadau carbon a gwella teithio llesol i fannau cyflogaeth, addysg a gwasanaethau allweddol, cyrchfannau a thrafnidiaeth gyhoeddus.

- **Partneriaeth Tirwedd Ynys Gybi** - Mae cais bellach wedi'i gymeradwyo gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, sy'n darparu cyllid grant o £1.146m. Disgwylir caniatâd i ddechrau'r prosiect yn ystod chwarter 3.

- **Trawsnewid Treflun Caergybi** - Disgwylir caniatâd i ddechrau'r prosiect yn chwarter 3.

- **Cynllun Grant Isadeiledd Mewn Ysgolion (Hwb)** - Neilltuwyd £1.303m i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod rhwydweithiau TGCh yr ysgolion yn ddigonol ar gyfer cefnogi dysgu digidol. Rhaid hawlio a gwario'r grant hwn erbyn diwedd mis Mawrth 2020 a bydd y gwaith yn dechrau yn ystod chwarter 3.

- **Grant Ysgogiad Economaidd** - Dyfarnwyd £0.491m o gyllid grant i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru i'w fuddsoddi mewn cynlluniau cyfalaf i yrru newidiadau pwysig mewn cymunedau, sy'n darparu buddion economaidd a chynlluniau sy'n cael effeithiau cadarnhaol ar fioamrywiaeth a'r amgylchedd. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn y broses o nodi cynlluniau addas y gellir eu cyflawni o fewn yr amserlen dynn a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn gofyn iddo gymeradwyo'r cynllun(iau) a gyflawnir gyda'r cyllid ychwanegol hwn.

## 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Y derbyniadau cyfalaf am y flwyddyn hyd yma a'r derbyniadau cyfalaf y cyllidebwyd amdanynt yw:-

| | Cyllideb 2019/20 £'000 | Derbyniwyd hyd at 30-Medi-2019 £'000 | Rhagwelwyd hyd at 31-Mar-20 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 0 | 0 | 0 |
| Cyffredinol | 699 | 247 | 699 |
| Diwydiannol | 0 | 100 | 100 |
| Ysgolion | 873 | 171 | 873 |
| **Cyfanswm** | **1,572** | **518** | **1,672** |

**3.2.2** Y Derbyniadau Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2020 yw £1.572m, a derbyniwyd £0.518m erbyn 30 Medi 2019 (33%), yn sgil gwerthu hen ysgol (£0.171m), plot mewn Parc Diwydiannol (£0.100m), a Neuadd y Sir yn Llangefni (£0.189m).

**3.2.3** Er bod y Derbyniadau Cyfalaf y cyllidebwyd amdanynt yn £1.572m, mae £2.758m o Dderbyniadau Cyfalaf ar gael i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf oherwydd bod £1.186m o Dderbyniadau Cyfalaf wedi eu dwyn ymlaen o 2018/19 yn y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf. Gellir defnyddio £1.885m ohono i gyllido'r rhaglen gyfalaf gyffredinol, gyda'r £0.873m sy'n weddill ar gael i gyllido'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif fel rhan o'r cyllid cyfatebol y bydd gofyn i Gyngor Sir Ynys Môn ei gyfrannu.

## 3.3 Cyllid Cyfalaf ychwanegol y bydd ei angen

**3.3.1** Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi llwyddo i sicrhau grant o £40,000 gan Leoedd ar gyfer Chwaraeon i'w wario tuag at uwchraddio'r offer ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur. Mae'r cynllun cyfan yn costio £130,000 felly mae angen i'r Cyngor gyllido'r £90,000 sy'n weddill a chynigir gwneud hynny trwy drefn Benthyca Digefnogaeth. Disgwylir y bydd y cynnydd mewn incwm dros y tair blynedd nesaf yn sgil yr uwchraddio hwn yn ddigon i ad-dalu'r benthyciad a'r llog.

**3.3.2** Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi llwyddo i sicrhau grant o £72,000 Cronfa Gydweithredol tuag at newid wyneb y cwrt tenis yng Nghanolfan Hamdden David Hughes i Gae 3G. Cyfanswm cost y cynllun yw £80,000, felly, bydd y Cyngor angen cyfrannu £8,000 o gyllid cyfatebol a fydd yn cael ei gyllido o Dderbyniadau Cyfalaf.

## 4. Y GWARIANT GWIRIONEDDOL A RAGWELIR YN 2019/20

**4.1** Gweler isod dabl yn dangos y Gwariant a ragwelir erbyn 31 Mawrth 2020 a’r cyllid diwygiedig:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Gwariant a Ragamcenir £'000 | Tan / Gor Wariant a Ragamcenir £'000 | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Tai Gyffredinol | 2,116 | 1,355 | - 760 | - 36 |
| CRT Tai | 14,117 | 14,307 | 190 | 1 |
| Dysgu Gydol Oes | 8,101 | 4,566 | - 3,535 | - 44 |
| Economaidd ac Adfywio | 5,237 | 1,190 | - 4,047 | - 77 |
| Priffyrdd | 7,183 | 6,645 | - 538 | - 7 |
| Rheoli Gwastraff | 180 | 180 | - | - |
| Eiddo | 847 | 847 | - | - |
| Trawsnewid | 629 | 629 | - | - |
| Cynllunio | 700 | 650 | - 50 | - 7 |
| Gwasanaethau Oedolion | 917 | 760 | - 157 | - 17 |
| **Cyfanswm** | **40,027** | **31,130** | **- 8,898** | **- 22** |
| **Cyllidwyd gan:** | **Cyllideb Flynyddol £'000** | **Cyllid a Ragamcenir £'000** | **Amrywiad** | **% Amrywiad** |
| Grant Cyfalaf | 22,685 | 14,380 | - 8,304 | - 37 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 774 | 1,612 | 839 | 108 |
| Benthyca gyda Chefnogaeth | 5,973 | 3,942 | - 2,031 | - 34 |
| Benthyca Di-gefnogaeth | 454 | 863 | 409 | 90 |
| Cyfraniad Refeniw | 9,952 | 10,142 | 190 | 2 |
| Cronfeydd wrth Gefn | 186 | 186 | - | - |
| Benthyciad | 4 | 4 | - | - |
| **Cyfanswm Cyllid** | **40,027** | **31,130** | **- 8,898** | **- 22** |

**4.2** Fel y gwelir yn nhabl 4.1 (uchod), y tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2019/20 yw £8.898m, a gallai’r cyllid hwn lithro i Raglen Gyfalaf 2020/21 o bosib. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2020/21, a bydd yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth gynhyrchu'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21. Y prif brosiectau y rhagwelir y byddant wedi tanwario yw Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, sydd wedi ei ‘ohirio am y tro’ ar hyn o bryd ac sy’n dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad pellach ar foderneiddio'r ddarpariaeth ysgolion yn ardal Llangefni. Fodd bynnag, os yw canlyniad yr ymgynghoriad a'r penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith o blaid parhau gyda’r ysgolion newydd yn ardal Llangefni, gallai hynny leihau'r tanwariant a ragwelir, ond mae hynny’n dibynnu ar ba bryd y bydd y gwaith yn cychwyn. Hefyd, rhagwelir tanwariant o £2.828m ar y cynllun Isadeiledd Strategol yng Nghaergybi ac ni fydd y Cynllun Amddiffyn Rhag Llifogydd yn Nhraeth Coch yn mynd yn ei flaen yn y flwyddyn ariannol hon, gan arwain at danwariant o £0.638m. Bydd y cynllun cyfalaf ar gyfer Grant Cyfleusterau i'r Anabl hefyd yn gweld tanwariant o £0.300m oherwydd ei fod yn wasanaeth sy'n cael ei arwain gan alw ac mae nifer yr ymholiadau wedi gostwng. Hefyd, efallai na fydd rhai o’r cleientiaid a gyfeirir yn gymwys i gael Grant Cyfleusterau i’r Anabl yn ôl y polisi. Ni fydd y £0.300m hwn yn cael ei drosglwyddo i 2020/21 fel llithriad, oherwydd bod cais Cyfalaf newydd yn cael ei gyflwyno am arian newydd a ddyfernir yn 2020/2021.

**4.3** Y Gofyniad Cyllid Cyfalaf y rhagwelir y bydd ei angen ar 31 Mawrth 2020 yw £140.2m, sef yr angen sylfaenol i'r Awdurdod ei gymryd ar fenthyg i allu cyllido ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd, mae'r benthyca allanol yn £127.6m, sy'n golygu, yn sylfaenol, bod angen i'r Awdurdod fenthyca £12.6m i gyllido’r Rhaglen Gyfalaf gyfredol. Os cymerir y benthyciad hwn yn allanol, bydd yr Awdurdod yn dal i fod o fewn ei derfynau benthyca awdurdodedig yn unol â’r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys am 2019/20 (Atodiad 11).

## 5. BLYNYDDOEDD Y DYFODOL

**5.1** ‘Roedd y Strategaeth Gyfalaf yn argymell cyfyngu cyllido’r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2019/20 i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a benthyca gyda chefnogaeth (fel y penderfynir gan Lywodraeth Cymru) ac amcangyfrif o werth unrhyw dderbyniadau cyfalaf a geir. Disgwylir y bydd Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21 yn dilyn yr un egwyddorion, gyda’r Grant Cyfalaf Cyffredinol a’r Benthyca gyda Chefnogaeth yn cael eu defnyddio i dalu am gerbydau newydd yn flynyddol, buddsoddi mewn TGCh, adnewyddu asedau cyfredol a dyraniad blynyddol i dalu am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, sy’n grantiau statudol. Bydd cyllid ar gael hefyd ar gyfer ailwynebu ffyrdd a phrosiectau cyfalaf sy'n denu grantiau allanol, a bydd y rhain yn cael eu gwerthuso fesul achos.

Ar ôl i'r prosiectau uchod gael eu cyllido, efallai y bydd rhywfaint o gyllid ar gael i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i brosiectau sy'n cyfrannu at amcanion y Cyngor fel y nodir nhw yng Nghynllun y Cyngor am y cyfnod 2017-2022 ac unrhyw gynlluniau a all gynhyrchu arbedion refeniw yn y dyfodol neu incwm ychwanegol.

Eleni, bu oedi cyn cael gwybod am y setliad gan Lywodraeth Cymru, a bydd y Rhaglen Gyfalaf ddrafft ar gyfer 2020/21 bellach yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor hwn ar 23 Rhagfyr 2019.

## 6. CASGLIAD

**6.1** Mae'r canlyniadau ar ddiwedd chwarter 2 a'r gwariant cysylltiedig a ragwelir yn dangos bod mwyafrif y prosiectau ar darged i'w cwblhau o fewn y gyllideb. Oherwydd bod Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi ei gohirio am y tro ac yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad pellach ar foderneiddio'r ddarpariaeth ysgol, mae perygl o danwariant sylweddol yn erbyn y prosiect hwn. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i sicrhau llawer o wahanol grantiau allanol ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar y rhan fwyaf o'r cynlluniau hyn. Mae'r Cyngor hefyd yn disgwyl derbyn £1.5m o Dderbyniadau Cyfalaf yn 2019/20 i gyfrannu tuag at gyllido’r Rhaglen Gyfalaf.

**ATODIAD B**

## Crynodeb o'r Gwariant ar y Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | % o'r Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant a Ragamcenir (£) | Tan / Gorwariant a Ragamcenir (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Dai Gyffredinol** | | | | | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 900,000 | 100,000 | 97,158 | 0 | 97,158 | -2,842 | 97 | 11 | 600,000 | -300,000 | -33 |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 779,000 | 75,000 | 64,702 | 0 | 64,702 | -10,298 | 86 | 8 | 300,000 | -479,000 | -61 |
| Cynllun Prynu Gorfodol | 22,740 | 22,740 | 41,448 | 67 | 41,515 | 18,775 | 183 | 183 | 41,448 | 18,708 | 82 |
| Grant Enable | 93,200 | 46,600 | 32,833 | 0 | 32,833 | -13,767 | 70 | 35 | 93,200 | 0 | 0 |
| Grant TRIP Prynwr tro cyntaf | 200,000 | 100,000 | 67,519 | 0 | 67,519 | -32,481 | 68 | 34 | 200,000 | 0 | 0 |
| Grant TRIP Cynllun Landlord | 90,000 | 45,000 | 13,000 | 0 | 13,000 | -32,000 | 29 | 14 | 90,000 | 0 | 0 |
| Tai fforddiadwy | 30,650 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30,650 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2,115,590** | **389,340** | **316,660** | **67** | **316,727** | **-72,613** | **81** | **15** | **1,355,298** | **-760,292** | **-36** |
| **CRT Tai** | | | | | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 400,000 | 200,000 | 19,060 | 31,670 | 50,730 | -149,270 | 25 | 13 | 400,000 | 0 | 0 |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 4,850,000 | 2,425,000 | 1,848,272 | 15,872 | 1,864,144 | -560,856 | 77 | 38 | 4,850,000 | 0 | 0 |
| Gwella Perfformiad Ynni | 400,000 | 200,000 | 6,784 | 675 | 7,459 | -192,541 | 4 | 2 | 400,000 | 0 | 0 |
| Gwaith Amgylcheddol | 450,000 | 225,000 | 83,087 | 6,843 | 89,930 | -135,070 | 40 | 20 | 450,000 | 0 | 0 |
| Prynu Eiddo Presennol a datblygu eiddo newydd | 6,371,000 | 3,185,500 | 2,024,098 | 73,687 | 2,097,785 | -1,087,715 | 66 | 33 | 6,512,540 | 141,540 | 2 |
| Ailfodelu Llawr Y Dref | 16,000 | 8,000 | 64,049 | 280 | 64,329 | 56,329 | 804 | 402 | 64,000 | 48,000 | 300 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 175,000 | 178,068 | 4,920 | 182,987 | 7,987 | 105 | 52 | 350,000 | 0 | 0 |
| Risg Tân | 200,000 | 100,000 | 0 | 31,900 | 31,900 | -68,100 | 32 | 16 | 200,000 | 0 | 0 |
| Tir Halogedig | 330,000 | 165,000 | 313,855 | 3,260 | 317,115 | 152,115 | 192 | 96 | 330,000 | 0 | 0 |
| SATC | 750,000 | 375,000 | 422,895 | 138,150 | 561,044 | 186,044 | 150 | 75 | 750,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **14,117,000** | **7,058,500** | **4,960,168** | **307,256** | **5,267,424** | **-1,791,076** | **75** | **37** | **14,306,540** | **189,540** | **1** |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | | |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol | 300,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 300,000 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Adeiliadau Addysg | 1,470,000 | 735,000 | 764,186 | 0 | 764,186 | 29,186 | 104 | 52 | 1,470,000 | 0 | 0 |
| Diogelwch Ysgolion | 200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 200,000 | 0 | 0 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Moderneiddio Band A | 4,360,500 | 151,500 | 201,253 | 39,969 | 241,223 | 89,723 | 630 | 418 | 825,422 | -3,535,078 | 85 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Moderneiddio Band B | 500,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 500,000 | 0 | 0 |
| Grant Cyfalaf Dechra'n Deg | 14,500 | 7,250 | 10,224 | 0 | 10,224 | 2,974 | 141 | 71 | 14,500 | 0 | 0 |
| Grant Unedau Ysgolion | 1,255,985 | 627,993 | 544,892 | 23,278 | 568,170 | -59,822 | 90 | 45 | 1,255,985 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **8,100,985** | **1,521,743** | **1,520,554** | **63,248** | **1,583,802** | **62,059** | **104** | **20** | **4,565,907** | **-3,535,078** | **-44** |
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | | | | | |
| Porth Twristiaeth | 1,280,000 | 60,000 | 36,839 | 31,031 | 67,870 | 7,870 | 113 | 5 | 317,914 | -962,086 | -75 |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 3,499,000 | 75,000 | 43,518 | 26,937 | 70,454 | -4,546 | 0 | 2 | 670,454 | -2,828,546 | -81 |
| Isadeiledd Strategol Llangefni | 306,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 50,000 | -256,000 | -84 |
| Buddsoddi i Arbed - System Gynllunio | 57,000 | 28,500 | 35,164 | 0 | 35,164 | 6,664 | 123 | 62 | 57,000 | 0 | 0 |
| Datblygu Economiadd - I Geisio Cyllid Cyfatebol | 95,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 95,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **5,237,000** | **163,500** | **115,521** | **57,968** | **173,488** | **9,988** | **106** | **3** | **1,190,368** | **-4,046,632** | **-77** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | % o'r Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant a Ragamcenir (£) | Tan / Gorwariant a Ragamcenir (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | | | | | |
| Uwchraddio Peiriannau Talu ac Arddangos Mewn Maesydd Parcio | 30,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30,000 | 0 | 0 |
| Cerbydau | 181,960 | 90,980 | 66,362 | 0 | 66,362 | -24,618 | 73 | 36 | 181,960 | 0 | 0 |
| Ailwynebu Priffyrdd | 1,359,000 | 679,500 | 672,287 | 0 | 672,287 | -7,213 | 99 | 49 | 1,359,000 | 0 | 0 |
| Grant Adnewyddu Priffyrdd | 602,180 | 550,000 | 549,101 | 0 | 549,101 | -899 | 100 | 91 | 602,180 | 0 | 0 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Miwmares (LlC) | 1,651,530 | 0 | 908,858 | 8,200 | 917,058 | 917,058 | 0 | 56 | 1,651,530 | 0 | 0 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth (LlC) | 200,000 | 10,000 | 8,381 | 0 | 8,381 | -1,619 | 84 | 4 | 300,000 | 100,000 | 50 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd yn Llansadwrn | 180,000 | 0 | 802 | 0 | 802 | 802 | 0 | 0 | 180,000 | 0 | 0 |
| Buddsoddi i Arbed - Cerbydau | 150,000 | 75,000 | 77,020 | 0 | 77,020 | 2,020 | 103 | 51 | 150,000 | 0 | 0 |
| Cyllid Cyfatebol ar gyfer Gwaith Draenio | 200,000 | 10,000 | 8,225 | 0 | 8,225 | -1,775 | 82 | 4 | 200,000 | 0 | 0 |
| Astudiaethau Draenio a Gwaith Dylunio | 166,000 | 20,000 | 9,896 | 11,000 | 20,896 | 896 | 104 | 13 | 166,000 | 0 | 0 |
| Amddiffyn rhag Llifogydd Traeth Coch | 638,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -638,000 | -100 |
| Lôn Gyswllt Llangefni | 97,000 | 10,000 | 8,683 | 0 | 8,683 | -1,317 | 87 | 9 | 97,000 | 0 | 0 |
| Teithio Llesol | 158,000 | 79,000 | 31,118 | 0 | 31,118 | -47,882 | 39 | 20 | 158,000 | 0 | 0 |
| A545 Biwmares | 68,800 | 34,400 | 24,757 | 0 | 24,757 | -9,643 | 72 | 36 | 68,800 | 0 | 0 |
| Cyfalaf Diogelu'r Ffyrdd | 231,000 | 200,000 | 190,010 | 0 | 190,010 | -9,990 | 95 | 82 | 231,000 | 0 | 0 |
| Parcio a theithio yng Ngaerwen | 600,000 | 30,000 | 27,953 | 0 | 27,953 | -2,047 | 93 | 5 | 600,000 | 0 | 0 |
| Maes Awyr Môn | 360,000 | 66,000 | 66,450 | 0 | 66,450 | 450 | 101 | 18 | 360,000 | 0 | 0 |
| Hyb Porth Caergybi | 306,000 | 10,000 | 8,980 | 0 | 8,980 | -1,020 | 90 | 3 | 306,000 | 0 | 0 |
| Salix Rhan 3 - Goleuadau Stryd | 4,000 | 4,000 | 3,564 | 0 | 3,564 | -436 | 89 | 89 | 4,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **7,183,470** | **1,868,880** | **2,662,447** | **19,200** | **2,681,647** | **812,767** | **143** | **37** | **6,645,470** | **-538,000** | **-7** |
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | | | | | |
| Prynu Rhaw Lwytho Newydd | 180,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 180,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **180,000** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **180,000** | **0** | **0** |
| **Eiddo** | | | | | | | | | | | |
| Adnewyddu Asedau Cyfredol | 572,540 | 50,000 | 59,574 | 1,715 | 61,289 | 11,289 | 123 | 11 | 572,540 | 0 | 0 |
| Eiddo - Buddsoddi i Arbed | 274,320 | 50,000 | 45,119 | 0 | 45,119 | -4,881 | 90 | 16 | 274,320 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **846,860** | **100,000** | **104,693** | **1,715** | **106,408** | **6,408** | **0** | **13** | **846,860** | **0** | **0** |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | | | |
| TGCh - Seilwaith Craidd | 171,000 | 85,500 | 127,883 | 31,984 | 159,867 | 74,367 | 187 | 93 | 171,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Adnewyddu Cyfrifiaduron | 121,000 | 60,500 | 46,800 | 12,215 | 59,015 | -1,485 | 98 | 49 | 121,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Mudo System Etifeddiaeth | 20,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 20,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Trwyddedu MS | 127,000 | 15,000 | 15,000 | 0 | 15,000 | 0 | 100 | 12 | 127,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Cysylltu Môn i drosglwyddo PSBA | 60,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 60,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Uwchraddio Ystafelloedd Gyfarfod | 25,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 25,000 | 0 | 0 |
| System CRM - Buddsoddi i Arbed | 105,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 105,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **629,000** | **161,000** | **189,683** | **44,199** | **233,882** | **72,882** | **0** | **37** | **629,000** | **0** | **0** |
| **Cynllunio** | | | | | | | | | | | |
| Prosiect Hyb Neuadd y Farchnad, Caergybi | 650,000 | 325,000 | 393,023 | 0 | 393,023 | 68,023 | 121 | 60 | 600,000 | -50,000 | -8 |
| Trawsnewid treflun Caergybi | 50,000 | 0 | 2,400 | 0 | 2,400 | 2,400 | 0 | 5 | 50,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **700,000** | **325,000** | **395,423** | **0** | **395,423** | **70,423** | **122** | **56** | **650,000** | **-50,000** | **-7** |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | | | | | |
| ICF | 773,770 | 250,000 | 267,590 | 0 | 267,590 | 17,590 | 107 | 35 | 616,666 | -157,104 | -20 |
| Hyb cymunedol Bryn Hwfa | 23,500 | 11,750 | 0 | 9,047 | 9,047 | -2,703 | 77 | 38 | 23,500 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Plas Crigyll | 85,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 85,000 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Plas Mona | 35,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 35,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **917,270** | **261,750** | **267,590** | **9,047** | **276,638** | **14,888** | **106** | **30** | **760,166** | **-157,104** | **-17** |
| **Cyfanswm** | **40,027,175** | **11,849,713** | **10,532,739** | **502,700** | **11,035,439** | **-814,274** | **93** | **28** | **31,129,609** | **-8,897,566** | **-22** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **25 TACHWEDD 2019** |
| **Pwnc:** | **MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI, CHWARTER 2 2019/20** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **STEPHEN MOORE**<br>01248 752634<br>StephenMoore@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a’r Rheswm/Rhesymau**

**1.** Gofynnir i’r Pwyllgor Gwaith nodi’r canlynol:-

**(i)** Y sefyllfa a nodir o ran perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 2 2019/20.

**(ii)** Yr alldro rhagdybiedig ar gyfer 2019/20.

**2. Cefndir**

**(i)** Ym mis Mawrth 2019, cytunodd y Cyngor ar gyllideb refeniw ar gyfer 2019/20 oedd yn dangos gwarged cynlluniedig o £7.8m.

**(ii)** Mae’r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2019/20 yn £14.0m, yn cynnwys lwfans ar gyfer gwariant nad oedd wedi ei gwblhau o gyllideb gyfalaf 2018/19.

**(iii)** Rhoes y cyfuniad o’r gyllideb refeniw a’r gyllideb gyfalaf wedi’i haddasu, ddiffyg cyllidebol o £2.0m a fyddai’n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT.

**(iv)** Mae’r CRT wedi’i ‘glustnodi’ ar gyfer dibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo ei gronfeydd wrth gefn i’r Gronfa Gyffredinol ac ni fedrir ychwaith ddefnyddio arian o’r Gronfa Gyffredinol i gyllido’r CRT.

**3.** Mae’r adroddiad hwn yn nodi perfformiad y CRT am y cyfnod 1 Ebrill 2019 hyd at 30 Medi 2019.

**4. Trosolwg**

**(i)** Mae’r sefyllfa ariannol refeniw ar gyfer Ch2 yn dangos gorwariant o £71k. Mae’r rhagolygon o ran incwm yn parhau i fod £75k yn well na’r gyllideb wreiddiol, a rhagwelir yn awr y bydd £75k yn well na’r gyllideb wreiddiol, fel yr eglurir isod. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad A.

**(ii)** Mae’r gwariant Cyfalaf £1,791k yn is na’r gyllideb a broffiliwyd. Mae’r gwariant a ragwelir £190k yn uwch na’r gyllideb, fel yr eglurir isod. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad B.

**(iii)** Mae’r diffyg a ragwelir (yn cyfuno refeniw a chyfalaf) £40k yn uwch na’r gyllideb (o gymharu â £67k yn adroddiad Ch1), yn bennaf oherwydd gwariant cyfalaf uwch na’r gyllideb.

5. **Incwm**

**(i)** Ar ddiwedd y chwarter cyntaf, roedd yr incwm a dderbyniwyd £27k yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd, fel y nodir isod.

**(ii)** Roedd incwm o renti tenantiaid £33k yn is na'r gyllideb. Roedd y gwaith o gomisiynu eiddo newydd ac eiddo a brynwyd yn arafach nag a ragwelwyd, ond rhagwelir y bydd modd cyflawni'r gyllideb o hyd.

**(iii)** Mae Taliadau Gwasanaeth, sy'n seiliedig ar y costau gwirioneddol a gafwyd, bellach £40k yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 2. Mae'r duedd a nodwyd yn adroddiad Ch1 yn parhau, ac mae'r alldro rhagdybiedig o £75k yn uwch na'r gyllideb yn parhau.

**(iv)** Roedd incwm arall £19k yn uwch na'r gyllideb (a hynny yn bennaf oherwydd bod incwm o'r cynllun Tariff 'Feed In' a gynhyrchir o'r panelau solar yn uwch yn ystod misoedd yr haf) ond disgwylir y bydd yn dychwelyd i'r ffigwr cyllidebol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**(v)** Felly, nid oes newid yn y rhagolygon cyffredinol ar gyfer incwm, sef gwelliant o £75k erbyn diwedd y flwyddyn.

6. **Gwariant nad oedd yn ymwneud â Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw**

**(i)** Ar ddiwedd yr ail chwarter, roedd gwariant nad oedd yn ymwneud â gwaith trwsio a chynnal a chadw £139k yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd. Mae hyn i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith y cafodd archebion ar gyfer gwariant disgwyliedig ar system TG yr Adran Dai eu codi am y flwyddyn gyfan ac am fod costau'r diwrnodau glanhau yn canolbwyntio'n bennaf ar fisoedd yr haf. Disgwylir y bydd gwariant yn unol â'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

7. **Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw**

**(i)** Mae'r Uned Cynnal a Chadw Tai (HMU) yn dangos tanwariant o £121k. Hon yw'r flwyddyn gyntaf lawn ers allanoli storfa'r HMU, a disgwylir arbedion ac mae'r rheiny wedi'u cynnwys yn y gyllideb. Mae'n amlwg bod yr arbedion a gafwyd yn uwch na'r gyllideb, felly, erbyn hyn mae tanwariant rhagdybiedig o £75k wedi'i gynnwys sydd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cynnydd yn y galw yn ystod misoedd y gaeaf. Parheir i fonitro'r sefyllfa hon.

**(ii)** Mae gwariant ar staff nad ydynt yn staff cynnal a chadw adeiladau'r HMU £2k yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd. Rhagwelir y dylai gwariant fod yn unol â'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

**(iii)** Mae gorwariant o £77k ar waith Trwsio a Chynnal a Chadw arall o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd. Roedd y prif amrywiadau'n ymwneud â gwaith cynnal a chadw tiroedd, lle mae mwy o waith yn cael ei wneud yn ystod cyfnod yr haf ac oherwydd derbyn ffioedd blwyddyn lawn yn gynnar yn y flwyddyn mewn perthynas â'r gwaith trin carthffosiaeth. Disgwylir i wariant fod yn unol â'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

8. **Addasiadau Diwedd Blwyddyn**

**(i)** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ad-daliadau o'r Gronfa Gyffredinol) sy'n rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Ar hyn o bryd, ni ragwelir unrhyw newidiadau.

**9. Gwariant Cyfalaf**

**(i)** Roedd y rhaglen gyfalaf wreiddiol a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2019 yn werth cyfanswm o £14,017k, a oedd am gael ei gyllido o'r Lwfans Gwaith Trwsio Mawr £2,660k, grantiau cyfalaf eraill £1,532k a chyfraniad o gronfa wrth gefn y CRT £9,825k. Mae hyn yn cynnwys gwariant a ddygwyd ymlaen o raglen gyfalaf 2018/19. Gwnaed mân newid i'r gyllideb, sef cynnydd o £100k yng nghost gwaith adfer, fydd yn cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT. Ar sail y wybodaeth bresennol, rhagwelir y bydd y gwariant gwirioneddol yn £14,307k, sydd £190k yn uwch na'r gyllideb ddiwygiedig.

**(ii)** Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd gwariant cyfalaf i raddau helaeth yn unol â'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn. Mae dau eithriad – rhagwelir gorwariant o £142k ar brynu a datblygu eiddo newydd (er bod hyn yn ddibynnol ar faterion megis caniatâd cynllunio), a gorwariant o £48k oherwydd bod angen buddsoddiad pellach i gwblhau'r cynllun ailfodelu adeiladau. Bydd y ddau brosiect yn parhau i gael eu monitro'n ofalus.

**10. Balans y CRT**

**(i)** Roedd balans agoriadol Cronfa Wrth Gefn y CRT yn £8,387k. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu ar gyfer defnyddio £2,107k o'r balans hwn. Fodd bynnag, bydd y gorwariant a ragwelir ar y gyllideb cyfalaf wedi'i gyfuno gyda'r tanwariant a ragwelir ar y gyllideb refeniw yn arwain at ddefnyddio £2,147k. Bydd hyn yn rhoi balans wrth gefn o £6,204k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans hwn wedi cael ei glustnodi'n benodol, felly, nid yw ar gael ond i gyllido gwariant y CRT yn y dyfodol yn unig.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)**(mandadol) | Mae'r UDA wedi ystyried yr adroddiad ac mae'r pwyntiau a godwyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad terfynol. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r UDA ac ystyriwyd sylwadau'r Swyddog Monitro gan yr UDA. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A – Gwariant a rhagolygon refeniw hyd at ddiwedd Chwarter 2.
Atodiad B – Gwariant a rhagolygon cyfalaf hyd at ddiwedd Chwarter 2.

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb CRT am 2019/20 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mawrth 2019).
- Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT am 2019/49 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mawrth 2019).

## CYFRIF REFENIW TAI 2019/20

| | Cyllideb Flynyddol 2019/20 | Cyllideb wedi ei Phroffilio hyd at Fis 6 | Gwirionedd ol hyd at Fis 6 | Amrywiad hyd at Fis 6 | Rhagolygon Diwedd Blwyddyn | Amrywiad Diwedd Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| **CYFRIF REFENIW** | | | | | | |
| **Incwm** | | | | | | |
| Anheddau | (17,970,000) | (8,985,000) | (8,952,325) | 32,675 | (17,970,000) | 0 |
| Garejys | (219,000) | (109,500) | (110,703) | (1,203) | (219,000) | 0 |
| Taliadau Gwasanaeth | (133,000) | (66,500) | (106,217) | (39,717) | (208,000) | (75,000) |
| Arall | (221,000) | (96,004) | (114,546) | (18,542) | (221,000) | 0 |
| Darpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg | 274,000 | 0 | 0 | 0 | 274,000 | 0 |
| **CYFANSWM INCWM** | **(18,269,000)** | **(9,257,004)** | **(9,283,791)** | **(26,787)** | **(18,344,000)** | **(75,000)** |
| **Gwariant nad yw'n ymwneud â Thrwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Cyfranogiad Tenantiaid | 117,930 | 58,923 | 80,575 | 21,652 | 117,930 | 0 |
| Gweinyddu Rhenti | 381,940 | 190,580 | 203,502 | 12,922 | 381,940 | 0 |
| Rheoli Stadau | 229,890 | 114,327 | 105,730 | (8,597) | 229,890 | 0 |
| Gwariant Refeniw Arall | 693,090 | 342,514 | 455,960 | 113,446 | 693,090 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant nad yw'n ymwneud â Thrwsio a Chynnal a Chadw** | **1,422,850** | **706,344** | **845,767** | **139,423** | **1,422,850** | **0** |
| **Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Uned Cynnal a Chadw Tai (HMU) | 3,252,750 | 1,626,500 | 1,505,597 | (120,903) | 3,177,750 | (75,000) |
| Staff Cynnal a Chadw Adeiladau (dim HMU) | 834,220 | 416,189 | 418,625 | 2,436 | 834,220 | 0 |
| Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Arall | 461,110 | 230,578 | 307,601 | 77,023 | 461,110 | 0 |
| **Cyfanswm Trwsio a Chynnal a Chadw** | **4,548,080** | **2,273,267** | **2,231,823** | **(41,444)** | **4,473,080** | **(75,000)** |

| | Cyllideb Flynyddol 2019/20 | Cyllideb wedi ei Phroffilio | Gwirionedd ol hyd at Fis 6 | Amrywiad hyd at Fis 6 | Rhagolygon Diwedd Blwyddyn | Amrywiad Diwedd Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | hyd at Fis 6 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| **Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | | | | | | |
| Taliadau Cyllido Cyfalaf | 3,015,080 | 0 | 0 | 0 | 3,015,080 | 0 |
| Ad-daliad o'r Gwasanaethau Tai | 771,630 | 0 | 0 | 0 | 771,630 | 0 |
| Ad-daliad o'r Gwasanaethau Canolog | 693,360 | 0 | 0 | 0 | 693,360 | 0 |
| **Cyfanswm yr Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | **4,480,070** | **0** | **0** | **0** | **4,480,070** | **0** |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT REFENIW** | **10,451,000** | **2,979,611** | **3,077,590** | **97,979** | **10,376,000** | **(75,000)** |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM (GWARGED) / DIFFYG REFENIW** | **(7,818,000)** | **(6,277,393)** | **(6,206,201)** | **71,192** | **(7,968,000)** | **(150,000)** |
| | | | | | | |
| **CYFRIF GWARIANT CYFALAF** | | | | | | |
| Gwariant 2019/20 | 14,117,000 | 7,058,500 | 5,267,424 | (1,791,076) | 14,306,540 | 189,540 |
| | | | | | | |
| Lwfans Gwaith Trwsio Mawr | (2,660,000) | 0 | 0 | 0 | (2,660,000) | 0 |
| **Grantiau Eraill** | (1,532,000) | 0 | 0 | 0 | (1,532,000) | 0 |
| **CYFANSWM (GWARGED) / DIFFYG CYFALAF** | **9,925,000** | **7,058,500** | **5,267,424** | **(1,791,076)** | **10,114,540** | **189,540** |
| | | | | | | |
| **(CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YNG NGHRONFA WRTH GEFN Y CRT** | **2,107,000** | **781,107** | **(938,777)** | **(1,719,884)** | **2,146,540** | **39,540** |
| | | | | | | |
| **Balans Agoriadol y CRT** | (8,387,000) | | | | (8,387,000) | |
| | | | | | | |
| **(Cynnydd) / Gostyngiad Net yng Nghronfa Wrth Gefn y CRT** | 2,107,000 | | | | 2,146,540 | |
| | | | | | | |
| **Balans Cau'r CRT** | **(6,280,000)** | | | | **(6,240,460)** | |

**ATODIAD B**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad o gymharu â'r Proffil (£) | Gwariant Rhagamcanol (£) | Tan/Gorwariant Rhagamcanol (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CRT** | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 400,000 | 200,000 | 50,730 | (149,270) | 400,000 | 0 |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw wedi'i Gynllunio | 4,850,000 | 2,425,000 | 1,864,144 | (560,856) | 4,850,000 | 0 |
| Gwella Perfformiad Ynni | 400,000 | 200,000 | 7,459 | (192,541) | 400,000 | 0 |
| Gwaith Amgylcheddol | 450,000 | 225,000 | 89,930 | (135,070) | 450,000 | 0 |
| Prynu Eiddo Presennol / Datblygu Eiddo Newydd | 6,371,000 | 3,185,000 | 2,097,785 | (1,087,715) | 6,512,540 | 141,540 |
| Ailfodelu Stoc Gyfredol | 16,000 | 8,000 | 64,329 | 56,329 | 64,000 | 48,000 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 175,000 | 182,987 | 7,987 | 350,000 | 0 |
| Risg Tân | 200,000 | 100,000 | 31,900 | (68,100) | 200,000 | 0 |
| SATC | 750,000 | 375,000 | 561,044 | 186,004 | 750,000 | 0 |
| Gwaith Adfer | 330,000 | 165,000 | 317,115 | 152,115 | 230,000 | 0 |
| **Cyfansymiau ar gyfer y CRT Tai** | **14,117,000** | **7,058,500** | **5,267,424** | **(1,791,076)** | **14,306,540** | **(189,540)** |

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **25 TACHWEDD 2019** |
| **PWNC:** | **SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER 2020/21** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS (AELOD PORTFFOLIO – CYLLID)** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN: E-BOST: | **GERAINT H JONES (RHEOLWR GWASANAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU)**<br>01248 752651 ghjfi@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **DIM YN BERTHNASOL** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Rwy'n argymell fod y Pwyllgor Gwaith yn gwneud y penderfyniadau isod:-

**1.** Nodi cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, fydd yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw i Gyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ariannol 2020/21, sef 30,927.17 (gweler **Atodiad A** ar gyfer y cyfrifiad o Sylfaen y Dreth Gyngor at y diben yma - Rhan E6).

**2.** Cymeradwyo'r cyfrifiad at ddiben pennu Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 am y cyfan o'r ardal ac am rannau ohoni am y flwyddyn 2020/21 (gweler **Atodiad A** ar gyfer y cyfrifiad o sylfaen y dreth – Rhan E5).

**3.** Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y cawsant eu diwygio gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) (Diwygiad) 2016, y rhain yw'r cyfansymiau y mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi eu cyfrif fel Sylfaen y Dreth am 2020/21 sef 31,532.53 ac am y rhannau hynny o'r ardal sydd wedi eu rhestru isod:-

| | |
|---|---|
| Amlwch | 1,495.67 |
| Biwmares | 1,082.64 |
| Caergybi | 3,967.89 |
| Llangefni | 1,990.72 |
| Porthaethwy | 1,440.67 |
| Llanddaniel-fab | 397.03 |
| Llanddona | 378.63 |
| Cwm Cadnant | 1,150.29 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 1,325.03 |
| Llanfihangel Ysceifiog | 691.10 |
| Bodorgan | 470.32 |
| Llangoed | 656.53 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 636.43 |
| Llanidan | 418.06 |
| Rhosyr | 1,030.96 |
| Penmynydd | 244.02 |
| Pentraeth | 587.83 |
| Moelfre | 628.73 |
| Llanbadrig | 701.83 |
| Llanddyfnan | 511.77 |

| | |
|---|---|
| Llaneilian | 578.69 |
| Llannerch-y-medd | 530.09 |
| Llaneugrad | 187.19 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 1,874.32 |
| Cylch y Garn | 409.69 |
| Mechell | 554.88 |
| Rhos-y-bol | 481.07 |
| Aberffraw | 303.31 |
| Bodedern | 422.10 |
| Bodffordd | 419.32 |
| Trearddur | 1,277.31 |
| Tref Alaw | 263.66 |
| Llanfachraeth | 229.19 |
| Llanfaelog | 1,277.95 |
| Llanfaethlu | 279.75 |
| Llanfair-yn-Neubwll | 564.91 |
| Y Fali | 988.73 |
| Bryngwran | 363.51 |
| Rhoscolyn | 357.81 |
| Trewalchmai | 362.90 |

**RHESYMAU A CHEFNDIR**

Mae'r cyfrifiadau wedi cael eu gwneud yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Anheddau'r Dreth Gyngor (CT1 v.1.1) 2020/21 yn seiliedig ar nifer yr eiddo mewn bandiau amrywiol ar y rhestr brisio ar 31 Hydref 2019 a chrynhoir gan yr Awdurdod dan Rhan 22B (7) o Ddeddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992, fel yr ychwanegwyd gan Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r cyfrifiadau yn cymryd i ystyriaeth disgowntiau, eithriadau a phremiymau a hefyd newidiadau i'r rhestr brisio sy'n debygol yn ystod 2020/21.

Rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn, fel awdurdod bilio, gyfrifo sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer ei ardal ac ar gyfer gwahanol rannau o'i ardal a rhaid rhoi gwybod am y symiau hyn i'r cyrff sy'n codi praeseptau ac ardollau erbyn 31 Rhagfyr 2019. Eleni, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am y wybodaeth i bwrpas gosod y Grant Cymorth Refeniw erbyn 14 Tachwedd 2019, ac i bwrpas pennu'r dreth (wedi cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith) erbyn 3 Ionawr 2020.

Mae'r cyfrifiadau yn **Atodiad A** yn seiliedig ar gadarnhau disgownt o ddim ar gyfer eiddo Dosbarthiadau A, B a C; premiwm o 100% ar dai gwag hirdymor a phremiwm o 35% ar ail gartrefi ar gyfer 2020/21 gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2019. Mae'r cyfrifiadau hefyd yn seiliedig ar benderfyniad y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018, byddai'r cynllun lleol cyfredol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn parhau am flynyddoedd dilynol heblaw ei fod yn cael ei newid yn sylweddol. Am 2020/21, dim ond yr uwchraddio arferol i'r budd-daliadau sy'n cael ei weithredu. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i gwrdd yn llawn â chostau cynllun cenedlaethol blaenorol y DU ond bydd costau oherwydd baich achosion ac/neu gynnydd yn y Dreth Gyngor yn syrthio ar gynghorau lleol.

**SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER CYFRIFO'R GRANT CYNNAL REFENIW**

Bydd cyfanswm y disgownt cyfwerth â band D, cyn addasu ar gyfer y gyfradd gasglu (ac sy'n cynnwys lwfans ar gyfer tai sy'n eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn), yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r hawliadau ar gyfer Grant Cynnal Refeniw 2020/21. **OND**, bydd y cyfanswm yma, sy'n cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw, **yn eithrio'r addasiadau am bremiymau ac, am 2020/21 ymlaen, yr disgowntiau a roddir gan rhai awdurdodau ar gyfer eiddo Dosbarthiadau A, B a C (nid yw hyn yn effeithio Ynys Môn gan na roddir disgowntiau).** Cyfrifir y ffigwr yma i fod yn 30,927.17 (i'w gymharu â 30,876.09 am 2019/20). Mae hyn yn gynnydd o 0.17%.

**SYLFAEN Y DRETH AT DDIBEN PENNU'R DRETH**

Bydd cyfanswm y disgownt cyfwerth â band D sy'n cael ei ddefnyddio at ddiben pennu'r dreth wedi cael ei addasu gan wneud lwfans ar gyfer methu â chasglu, sy'n parhau i fod yn 1.5% a, hefyd, sy'n cynnwys lwfans ar gyfer tai sy'n eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Cyfrifir y ffigwr yma i fod yn 31,532.53. **Nodir, felly, bod y ffigurau a nodir dan argymhelliad 3 yn cynnwys yr addasiadau am bremiymau.**

Cyfanswm y sylfaen arfaethedig am 2020/21 at ddiben pennu'r dreth yw 31,532.53. Mae hyn yn cymharu â 31,571.46 am 2019/20 ac yn gostyngiad o 0.12%. Mae hyn o ganlyniad i disgowntiau ychwanegol am berson sengl, disgowntiau a eithriadau ychwanegol am amhariad meddyliol difrifol yn dilyn ymgyrch cenedlaethol a hefyd, gostyngiad yn y nifer o eiddo gwag hirdymor lle roedd y premiwm yn berthnasol. Nid oedd digon o eiddo newydd yn dod i mewn i'r rhestr brisio yn ystod y flwyddyn i osod yn erbyn hyn.

Mae sylfaen y dreth am eiddo gwag hirdymor efo premiwm am 2020/21 yn 318.11 sy'n cymharu â 448.67 am 2019/20.

Mae sylfaen y dreth am ail gartrefi efo premiwm am 2020/21 yn 765.53 sy'n cymharu â 725.63 am 2019/20.

| B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Mae disgresiwn gan y Cyngor llawn, dan reoliadau a wnaed dan Rhan 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac, wedyn, dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, i osod disgownt i ddosbarthiadau penodedig o anheddau (yn bennaf tai haf ac ail gartrefi (Dosbarthiadau A a B)). Wrth i hyn gael ei gyflwyno, penderfynodd y Cyngor llawn osod disgownt o ddim i'r ddau ddosbarth penodedig A a B ac mae'r penderfyniad wedi ei gadarnhau yn flynyddol. Ym mis Mawrth 2007, ac ar argymhelliad y Pwyllgor Gwaith, penderfynodd y Cyngor llawn osod disgownt o ddim ar Ddosbarth Penodedig C (rhai mathau o dai gwag tymor hir) a hynny am y tro cyntaf ac mae wedi gwneud hynny bob blwyddyn wedyn.<br><br>Byddai rhoi disgownt o 25%, 50% neu 100% yn groes i bolisi'r Cyngor llawn â gwrthodwyd yr opsiwn.<br><br>Bu'r Cyngor llawn ar 27 Chwefror 2019, bennu premiwm y dreth gyngor o 100% ar eiddo gwag hirdymor a phremiwm o 35% ar ail gartrefi o'r 1 Ebrill 2019. Mae'r cyfrifiad yma a'r argymhellion yn unol â'r penderfyniad hynny. |
| **C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| Hyd 2004, y Cyngor llawn oedd yn gyfrifol am y cyfrifiad hwn. Bellach, mae'r swyddogaeth hon wedi cael ei thynnu oddi ar y rhestr o swyddogaethau sydd wedi cael eu neilltuo i'r Cyngor llawn. Fodd bynnag, y Cyngor llawn yn hytrach na'r Pwyllgor Gwaith sy'n parhau i fod yn gyfrifol am benderfyniadau sy'n ymwneud â disgowntiau a phremiymau, a phennu Cynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. |
| **CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| Mae'r modd y cafodd y sylfaen ar gyfer y dreth ei gweithio allan yn cymryd i ystyriaeth yn llawn y polisi cyfredol a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ynghylch caniatáu disgowntiau i ddosbarthiadau penodedig A, B a C, ynghyd â pholisi'r Cyngor llawn ar ganiatáu gostyngiad hyd at 100% yn y Dreth Gyngor i'r rheiny sy'n gymwys dan gynllun lleol y Cyngor.<br><br>Mae'r cyfrifiad yma a'r argymhellion yn unol â'r penderfyniad yma a hefyd bod y Cyngor llawn, yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2019, wedi pennu premiwm y Dreth Gyngor o 100% ar dai gwag hirdymor a premiwm o 35% ar ail gartrefi o 1 Ebrill 2019. |
| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| Bydd y cyfrifiad o sylfaen y dreth yn galluogi'r Cyngor llawn i bennu'r gofynion o ran ei Dreth Gyngor i gwrdd â'r gyllideb a gymeradwywyd ganddo ar gyfer 2020/21. |

| DD - | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim Sylw |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Awdur yr adroddiad. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim Sylw |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E - | Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | Efallai na fydd y cyfrifiad o sylfaen y dreth yn ddigon cywir h.y. eithriadau a disgowntiau wedi cael eu gweithio allan yn anghywir, amcangyfrif anheddau sy'n gymwys i godi premiymau arnynt yn anghywir, y newidiadau sy'n debygol o ddigwydd yn 2020/21 yn anghywir, megis tanamcangyfrif erydiad yn sylfaen y dreth dros y blynyddoedd, e.e. gostyngiadau bandio a chyfraddau casglu sy'n rhy optimistaidd. Y risg i'r Cyngor fyddai diffyg o ran faint o'r Dreth Gyngor y byddai'n ei chasglu yn ystod y flwyddyn.<br><br>Ceisir lliniaru hyn drwy gymryd ymagwedd geidwadol wrth amcangyfrif nifer yr anheddau newydd a'r rhai lle gellir codir premiwm arnynt, a thrwy wneud lwfans ar gyfer erydiad yn sylfaen y dreth a'r gyfradd gasglu. |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A: Cyfrifiad ar gyfer Sylfaen y Dreth Leol 2020/21

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Nodiadau ar Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Anheddau'r Dreth Gyngor (CT1) 2020/21

## CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH GYNGOR LEOL 2020/21

**ATODIAD A**

| | BAND | A* | A | B | C | D | E | F | G | H | I | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan A** | **ANHEDDAU TRETHADWY** | | | | | | | | | | | |
| **A.1** | Holl anheddau trethadwy | | 4,638 | 6,587 | 6,555 | 7,040 | 5,338 | 2,633 | 1,030 | 159 | 52 | 34,032 |
| **A.2** | Anheddau sy’n derbyn gostyngiad anabledd | | 14 | 48 | 48 | 92 | 73 | 54 | 14 | 10 | 6 | 359 |
| **A.3** | Cyfanswm yr anheddau trethadwy wedi’i addasu (gan gymryd i ystyriaeth ostyngiadau anabledd) | 14 | 4,672 | 6,587 | 6,599 | 7,021 | 5,319 | 2,593 | 1,026 | 155 | 46 | 34,032 |
| **Rhan B** | **ADDASIADAU DISGOWNT A PHREMIWM** | | | | | | | | | | | |
| **B.1** | Anheddau heb ddisgownt neu bremiwm (gan gynnwys eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi heb ddisgownt neu bremiwm) | 8 | 1,807 | 3,539 | 3,753 | 4,304 | 3,659 | 1,893 | 738 | 96 | 28 | 19,825 |
| **B.2a** | Anheddau gyda disgownt o 25% (ag eithrio eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi heb ddisgownt) | 6 | 2,624 | 2,738 | 2,367 | 2,103 | 1,226 | 473 | 157 | 23 | 5 | 11,722 |
| **B.2b** | Anheddau gyda disgownt o 50% (ag eithrio eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi heb ddisgownt) | 0 | 11 | 14 | 19 | 20 | 18 | 7 | 12 | 4 | 0 | 105 |
| **B.3a** | Anheddau gyda disgownt amrywiol ag eithrio 25% neu 50% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.3b** | Anheddau gyda disgownt eiddo gwag hirdymor eu ail gartref | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.3c** | Anheddau gyda phremiwm eiddo gwag hirdymor neu ail gartref | | 230 | 296 | 460 | 594 | 416 | 220 | 119 | 32 | 13 | 2,380 |
| **B.4** | Cyfanswm yr anheddau a addaswyd sydd yn daladwy | 14 | 4,672 | 6,587 | 6,599 | 7,021 | 5,319 | 2,593 | 1,026 | 155 | 46 | 34,032 |
| **B.5** | Holl disgowntiau amrywiol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.6** | Addasiad disgownt am eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi | | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| **B.7** | Addasiad premiwm am eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi | | 133.2 | 149.1 | 190.9 | 248.2 | 172.9 | 89.4 | 50.1 | 12.5 | 5.2 | 1,051.4 |

## CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH GYNGOR LEOL 2020/21

| | BAND | A* | A | B | C | D | E | F | G | H | I | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan C** | **CYFRIFIAD O ANHEDDAU TRETHADWY GYDA DISGOWNTIAU A PHREMIYMAU** | | | | | | | | | | | |
| **C.2** | Cyfanswm anheddau gan gynnwys disgowntiau a phremiymau | 13 | 4,144 | 6,045 | 6,189 | 6,733 | 5,176 | 2,561 | 1,031 | 160 | 50 | |
| **C.3** | Cymhareb â Band D | 5/9 | 6/9 | 7/9 | 8/9 | 1 | 11/9 | 13/9 | 15/9 | 18/9 | 21/9 | |
| **C.4** | Cyfwerthoedd Band D (wedi'i talgrynnu i ddau le degol) | 6.94 | 2,762.43 | 4,701.36 | 5,501.02 | 6,733.45 | 6,326.71 | 3,698.64 | 1,718.08 | 319.50 | 116.55 | 31,884.68 |
| **C.7** | Cyfanswm anheddau gostyngiedig ac eithrio addasiad hirdymor gwag ac ail gartref | 13 | 4,011 | 5,896 | 5,998 | 6,485 | 5,004 | 2,471 | 981 | 147 | 45 | |
| **C.8** | Cyfwerthoedd Band D ag eithrio addasiad eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 6.94 | 2,673.67 | 4,585.39 | 5,331.33 | 6,485.25 | 6,115.39 | 3,569.58 | 1,634.58 | 294.50 | 104.42 | 30,801.05 |
| **Rhan E** | **CYFRIFO SYLFAEN Y DRETH GYNGOR** | | | | | | | | | | | |
| **E.1** | Anheddau Trethadwy : cyfwerthoedd Band D | | | | | | | | | | | 31,884.68 |
| **E.2** | Cyfradd gasglu (wedi'i dalgrynnu i ddau le degol) | | | | | | | | | | | 98.50% |
| **E.3** | = E1 x E2 (wedi'i dalgrynnu i ddau le degol) | | | | | | | | | | | 31,406.41 |
| **E.4** | Anheddau Dosbarth O wedi'u heithrio : cyfwerthoedd Band D (Eiddo'r Weinyddiaeth Amffiddyn) | | | | | | | | | | | 126.12 |
| **E.5** | Y sylfaen y Dreth Gyngor at ddiben pennu'r dreth | | | | | | | | | | | 31,532.53 |
| **E.5b** | Anheddau disgowntedig trethadwy ag eithrio addasiad eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | | | | | | | | | | | 30,801.05 |
| **E.6** | 100% Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer cyfrifo'r grant cynnal refeniw | | | | | | | | | | | 30,927.17 |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **27/11/19** |
| **Pwnc:** | **Ffederaleiddio Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd R. Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Mr Rhys H Hughes** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Meinir Hughes**<br>**01248752947**<br>**MeinirHughes@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Cynghorydd Margaret M Roberts**<br>**Cynghorydd Ieuan Williams**<br>**Cynghorydd Vaughan Hughes** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd yn dilyn cyfnod rhybudd statudol ar y cynnig i ffederaleiddio Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre.

Ar 16 Medi 2019 adroddwyd i Bwyllgor Gwaith y Cyngor ar yr ymatebion a dderbyniwyd gan ran-ddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad statudol. Derbyniwyd nifer o ymatebion cefnogol a chadarnhaol i'r cynnig. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig. Yn eu cyfarfod ar 16 Medi 2019, penderfynodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor fel a ganlyn:

i. Cymeradwyo'r cynnig i ffederaleiddio Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre o'r 6ed o Ionawr 2020.
ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)2013

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013, a Chôd Trefniadaeth 011/2018 ynghyd â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn eu cyfarfod ar 16 Medi, 2019 cyhoeddwyd rhybudd statudol ar 30 Medi ,2019 Yn dilyn hyn fe gynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu statudol o 28 diwrnod ar y cynnig hwn.

O dan adran 49 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae'n rhaid i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau ac ymateb i'r gwrthwynebiadau hynny yn yr adroddiad hwn sef 'Adroddiad Gwrthwynebu'

Gosodwyd copi o’r rhybudd ym mhrif fynedfa'r ddwy ysgol. Dosbarthwyd copïau electroneg a chaled o’r rhybuddion yn unol â gofynion y Côd Trefniadaeth Ysgolion. Nodwyd yn glir yn y rhybuddion bod modd i unrhyw un wrthwynebu a sut yr oedd modd gwneud hynny.

Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 27 Hydref, 2019.

**Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod hwn.**

2. **Camau Nesaf**

Gan na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau mae’r Gwasanaeth Dysgu yn argymell fod Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn cadarnhau’n derfynol y cynnig i ffederaleiddio Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Yr opsiwn arall yw parhau gyda’r trefniadau presennol ond mae’r ysgolion a’r Cyrff Llywodraethu’n awyddus i symud i ymgynghori ar y cynnig hwn oherwydd manteision ffederaleiddio. Yn bennaf bydd ffederaleiddio yn galluogi’r ysgolion i gydweithio trwy broses strwythuredig ffurfiol, trwy rannu un corff llywodraethu, a fydd yn gwneud penderfyniadau er budd pennaf yr holl ysgolion, staff a disgyblion o fewn y ffederasiwn hwnnw.

| Opsiynau amgen | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| Ysgol aml safle | • Un gyllideb<br>• Un wisg ysgol<br>• Un enw<br>• Un ysgol ar ddau safle | • Cau y ddwy ysgol<br>• Colli hunaniaeth<br>• Gwrthwynebiadau lleol |
| Aros mewn partneriaeth gyda dau gorff llywodraethu yn rheoli. | • Cadw aelodaeth y cyrff llywodraethu yn lleol | • Anghynaladwy i’r pennaeth, gofynion amser yn uchel<br>• Dim yn sefyllfa ddeniadol i ymgeiswyr<br>• Dim yn gallu cydlynu y defnydd gorau o adnoddau<br>• Anodd recriwtio aelodau ar gyfer dau gorff |

Yng ngoleuni hyn mae’r Awdurdod yn cefnogi’r cais i ffederaleiddio.

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae ffederaleiddio yn 'newidiad a reoleiddir' o fewn trefn ail strwythuro ysgolion ac o fewn gofynion Côd Trefniadaeth Ysgolion, 011/2018. Penderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith yw hyn ac mae angen iddynt gyhoeddi cynigion ar y newid gan ystyried yr ymatebion. |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydy |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldeb** | |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| dim |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Dim |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **25/11/2019** |
| **Pwnc:** | **Ysgogiad Economaidd Llywodraeth Cymru** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Carwyn Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dylan Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Tudur Jones – Swyddog Datblygu Economaidd**<br><br>**01248 752146**<br>**TudurJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Holl Aelodau** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau**

**Argymhellion**

1. **Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi cynnig o £491,330 o arian cyfalaf ar gyfer 2019/2020.**

2. **Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo prosiectau ar y tir tu ôl i Peboc a hen Ysgol y Parc fel cynlluniau blaenoriaeth.**

3. **Os bydd rhaid defnyddio cyfran neu'r cyfan o'r grant fel rhan o'r cyllid ar gyfer dymchwel hen Ysgol y Parc a llyfrgell Caergybi, yna gellir defnyddio swm cyfatebol o dderbyniad cyfalaf yn 2020/21 i gwblhau'r gwaith o ailddatblygu'r tir tu ôl i Peboc (os yw'r cynllun hwnnw wedi cychwyn yn 2019/20).**

4. **Bod y Pwyllgor Gwaith yn dirprwyo awdurdod i'r Dirprwy Brif Weithredwr a'r Deilydd Portffolio ddatblygu'r ddau brosiect i'r cyfnod gweithredu a chytuno i gyflawni cynlluniau cyfalaf cymwys eraill os na ddefnyddir yr arian i gyd ar y ddau brosiect blaenoriaeth.**

**1.0 Cyd-destun a Chefndir**

Cynigiodd Llywodraeth Cymru £491,330 i'r Cyngor Sir mewn llythyr dyddiedig 29 Awst 2019, a rhaid gwario'r arian i gyflawni'r canlynol:

- *buddsoddi mewn cynlluniau cyfalaf i yrru newidiadau pwysig mewn cymunedau.*
- *ariannu amrywiaeth o brosiectau y gellir eu cyflawni'n gyflym, o fewn blwyddyn, gan ddarparu buddion economaidd sydd wedi eu halinio â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru*

*ac sydd â'r gallu i ysgogi galw economaidd ehangach mewn cyfnod y mae mwyaf ei angen.*

- *ystyried unrhyw effeithiau cadarnhaol ar fioamrywiaeth a'r amgylchedd y gellir eu cyflawni drwy fuddsoddi'r arian hwn.*

Un o'r prif amodau'n gysylltiedig â'r cynnig hwn yw bod rhaid gwario a hawlio'r arian erbyn 31 Mawrth 2020.

Bu i swyddogion yr adran Datblygu Economaidd ystyried nifer o brosiectau posib a allai elwa o'r arian hwn. Roedd y prif faterion a ystyriwyd yn cynnwys:

1. Statws Cynllunio – beth yw statws cynllunio'r prosiect? A oes caniatâd cynllunio ar gyfer y prosiect neu a fydd angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer?
2. Llwybr Caffael – a oes llwybr cyflym i'r farchnad drwy gyfrwng fframwaith neu a fydd rhaid cynnal proses agored ar GwerthwchiGymru?
3. Ysgogiad Economaidd – a yw'r prosiect yn creu/cychwyn hwb economaidd?
4. Ychwanegedd - pa ychwaneged fydd y prosiect yn ei greu yn yr economi leol/ranbarthol?
5. Perchnogaeth Tir/Asedau - a fydd y prosiect yn cael ei gyflawni ar dir ym mherchnogaeth y sector cyhoeddus?

Roedd y cyfnod byr ar gyfer cwblhau prosiectau yn elfen holl bwysig wrth ystyried ein gallu i gyflawni prosiectau. Roedd rhai o'r prosiectau y rhoddwyd ystyriaeth iddynt, ond y barnwyd nad oedd modd eu cyflawni a'u gweithredu erbyn diwedd mis Mawrth 2020, yn cynnwys gwneud gwelliannau i ganol trefi, adfer safleoedd diwydiannol llygredig, gwelliannau morol / ar y glannau, a gosod pwyntiau gwefru newydd ar gyfer cerbydau trydan.

**2.0 Y Prosiectau**

Cymeradwyodd yr UDA ddau brosiect blaenoriaeth i'w datblygu ochr yn ochr, gyda'r ddau i gael eu cyflawni a'u gweithredu. Y ddau gynllun oedd ailddatblygu'r tir tu ôl i Peboc (Atodiad B) a symud ymlaen i ddymchwel hen Ysgol y Parc a'r llyfrgell yng Nghaergybi (Atodiad C).

**Prosiect 1 – Ailddatblygu tir tu ôl i Peboc**
Gan ddefnyddio'r Contractwr Tymor ar gyfer Priffyrdd, byddem yn cyflogi Griffiths Civil Engineering i osod yr holl seilwaith angenrheidiol – ffyrdd, goleuadau stryd, system ddraenio ayb – er mwyn agor y tir tu ôl i ffatri Peboc. O ganlyniad, byddai'r tir hwn ar gael i'w ailddatblygu, naill ai gan ddefnyddio arian yr UE sy'n weddill neu ei werthu i'r sector preifat, gan gynhyrchu derbyniadau cyfalaf i'r Cyngor Sir yn ogystal â chreu mwy o gyfleoedd o ran gwaith a thwf.

**Prosiect 2 – Dymchwel hen Ysgol y Parc a'r Llyfrgell**
Ymgymryd â'r holl astudiaethau anghenrheidiol – asbestos, ecoleg, strwythurol – a gwaith cyn dymchwel yr adeiladau er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r holl gostau cysylltiedig er mwyn bod mewn sefyllfa i gychwyn y gwaith o ddymchwel y ddau adeilad ac agor y tir yng nghanol y dref ar

gyfer ei ailddatblygu.

Cydnebir a derbynnir na fydd y swm o £471,000 a dderbyniwyd (er ei fod yn swm sylweddol) yn caniatáu i'r Cyngor Sir gwblhau'r ddau weithgaredd ac, o ganlyniad, bydd rhaid i'r Cyngor Sir ddarparu arian cyfatebol i sicrhau bod y ddau brosiect yn cael eu cyflawni ac yn sgil hynny, yn sicrhau'r deilliannau mwyaf.

Byddai dymchwel hen Ysgol y Parc a llyfrgell Caergybi yn cynyddu gwerth cyfalaf y safle a phetai'r adeiladau'n cael eu dymchwel cyn gwerthu'r safle, y bwriad oedd y byddai'r derbyniadau cyfalaf a gynhyrchwyd yn ariannu cost y gwaith dymchwel. Os nad oes modd defnyddio'r grant yn llawn i ailddatblygu'r tir tu ôl i Peboc, byddai'r grant yn weddill yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at gostau dymchwel yn 2019/20. Byddai hyn yn arwain at danddefnyddio'r derbyniadau cyfalaf a byddai'r swm hwnnw'n cael ei ddwyn ymlaen i 2020/21 ac yn cael ei ailddefnyddio i gwblhau'r gwaith o ailddatblygu'r tir tu ôl i Peboc. Fodd bynnag, os nad yw'r gwaith o ailddatblygu safle Peboc yn cychwyn yn 2019/20, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried unwaith eto a yw ailddatblygu'r safle hwn yn flaenoriaeth o ystyried y bydd rhaid i'r Cyngor ddefnyddio arian cyfalaf craidd yn 2020/21 i symud ymlaen â'r prosiect.

Daethpwyd i gytundeb hefyd y byddai gwaith yn cael ei wneud i adolygu a gwerthuso'r caniatâd cynllunio a'r cynnig presennol ar gyfer cynllun teithwyr Parc Gwledig y Morglawdd. Bydd swyddogion yr adran Datblygu Economaidd yn asesu pa mor hyfyw fyddai datblygu'r cynllun hwn.

Os na fydd modd cyflawni'r ddau gynllun blaenoriaeth uchod, er bod hynny'n annhebygol, yna byddai'r Cyngor Sir yn edrych ar brynu tir, mewn lleoliadau strategol o gwmpas yr Ynys, y gellid ei ddatblygu yn y dyfodol, neu ddatblygu prosiectau amgen a fyddai'n cyfrannu at amcanion datblygu economaidd. Byddai gan y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Deilydd Portffolio ddisgresiwn i benderfynu ar y opsiynau amgen hyn.

**3.0 Camau Nesaf**

Mae trafodaethau cychwynnol eisoes wedi cael eu cynnal gyda Griffiths Civil Engineering i sicrhau y byddai modd cyflawni'r ddau brosiect o fewn yr amserlen ddynodedig.

Yn amodol ar dderbyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Gwaith, bydd y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd wedyn yn datblygu'r prosiectau yn fwy ffurfiol gan ystyried comisiynu arbenigwyr allanol os bydd angen, rhoi sylw i unrhyw agweddau statudol a chaffael capasiti i gyflawni'r gwaith.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
| --- |
| Ystyriwyd nifer o syniadau eraill am brosiectau fel rhan o'r ymagwedd 'rhestr hir' ond cawsant eu |

| |
|---|
| gwrthod am nifer o resymau gan gynnwys caffael, gofynion cynllunio, yr amserlen ar gyfer eu cyflawni. Nid oedd yn bosib cyflawni rhai o'r cynlluniau o fewn yr amserlen ar gyfer 2019/2020. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r mater hwn oherwydd y swm o arian dan sylw. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |


| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cefnogi datblygu'r ddau gynllun ac yn cytuno i gynnwys arian craidd y Cyngor Sir i sicrhau bod y ddau gynllun yn cael eu cyflawni. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Fel uchod. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylw |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Croesewir yr arian gan Lywodraeth Cymru, er gwaetha'r pwysau i'w wario o fewn yr amserlen ddynodedig. Mae'r ddau gynllun a nodwyd yn flaenoriaethau a byddant yn sicrhau canlyniadau a manteision economaidd i Ynys Môn. |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |

| | | |
|---|---|---|
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |




Key

Site boundary

0 m 50 m

Scale 1:1250 @ A1

© Crown copyright. All rights reserved. Licence number AL100001776.

Client

Isle of Anglesey County Council

Llangefni Industrial Estate Extension
Site Location Plan

39696-LEA-XX-DR-5001-GA Site Location Plan

October 2019

wood.

H:\Projects\31416 ANGLESEY FRAMEWORK - Restricted Access\39696 Penhros Business Units\Llangefni Estate Extension\Planning\CAD\39696-LEA-03 Red Line Plan.dwg Originator: PATRICK THIRLWALL

**Ysgol Y Parc Location**



This page is intentionally left blank